
Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



# Cod Ymarfer ar gyfer Graddau Ymchwil 2025/26

# Cynnwys


**DERBYNIADAU** ..... **5**

*Ystyried cais ffurfiol* ..... *5*
*Dyrannu tîm goruchwylio* ..... *5*
*Llinell amser* ..... *6*

Gofynion Mynediad Cyffredinol ..... 6
Ymgeiswyr ansafonol ..... 6
Trosglwyddo o sefydliad arall ..... 6
Trosglwyddo i sefydliad arall ..... 7
Prosiectau Ymchwil Cydweithredol ..... 7
Amgylchedd Ymchwil ..... 7

**DULLIAU, PATRYMAU A CHYFNODAU ASTUDIO** ..... **9**

Cyfnodau Astudio ..... 10
*PhD* ..... *10*
*MPhil* ..... *10*
*MA trwy Ymchwil / MSc trwy Ymchwil* ..... *10*
*Doethuriaethau Proffesiynol* ..... *10*
*Meistr trwy Ymchwil (MRes)* ..... *10*
*PhD trwy Weithiau Cyhoeddedig* ..... *11*

Tîm Goruchwylio ..... 12
Meini Prawf Penodol ar gyfer Penodi Tîm Goruchwylio ..... 12
Cyfarwyddwr Astudiaethau ..... 13
Goruchwylwyr ..... 14
Cynghorydd ..... 15
Llwyth Goruchwylio ..... 15
Hawl Goruchwylio ..... 16
Cronfa Goruchwylwyr ..... 17
Meini prawf ar gyfer Cyfeiriadur Goruchwylwyr ac Arholwyr y Brifysgol ..... 18

**CERRIG MILLTIR GRADDAU YMCHWIL** ..... **20**

Cofrestru ar neu Fynd Ymlaen i Radd Ymchwil ..... 20
Cynefino ..... 20
Disgwyliadau Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig ..... 21
Gweithio tra byddwch yn fyfyriwr amser llawn ..... 21
Cynorthwywyr Addysgu Graddedig ..... 22

**CERRIG MILLTIR Y FLWYDDYN GYNTAF** ..... **23**

Cynnig Ymchwil Llawn ..... 23
Cymeradwyaeth Foesegol ..... 23
Adolygiad Cynnydd ..... 23
Monitro Cynnydd ..... 24
*PhD Amser Llawn* ..... *24*
*MPhil Amser Llawn* ..... *25*
*MA trwy Ymchwil / MSc trwy Ymchwil Amser Llawn* ..... *25*
*Doethuriaeth Broffesiynol Amser Llawn* ..... *25*
*Meistr trwy Ymchwil (MRes) Amser Llawn* ..... *26*
*PhD trwy Weithiau Cyhoeddedig Amser Llawn* ..... *26*

Cylch Gorchwyl Bwrdd Adolygu Cynnydd ..... 27
Canlyniadau Adolygiadau Cynnydd ..... 27
*Cynnydd Boddhaol* ..... *27*
*Achos Pryder* ..... *27*
*Anfoddhaol* ..... *28*

Cyfnod Astudio Prawf (PhD yn unig) ..... 30

*Amserlen cyfnod prawf* ... *30*
*Disgwyliadau yn ystod cyfnod prawf* ... *30*
*Dod â chyfnod prawf i ben (PhD yn unig)* ... *30*
*Panel Prawf* ... *30*
TORIAD I ASTUDIAETHAU ... 31
*Rhesymau dros gael toriad* ... *31*
*Y drefn ar gyfer gwneud cais* ... *32*
*Adolygu penderfyniad i beidio â chymeradwyo cais am doriad i astudiaethau* ... *32*
*Amseriad a hyd y toriad i astudiaethau* ... *32*
NEWID DULL ASTUDIO ... 33
*Adolygu penderfyniad i beidio â chymeradwyo newid dull astudio* ... *34*
*Angen newid dull astudio* ... *34*
TROSGLWYDDO I DDYFARNIAD UWCH/IS ... 34
*Trosglwyddo i ddyfarniad uwch (ac eithrio rhaglen MRes)* ... *34*
*Trosglwyddo i ddyfarniad is (ac eithrio rhaglen MRes)* ... *35*
GORFOD CYMRYD TORIAD ... 35
TYNNU'N ÔL YN WIRFODDOL ... 35
ESTYNIAD I'R DYDDIAD CYFLWYNO TERFYNOL AR GYFER CWBLHAU GRADD YMCHWIL ... 35
*Rhesymau dros estyniad* ... *36*
*Y drefn ar gyfer gwneud cais* ... *36*
*Adolygu penderfyniad i beidio â chymeradwyo ceisiadau am estyniad* ... *36*

**PARATOI'R TRAETHAWD YMCHWIL I'W GYFLWYNO ... 37**

*Uchafswm geiriau* ... *37*
*Cynnwys arteffactau mewn traethawd ymchwil* ... *37*
*Cynnwys papurau cyhoeddedig mewn traethawd ymchwil* ... *38*
CANLLAWIAU AR FFORMAT A RHWYMIAD Y TRAETHAWD YMCHWIL ... 38
*Fformat y Traethawd Ymchwil* ... *38*
*Fformatio safonol traethawd ymchwil:* ... *39*
*Rhwymo'r Traethawd Ymchwil* ... *42*
*Beth i'w gyflwyno* ... *43*
CYFLWYNO TRAETHAWD YMCHWIL ... 43
*Nodyn ynghylch cyflwyno'n gynnar* ... *43*
*Nodyn ar y dyddiad cyflwyno terfynol* ... *44*
*Mynediad i'r Traethawd Ymchwil* ... *44*
*Sylwadau'r Goruchwyliwr ar ôl cyflwyno* ... *44*

**ARHOLI GRADDAU YMCHWIL (CANLLAWIAU I ORUCHWYLWYR AC ARHOLWYR) ... 45**

*Cyflwyniad a Chwmpas* ... *45*
HYSBYSIAD CYFLWYNO ... 45
AMSERLEN A THREFNIADAU ARHOLI ... 46
*MA trwy Ymchwil / MSc trwy Ymchwil a MRes* ... *46*
*MPhil, PhD, PhD trwy Weithiau Cyhoeddedig, a Doethuriaeth Broffesiynol* ... *46*
LLEOLIAD ARHOLIADAU LLAFAR (VIVAS) ... 47
AELODAU'R BWRDD ARHOLI ... 47
CYFANSODDIAD BWRDD ARHOLI ... 47
SICRHAU DIDUEDDRWYDD BYRDDAU ARHOLI ... 48
MENTORA ... 49
DYLETSWYDDAU AELODAU'R BWRDD ARHOLI ... 50

**CANLLAWIAU AR GYFER CADEIRYDDION BYRDDAU ARHOLI GRADDAU YMCHWIL ... 51**

CADEIRYDD BYRDDAU ARHOLI ... 51
*Cyfrifoldeb y Cadeirydd* ... *51*
*Trefniadau ar gyfer yr arholiad llafar* ... *51*
*Cyn yr arholiad llafar* ... *51*
*Yr arholiad llafar* ... *52*
*Ar ôl yr arholiad llafar* ... *53*

*Cyfrifoldebau Pellach* ........ *53*

**ARHOLIAD RHAGARWEINIOL O'R TRAETHAWD YMCHWIL** ........ **54**

*MPhil, PhD, PhD trwy Weithiau Cyhoeddedig, a'r Ddoethuriaeth Broffesiynol* ........ *54*
*MRes, MA trwy Ymchwil/MSc trwy Ymchwil* ........ *54*
Y GOFYNIAD O RAN YR ARHOLIAD LLAFAR ........ 55
*Dibenion yr arholiad llafar* ........ *55*
YR ARHOLIAD LLAFAR (VIVA VOCE) ........ 55
PAN NA DDAW'R ARHOLWYR I GYTUNDEB ........ 56

**CANLYNIADAU BWRDD ARHOLI** ........ **57**

CANLYNIADAU PHD ........ 57
CANLYNIADAU DOETHURIAETH BROFFESIYNOL ........ 57
CANLYNIADAU PHD TRWY WEITHIAU CYHOEDDEDIG ........ 57
CANLYNIADAU MPHIL ........ 58
CANLYNIADAU MRES/MA TRWY YMCHWIL/MSC TRWY YMCHWIL ........ 58
ADRODDIADAU BYRDDAU ARHOLI A CHANLYNIADAU'R PGY ........ 59
*Ar ôl yr Arholiad* ........ *59*
GWEITHDREFNAU AR GYFER ADRODD YNGHYLCH PRYDERON DIFRIFOL ........ 60
YMATEB I ADRODDIADAU ARHOLI GRADDAU YMCHWIL ........ 60
HYSBYSIAD FFURFIOL O GANLYNIAD A CHYFLWYNO'R TRAETHAWD YMCHWIL TERFYNOL ........ 60
TERFYNU PENODIAD ARHOLWR ........ 60
FFIOEDD AR GYFER ARHOLWYR ALLANOL ........ 61

# DERBYNIADAU

Cedwir at Bolisi Derbyn y Brifysgol ym mhob achos ac yn ddieithriad.

Cydlynir ceisiadau ar gyfer derbyn ar raglenni ymchwil ôl-raddedig trwy'r Gofrestrfa (Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig), a rhoddir gwybod am benderfyniadau derbyn ar y rhaglenni astudio hynny i Fwrdd y Coleg Doethurol.

Rhaid gwneud cais drwy borth ceisiadau'r Brifysgol ar gyfer graddau ymchwil. Rhaid i ymgeiswyr ar gyfer PhD, PhD trwy Weithiau Cyhoeddedig, MPhil a Meistr yn y Gwyddorau trwy Ymchwil drafod eu cynnig ymchwil gyda goruchwyliwr academaidd cyn cyflwyno eu cais.

Er mwyn derbyn ymgeisydd ar raglen ymchwil rhaid cynnal cyfweliad (naill ai wyneb yn wyneb neu drwy ddulliau electronig), lle bynnag y bo modd. Bydd hyn yn cynnwys o leiaf un aelod o staff yr Athrofa neu'r sefydliad partner cydweithredol, y mae'n rhaid iddynt fod wedi cael hyfforddiant priodol mewn gweithdrefnau dethol a derbyn.

Disgwylir i ymgeiswyr graddau ymchwil gyflwyno enwau dau ganolwr yn rhan o'r broses ymgeisio ffurfiol. Fel arfer dylai'r canolwyr hyn fod yn unigolion o sefydliad lle bu'r ymgeisydd yn astudio neu'n gweithio, neu lle mae'r ymgeisydd yn gweithio ar hyn o bryd. Dylai canolwyr fel arfer allu gwneud sylwadau am waith yr ymgeisydd. Ni ddylai'r canolwyr fod yn berthynas nac yn ffrind personol i'r ymgeisydd. Os yw'r canolwyr o sefydliad lle bu'r ymgeisydd yn astudio, yna mae'n rhaid iddynt fod yn academyddion sydd wedi asesu'r myfyriwr fel rhan o'r cymhwyster a ddefnyddir i gael mynediad. Os yw'r canolwyr o sefydliad lle bu neu lle mae'r ymgeisydd yn gweithio, yna mae'n rhaid iddynt fod wedi gweithredu'n rheolwr llinell ar yr ymgeisydd.

## Ystyried cais ffurfiol

Dylai ystyriaeth o'r cais fel arfer gynnwys y canlynol, o leiaf:

- argaeledd tîm goruchwylio addas;
- addasrwydd academaidd yr ymgeisydd i gwblhau'r prosiect ymchwil arfaethedig;
- asesu addasrwydd, dichonoldeb a hyfywedd y prosiect ymchwil arfaethedig;
- ystyried unrhyw adnoddau y gall fod eu hangen ar gyfer y prosiect a'u hargaeledd yn yr Athrofa ac i'r ymgeisydd;
- ystyried y prosiect ymchwil arfaethedig yng ngoleuni Strategaeth Ymchwil ac Arloesi'r Brifysgol;
- a oes unrhyw ofynion eiddo deallusol y mae angen eu cwblhau cyn cychwyn yr ymchwil;
- nodi unrhyw anghenion hyfforddi a sut bydd yr anghenion hyfforddi hynny yn cael eu diwallu, gan gynnwys costau;
- cyfweliad yr ymgeisydd;
- a oes angen gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd;
- a oes gan yr ymgeisydd (ar gyfer ymgeiswyr nad Saesneg na Chymraeg yw eu mamiaith) yr hyfedredd gofynnol yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Yn achos y Saesneg, dangosir hyn fel arfer trwy gael isafswm sgôr IELTS (neu gyfatebol) o 6.5 rhwng popeth (i gynnwys isafswm sgôr o 6.5 mewn darllen ac ysgrifennu); ac
- a ellid gwneud trefniadau wrth gefn priodol pe bai adnoddau heb fod ar gael mwyach.

Dilynir prosesau ychwanegol ar gyfer ymgeiswyr rhyngwladol o bell ac ymgeiswyr rhyngwladol sydd angen fisa Llwybr Myfyrwyr.

## Dyrannu tîm goruchwylio

Cyfrifoldeb yr Athrofa yw dyrannu'r tîm goruchwylio sy'n gorfod sicrhau bod yr holl oruchwylwyr yn cael eu cofnodi ar Gyfeirlyfr Goruchwylwyr Ymchwil y Brifysgol cyn cymeradwyo unrhyw dîm goruchwylio. Mae'r holl oruchwylwyr yn amodol ar gyfyngiadau ar nifer y myfyrwyr dan oruchwyliaeth, fel y nodir yn yr adran Llwyth Goruchwylio o'r ddogfen hon, a gall hyn gyfyngu ar eu hargaeledd i ymuno â thimau goruchwylio newydd.

**Llinell amser**

Y dyddiadau cychwyn fel arfer yw 01 Hydref, 01 Chwefror a 01 Mehefin, er nad yw pob rhaglen ar gael ar bob pwynt mynediad. Cynghorir ymgeiswyr i wirio gwefan y rhaglen berthnasol, neu gyda'r Rheolwr Rhaglen, Rheolwr Graddau Ymchwil yr Athrofa berthnasol, neu gyda'r Gofrestrfa (Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig).

Ar gyfer y rhaglenni PhD, PhD trwy Weithiau Cyhoeddedig, MPhil a Meistr yn y Gwyddorau trwy Ymchwil, cynghorir ymgeiswyr cartref i wneud cais am eu dyddiad cychwyn dewisol a bydd y Gofrestrfa'n ceisio bodloni'r cais. Argymhellir cyflwyno cais yn gynnar; fel arfer wyth wythnos cyn y pwynt mynediad, oni nodir yn wahanol. Cynghorir ymgeiswyr rhyngwladol i gyfeirio at y dyddiadau cau perthnasol ar dudalennau gwe Ceisiadau Rhyngwladol.

Mae'r llinell amser ar gyfer cyfathrebu penderfyniadau ar geisiadau wedi'i nodi ym Mholisi Derbyn Myfyrwyr y Brifysgol.

# Gofynion Mynediad Cyffredinol

Yn ychwanegol at y gofynion mynediad sylfaenol arferol ar gyfer pob gradd, a nodir ym Mhennod 8 y Llawlyfr Ansawdd Academaidd (8.2 Gofynion Mynediad ar gyfer Graddau Ymchwil), rhaid i ymgeiswyr allu bodloni'r awdurdodau academaidd perthnasol ynghylch eu hyfedredd yn y Gymraeg neu'r Saesneg ar lefel angenrheidiol i gwblhau'r rhaglen waith yn yr iaith ddewisol, a pharatoi ac amddiffyn traethawd ymchwil yn yr iaith honno. Fel arfer gall myfyrwyr sydd ag iaith heblaw Saesneg yn famiaith iddynt arddangos hyfedredd yn y Saesneg trwy gael isafswm sgôr IELTS (neu gyfatebol) o 6.5 rhwng popeth (gan gynnwys isafswm sgôr o 6.5 mewn darllen ac ysgrifennu).

Fel arfer ni chaniateir i fyfyrwyr fod wedi cofrestru ar yr un pryd ar raglen arall sy'n arwain at ddyfarniad yn y brifysgol hon neu unrhyw brifysgol/sefydliad arall.

Rhaid bodloni unrhyw amodau a osodir yn y cynnig cyn cofrestru. Os na fodlonir yr amodau, gellir gohirio eu cofrestriad tan y cyfnod cofrestru nesaf.

Gall ymgeiswyr nad ydynt yn meddu ar y gofynion mynediad isaf arferol gael eu hystyried i'w derbyn yn ymgeiswyr ansafonol

# Ymgeiswyr ansafonol

Os nad yw ymgeiswyr yn bodloni'r gofynion mynediad isaf arferol ar gyfer pob gradd, a'r gofynion mynediad cyffredinol, mae'n gyfrifoldeb ar y Brifysgol i sicrhau eu bod yn medru dangos gallu academaidd cyfatebol. Mae'n bosibl bod ymgeiswyr wedi caffael y sgiliau, y wybodaeth a'r hyfforddiant angenrheidiol o'u gwaith proffesiynol ac yn defnyddio'r sgiliau academaidd a feithrinir yn ystod gradd israddedig mewn ffordd sy'n datblygu asesiad beirniadol annibynnol o dystiolaeth, neu sy'n datblygu ffurfio cynlluniau neu'r defnydd o fethodoleg a fyddai wedi estyn eu cyrhaeddiad fel israddedigion. Bydd yn anodd i ymgeiswyr sy'n gweithio mewn swyddi anraddedig fedru bodloni'r gofyn hwn.

# Trosglwyddo o sefydliad arall

Gall myfyrwyr drosglwyddo o sefydliad arall drwy gyflwyno cais am fynediad yn y ffordd arferol. Fel arfer bydd rhaid i o leiaf un canolwr fod yn aelod o dîm goruchwylio presennol y myfyrwyr neu'n goruchwylio ymchwil yn y sefydliad y maent yn trosglwyddo ohono. Mae'n bosibl y bydd modd i fyfyrwyr sy'n trosglwyddo o sefydliad arall dderbyn cydnabyddiaeth am ran o'r cyfnod astudio yn y sefydliad arall, a chaiff eu cyfnod astudio ei addasu yn unol â hynny. Beth bynnag yw'r cyfnod astudio blaenorol, mae angen i fyfyrwyr sy'n trosglwyddo o sefydliad arall gwblhau o leiaf flwyddyn (h.y. cyfwerth ag amser llawn) o ymchwil dan oruchwyliaeth fel y cyfnod astudio arferol a byddant yn atebol am ffioedd yn unol â hynny. Bydd y Brifysgol fel arfer yn ceisio cadarnhad ysgrifenedig gan y

sefydliad gwreiddiol ynglŷn ag addasrwydd yr ymgeisydd a phriodoldeb y trosglwyddiad. Fel arfer bydd gofyn i'r myfyrwyr a dderbynnir gyflwyno Cais am Gymeradwyaeth Foesegol, pa un a yw'r sefydliad blaenorol wedi rhoi cymeradwyaeth foesegol yn flaenorol ai peidio. Ni chaiff myfyrwyr eu cofrestru ar gyfer rhaglen mewn dwy Athrofa ar yr un pryd.

## Trosglwyddo i sefydliad arall

Cyn ystyried trosglwyddo i sefydliad arall, mae'n bwysig bod myfyrwyr yn trafod hyn gyda'r Cyfarwyddwr Astudiaethau a/neu aelodau perthnasol eraill o'r staff yn yr Athrofa neu sefydliad partner cydweithredol, fel bod dewisiadau eraill posibl yn cael eu hystyried cyn gwneud penderfyniad terfynol. Anogir myfyrwyr rhyngwladol yn gryf i ymgynghori â'r Gofrestrfa Ryngwladol cyn gwneud penderfyniad terfynol, oherwydd gallai hyn olygu goblygiadau o ran statws mewnfudo. Gwaherddir myfyrwyr rhag trosglwyddo eu hymgeisyddiaeth i sefydliad arall ar ôl i'r isafswm cyfnod astudio ddod i ben.

Er mwyn trosglwyddo i sefydliad arall (gan gynnwys y rhai sy'n trosglwyddo i'r Drindod Dewi Sant), mae'n rhaid i fyfyrwyr yn gyntaf dynnu'n ôl o'u Prifysgol. Fodd bynnag, dylid cynghori myfyrwyr i beidio â thynnu'n ôl tan i gynnig cadarn gael ei wneud gan y sefydliad newydd. Dylai myfyrwyr gysylltu â'r sefydliad newydd i wirio a fydd unrhyw gyfnod astudio yn y Brifysgol yn cael ei gyfrif tuag at y cyfnod ymgeisyddiaeth yn y sefydliad newydd. Gall y sefydliad newydd wneud cais am eirda academaidd a chaniatâd ffurfiol y Brifysgol i ganiatáu trosglwyddo'r ymgeisyddiaeth. Dylai myfyrwyr sicrhau bod unrhyw faterion Hawliau Eiddo Deallusol yn cael eu hegluro cyn trosglwyddo i sefydliad arall.

## Prosiectau Ymchwil Cydweithredol

Os bydd traethawd ymchwil yn cynnwys elfen ymchwil gydweithredol, rhaid i'r holl drefniadau perthnasol, yn cynnwys, er enghraifft, y broses cymeradwyo moesegol, fformat y traethawd a'r trefniadau ar gyfer arholiad llafar, gael eu cymeradwyo adeg derbyn, cyn i fyfyriwr gofrestru.

## Amgylchedd Ymchwil

Yn ystod y broses ymgynghori gydag ymgeiswyr cyn iddynt gychwyn, rhaid i Athrofeydd a sefydliadau partner cydweithredol sicrhau bod arbenigedd digonol ar gael i ddarparu cymorth goruchwylio ar y testun y bwriedir ei ddilyn mewn amgylchedd ymchwilgar. Hefyd rhaid i Athrofeydd a sefydliadau partner cydweithredol sicrhau bod hyfforddiant priodol ar gael i gefnogi anghenion arbenigol y myfyriwr. O ganlyniad, gall y Brifysgol gyfyngu ar nifer y myfyrwyr a dderbynnir mewn rhaglen benodol fel y bo'n briodol.

Er mwyn hyrwyddo amgylchedd iach dylid cymryd gofal i sicrhau nad yw myfyrwyr ymchwil posibl yn cael eu hynysu o fewn eu prosiect eu hunain. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod ganddynt gysylltiad ag ymchwilwyr eraill o'r tu mewn a'r tu allan i'r Brifysgol neu'r sefydliad partner cydweithredol fel y gallant rannu profiadau a chreu rhwydweithiau. Bydd y Coleg Doethurol yn helpu i gefnogi'r agwedd hon ar yr amgylchedd ymchwil.

Dylai'r Athrofeydd neu sefydliadau partner cydweithredol a'r Coleg Doethurol sicrhau bod:

- cyfleoedd i gysylltu â'r gymuned broffesiynol ehangach trwy, er enghraifft, fynd i gynadleddau a seminarau;
- cydweithwyr academaidd ar gael i gynnig cyngor a chefnogaeth barod;
- offer dysgu ac offer ymchwilio digonol ar gael;
- mannau dysgu digonol ar gael;
- y cyfle i ddatblygu rhwydweithiau cymorth i gymheiriaid lle gellir trafod materion neu broblemau'n anffurfiol;
- arweiniad ar foeseg ymchwil ac arfer da;
- pwyslais ar yr angen i gwblhau'r rhaglen ymchwil o fewn y cyfnod astudio disgwyliedig;
- cyfleoedd i archwilio effaith a llwybrau trosglwyddo gwybodaeth ar gyfer eu hymchwil;
- cyfleoedd i archwilio dewisiadau gyrfa, oddi mewn a'r tu allan i'r byd academaidd.

Yn hyn o beth anogir cymryd rhan yn nigwyddiadau datblygu ymchwilwyr y Brifysgol ac Athrofeydd.

# DULLIAU, PATRYMAU A CHYFNODAU ASTUDIO

Mae myfyrwyr yn astudio naill ai'n amser llawn neu'n rhan-amser, ac naill ai'n fyfyrwyr ar y campws neu fyfyrwyr dysgu o bell. Mae'r Brifysgol yn caniatáu i fyfyrwyr ddilyn un o bedwar dull astudio ar gyfer graddau ymchwil:

- Amser Llawn ar y Campws
- Rhan-amser ar y Campws
- Amser Llawn Dysgu o Bell
- Rhan-amser Dysgu o Bell

Disgwylir i fyfyrwyr amser llawn dreulio isafswm o 35 awr yr wythnos ar ymchwil ac astudio yn ystod y cyfnod astudio dan oruchwyliaeth ar gyfer y radd. Fel arfer, ni ddylai myfyrwyr amser llawn fod mewn cyflogaeth amser llawn.

Disgwylir i fyfyrwyr rhan-amser dreulio tua 17.5 awr yr wythnos ar ymchwil ac astudio yn ystod y cyfnod astudio dan oruchwyliaeth ar gyfer y radd.

Mae'r Hawl am Wyliau Blynyddol i Fyfyrwyr yn 35 diwrnod gwaith, pro rata ar gyfer rhai rhan-amser gyda'r dewis o ddyddiadau'n fater i'r unigolyn, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyfarwyddwr Astudiaethau, na fydd yn gwrthod caniatâd yn afresymol. Mae'r flwyddyn wyliau arferol yn rhedeg o 1 Medi i 31 Awst. Mae'r hawl hwn yn ychwanegol at wyliau cyhoeddus a gwyliau arferol gan gynnwys diwrnodau pan fo'r brifysgol ar gau. Ni ellir cario'r hawl am wyliau ymlaen i flynyddoedd dilynol.

Dylai'r holl fyfyrwyr amser llawn ar y campws fyw o fewn pellter teithio hawdd i gampws perthnasol y Brifysgol neu'r sefydliad partner cydweithredol. Rhaid i fyfyrwyr amser llawn, ar y campws, y mae'r Brifysgol yn gweithredu'n noddwr fisa drostynt breswylio yn y Deyrnas Unedig gan fyw o fewn cyrraedd hawdd i gampws perthnasol y Brifysgol trwy gydol cyfnod yr ymgeisyddiaeth.

Fel arfer, cymerir "pellter teithio hawdd" i olygu na ddylai myfyriwr orfod ymgymryd â thaith o fwy na dwy awr i fynychu campws perthnasol y Brifysgol neu'r sefydliad partner cydweithredol. Nid yw'n ofynnol i fyfyrwyr rhan-amser ar y campws fyw o fewn pellter teithio hawdd i gampws perthnasol y Brifysgol neu'r sefydliad partner cydweithredol, ond os ystyrir bod y pellter i'r man preswylio yn ormodol, gellid ail gategoreiddio'r myfyrwyr hyn yn fyfyrwyr rhan-amser dysgu o bell.

Mae'n bosibl y caniateir i fyfyrwyr amser llawn ar y campws dreulio cyfnod o amser i ffwrdd o gampws perthnasol y Brifysgol neu'r sefydliad partner cydweithredol ar weithgareddau sy'n gysylltiedig ag ymchwil. Dylai ceisiadau i ymgymryd â gweithgareddau ymchwil i ffwrdd o gampws perthnasol y Brifysgol neu'r sefydliad partner cydweithredol gael eu cymeradwyo gan dîm goruchwylio'r myfyriwr. Yn achos myfyrwyr y mae'r Brifysgol yn gweithredu'n noddwr fisa arnynt, bydd rheoliadau sy'n gysylltiedig â'u hamodau fisa'n berthnasol.

Fel arfer y cyfnod hwyaf y gall myfyriwr ei dreulio i ffwrdd o gampws perthnasol y Brifysgol neu'r sefydliad partner cydweithredol ar gyfer unrhyw ddyfarniad yw 12 mis ar gyfer myfyriwr amser llawn a 24 mis ar gyfer myfyriwr rhan-amser.

Er mwyn astudio'n fyfyriwr dysgu o bell, rhaid i'r Brifysgol gael sicrwydd y bydd y myfyriwr yn gallu cael mynediad i gyfleusterau ac adnoddau priodol ac y bydd yn gallu mynychu'r isafswm o dri chyfarfod ffurfiol gyda'r tîm goruchwylio naill ai'n bersonol neu drwy gynhadledd fideo neu dros y ffôn.

# Cyfnodau Astudio

Mae gan bob gradd ymchwil gyfnod astudio arferol dan oruchwyliaeth - y cyfnod astudio arferol – ac ar ddiwedd y cyfnod hwn disgwylir i fyfyriwr gyflwyno'i draethawd ymchwil. Yn ogystal mae dyddiad cyflwyno terfynol ac ar ôl y dyddiad hwnnw bernir bod amser y myfyriwr wedi dod i ben, ni chaniateir iddo gyflwyno traethawd ymchwil a chaiff ei dynnu'n ôl o'r Gweler hefyd yr adran **Nodyn ar y dyddiad cyflwyno terfynol** yn y ddogfen hon.

Caniateir cyflwyno cyn diwedd y cyfnod astudio arferol dan amgylchiadau eithriadol yn unig, gyda chymeradwyaeth y Cyfarwyddwr Astudiaethau, a dim ond os yw'r holl ffioedd gofynnol wedi'u talu.

Mae'r cyfnodau astudio gofynnol ar gyfer myfyrwyr sy'n dilyn graddau ymchwil wedi'u nodi isod gan gynnwys cyfeiriadau at y dulliau astudio. Mae'r cyfnodau astudio hyn yn berthnasol i unrhyw fyfyriwr a gofrestrodd gyntaf o Hydref 2016 ymlaen. Ar gyfer myfyrwyr a gofrestrodd gyntaf cyn Hydref 2016, mae'r cyfnodau astudio yn unol â'r hyn a ddiffiniwyd yn yr adran berthnasol o'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd a oedd yn gyfredol adeg y cofrestru cychwynnol ac fel y nodwyd yn y Llythyr Cynnig ffurfiol.

### PhD

| Dull Astudio | Cyfnod astudio arferol (Cyfnod ffioedd) | Uchafswm cyfnod cyn cyflwyno (gan gynnwys y cyfnod ysgrifennu) |
|---|---|---|
| Amser llawn | 3 blynedd | 4 blynedd |
| Rhan-amser | 6 blynedd | 8 mlynedd |

### MPhil

| Dull Astudio | Cyfnod astudio arferol (Cyfnod ffioedd) | Uchafswm cyfnod cyn cyflwyno (gan gynnwys y cyfnod ysgrifennu) |
|---|---|---|
| Amser llawn | 2 flynedd | 3 blynedd |
| Rhan-amser | 4 blynedd | 6 blynedd |

### MA trwy Ymchwil / MSc trwy Ymchwil

| Dull Astudio | Cyfnod astudio arferol (Cyfnod ffioedd) | Uchafswm cyfnod cyn cyflwyno (gan gynnwys y cyfnod ysgrifennu) |
|---|---|---|
| Amser llawn | Blwyddyn | 2 flynedd |
| Rhan-amser | 2 flynedd | 4 blynedd |

### Doethuriaethau Proffesiynol

| Dull Astudio | Cyfnod astudio arferol (Cyfnod ffioedd) | Uchafswm cyfnod cyn cyflwyno (gan gynnwys y cyfnod ysgrifennu) |
|---|---|---|
| Amser llawn | 3 blynedd | 4 blynedd |
| Rhan-amser | 6 blynedd | 8 mlynedd |

### Meistr trwy Ymchwil (MRes)

| Dull Astudio | Cyfnod astudio arferol (Cyfnod ffioedd) | Uchafswm cyfnod cyn cyflwyno |
|---|---|---|
| Amser llawn | 2 flynedd | 2 flynedd |
| Rhan-amser | 4 blynedd | 4 blynedd |

## PhD trwy Weithiau Cyhoeddedig

| Dull Astudio | Cyfnod astudio arferol (Cyfnod ffioedd) | Uchafswm cyfnod cyn cyflwyno |
|---|---|---|
| Amser llawn | Blwyddyn | Blwyddyn |
| Rhan-amser | 2 flynedd | 2 flynedd |

Yn ystod y cyfnod astudio arferol bydd y myfyriwr yn atebol am dalu ffioedd ar y lefel briodol yn seiliedig ar y math o radd ymchwil a'r dull astudio.

Nid yw'r cyfnod astudio arferol yn cynnwys cyfnodau pan gafwyd toriad i'r astudiaeth.

Mae'r Ffi Academaidd Flynyddol ar gyfer Cyfnod Parhau dewisol (i'w dalu rhwng diwedd y cyfnod astudio arferol a diwedd yr uchafswm cyfnod astudio) yn £500 ar hyn o bryd.

Mae'r Ffi Academaidd Flynyddol sy'n daladwy o ddiwedd y cyfnod astudio arferol a thrwy gydol y cyfnod arholi hyd nes y rhoddir gwybod am ganlyniad y Bwrdd Arholi terfynol, yn £500 ar hyn o bryd.

# MEINI PRAWF AR GYFER PENODI TÎM GORUCHWYLIO

## Tîm Goruchwylio

Bydd gan bob myfyriwr sy'n astudio am PhD, MPhil, Rhan Dau o Ddoethuriaeth Broffesiynol, a PhD drwy Weithiau Cyhoeddedig, dîm goruchwylio o ddim llai na dau oruchwyliwr a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Graddau Ymchwil (PGY).

Fel isafswm bydd pob tîm goruchwylio'n cynnwys Cyfarwyddwr Astudiaethau ac o leiaf un goruchwyliwr arall. Yn ogystal â'r unigolion hyn, gall tîm goruchwylio gael ei ategu gan gynghorwyr (unigolion sydd ag arbenigedd arbenigol perthnasol) fel y bo'n briodol.

Bydd gan bob myfyriwr sy'n astudio ar gyfer MA trwy Ymchwil / MSc trwy Ymchwil a Rhan Dau o Radd Meistr trwy Ymchwil (MRes) un goruchwyliwr a gymeradwywyd gan y PGY.

Fel arfer, dylai goruchwylwyr fod yn aelodau o staff academaidd y disgwylir iddynt aros yng nghyflogaeth y Brifysgol neu sefydliad partner cydweithredol am o leiaf y cyfnod astudio arferol y mae'r myfyrwyr yn cael eu cofrestru ar ei gyfer. Rhaid rhestru'r holl oruchwylwyr ar Gyfeiriadur Cyfarwyddwyr Astudiaethau a Goruchwylwyr y Brifysgol.

Gall unigolion sydd ag arbenigedd arbenigol sy'n berthnasol i'r prosiect ymchwil nad ydynt wedi'u rhestru ar Gyfeiriadur Cyfarwyddwyr Astudiaethau a Goruchwylwyr y Brifysgol gael eu cymeradwyo'n eithriadol yn oruchwylwyr gan y PGY ond heb eu hychwanegu at y cyfeiriadur canolog priodol. Yn ogystal, gellir penodi unigolion sydd ag arbenigedd arbenigol perthnasol yn gynghorwyr a gall aelodau staff y Brifysgol gael eu penodi'n gynghorwyr i fyfyrwyr mewn sefydliadau partner cydweithredol i ddarparu goruchwyliaeth ychwanegol. Rhaid i bob cynghorydd gael ei gymeradwyo gan y PGY a rhaid ei ychwanegu at y Cyfeiriadur canolog priodol.

## Meini Prawf Penodol ar gyfer Penodi Tîm Goruchwylio

Er mwyn cael ei benodi i dîm goruchwylio penodol, rhaid rhestru unigolyn ar Gyfeiriadur Goruchwylwyr ac Arholwyr y Brifysgol yn oruchwyliwr cydnabyddedig neu ei gymeradwyo'n benodol gan y PGY. Er mwyn cael eu hychwanegu at y cyfeiriadur, dylai goruchwylwyr posibl wneud cais am swydd lefel 2. Bydd angen i'r rhai ar lefel 2 fodloni'r meini prawf uchod i gael eu hystyried.

Dylai fod gan bob goruchwyliwr yn y tîm goruchwylio gontract cyflogaeth fel aelod o staff y Brifysgol neu sefydliad partner cydweithredol sy'n para'n hwy na'r cyfnod astudio arferol i'r myfyriwr sydd i'w oruchwylio.

Mewn tîm goruchwylio, rhaid bod gan o leiaf un aelod o'r tîm brofiad o oruchwylio o gofrestru i gwblhau graddau ymchwil yn llwyddiannus ar lefel y myfyriwr sydd i'w oruchwylio neu'n uwch na hynny (Lefel 3). Os nad oes goruchwylwyr cymwys ar gael, rhaid penodi cynghorydd ychwanegol i'r tîm goruchwylio.

Mae'n rhaid bod gan o leiaf un aelod o'r tîm goruchwylio cyffredinol ar gyfer myfyriwr PhD trwy Weithiau Cyhoeddedig brofiad o oruchwylio neu arholi'r PhD trwy Weithiau Cyhoeddedig. Os nad oes goruchwylwyr cymwys ar gael, rhaid penodi cynghorydd ychwanegol i'r tîm drwy gydol cyfnod cofrestriad y myfyriwr.

Yn achos unigolion ar eu penodiad cyntaf yn oruchwyliwr gyda'r Brifysgol, rhaid dynodi'n ffurfiol aelod arall o'r tîm goruchwylio y maent yn gwasanaethu arno neu aelod arall profiadol o'r staff yn fentor arnynt ar gyfer datblygu sgiliau goruchwylio. Bydd y Swyddfa Academaidd yn gallu cynghori mewn perthynas â mentoriaid posibl. Rhaid i

oruchwylwyr newydd gwrdd â'u mentor o leiaf unwaith y tymor yn ffurfiol i drafod cynnydd ac unrhyw faterion.

**Goruchwyliaeth ar lefel Doethuriaeth:**

Dylai fod gan bob myfyriwr o leiaf 2 oruchwyliwr (Cyfarwyddwr Astudiaethau, Goruchwyliwr)

Pe na bai'r tîm hwn yn bodloni'r holl ofynion ar gyfer y tîm goruchwylio, gellir penodi cynghorydd i lenwi'r bwlch penodol yn y gofynion goruchwylio (e.e. goruchwylio at gwblhau, profiad gyda PhD trwy gyhoeddiadau, ac ati) Rhaid bod goruchwylwyr naill ai:

- wedi eu cyflogi gan y Brifysgol ar gontract cyflogaeth sy'n para’n hwy na’r cyfnod astudio arferol i'r myfyriwr sydd i’w oruchwylio.
- yn gweithio’n aelod o un o gronfeydd goruchwylio cydnabyddedig y Brifysgol.

**Goruchwylio MRes/MScRes/MA/MSc trwy Ymchwil:**

Dylai fod gan bob myfyriwr o leiaf 1 goruchwyliwr (Cyfarwyddwr Astudiaethau)

Pe na bai'r tîm hwn yn bodloni'r holl ofynion ar gyfer y tîm goruchwylio, gellir penodi cynghorydd i lenwi'r bwlch penodol yn y gofynion goruchwylio (e.e. goruchwylio hyd at gwblhau)

Rhaid bod goruchwylwyr naill ai:

- wedi eu cyflogi gan y Brifysgol ar gontract cyflogaeth sy'n para’n hwy na’r cyfnod astudio arferol i'r myfyriwr sydd i’w oruchwylio.
- yn gweithio’n aelod o un o gronfeydd goruchwylio cydnabyddedig y Brifysgol.

# Cyfarwyddwr Astudiaethau

Bydd un o'r goruchwylwyr yn gweithredu’n Gyfarwyddwr Astudiaethau, gyda phrif gyfrifoldeb am gefnogi'r myfyriwr ar lefel fugeiliol a darparu arolygiaeth weinyddol o’r oruchwyliaeth a'r tîm goruchwylio. Mae'r Cyfarwyddwr Astudiaethau yn gyfrifol am arwain y myfyriwr mewn materion gweinyddol ac am sicrhau yr adroddir ar gynnydd y myfyriwr yn briodol drwy'r prosesau monitro cynnydd ffurfiol. Mewn tîm goruchwylio, bydd y goruchwyliwr nad yw'n cael ei nodi’n Gyfarwyddwr Astudiaethau yn cymryd cyfrifoldeb gweinyddol/bugeiliol eilaidd.

Yn ogystal, er mwyn cael ei ystyried ar gyfer rôl cyfarwyddwr astudiaethau, rhaid i'r unigolyn fodloni'r gofynion lefel 2 i fod yn gymwys ar gyfer y rôl. Y disgwyliad arferol yw bod â swydd barhaol yn y Brifysgol. Rhaid i'r unigolyn fynychu digwyddiadau hyfforddiant perthnasol i sicrhau ei fod yn gyfarwydd â fframwaith, gofynion a phrosesau ansawdd y Brifysgol, yn enwedig pan fo rheoliadau a gofynion newydd yn cael eu cyflwyno.

**Cyfrifoldebau Cyfarwyddwr Astudiaethau**

Y Cyfarwyddwr Astudiaethau fydd prif gyswllt academaidd y myfyriwr trwy gydol taith ymchwil y myfyriwr a bydd ganddo gyfrifoldeb cyffredinol am oruchwyliaeth academaidd y myfyriwr. Mae gan y Cyfarwyddwr Astudiaethau rôl fugeiliol yn ychwanegol, ynghyd â'r cyfrifoldeb dros ddarparu cyngor a chymorth gyda'r prosesau gweinyddol angenrheidiol yn ôl yr angen,
e.e. o ran dilyniant, newid dull astudio, toriad i astudiaethau, ymestyn y terfyn amser. Yn ogystal â'u cyfrifoldebau’n oruchwyliwr, mae'r Cyfarwyddwr Astudiaethau hefyd yn gyfrifol am sicrhau:

- y rhoddir cymorth bugeiliol i'r myfyriwr yn ôl yr angen a/neu y'u cyfeirir at ffynonellau cymorth eraill, e.e. y Swyddfa Academaidd, Gwasanaethau Myfyrwyr;
- y nodir anghenion hyfforddi'r myfyriwr ar gychwyn ac yn ystod y rhaglen ymchwil;
- y cyflwynir cynnig ymchwil llawn i'r PGY i'w gymeradwyo yn yr amserlenni perthnasol;
- y cyflwynir cais am gymeradwyaeth foesegol i'r Pwyllgor Moeseg Ymchwil yn dilyn cymeradwyaeth mewn egwyddor o'r cynnig ymchwil llawn;
- y cynhelir o leiaf dri chyfarfod bob blwyddyn ac fe'u mynychir gan aelodau priodol o'r tîm goruchwylio;
- y crynhoir y pwyntiau trafod a gweithredu sy'n deillio o bob cyfarfod ffurfiol mewn cofnod ysgrifenedig ffurfiol a gyflwynir ochr yn ochr â'r adroddiad dilyniant ffurfiol;
- y cwblheir adroddiadau dilyniant ffurfiol yn ôl y galw mewn modd amserol;
- bod y myfyriwr yn ymwybodol o reoliadau'r Brifysgol ar gyfer graddau ymchwil yn ogystal â rheoliadau a pholisïau ar gamymddwyn academaidd, eiddo deallusol, iechyd a diogelwch, ac unrhyw faterion moesegol a allai godi yn ystod cyfnod ymchwil myfyriwr;
- y darperir cyngor a chymorth ar y prosesau gweinyddol angenrheidiol yn ôl yr angen, e.e. os gwneir cais am doriad i astudiaethau, newid dull astudio, ymestyn y terfyn amser hwyaf ar gyfer cyflwyno;
- y rhoddir cyngor manwl i'r myfyriwr ar y cerrig milltir a'r dyddiadau disgwyliedig ar gyfer camau ymchwil olynol. Dylai hyn gynnwys rhoi gwybodaeth ynghylch pa feini prawf y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn symud ymlaen yn foddhaol, uwchraddio i radd ymchwil ar lefel uwch, a'r dyddiadau ar gyfer cyflawni'r rhain, ond nid yw'n gyfyngedig i'r rhain.

# Goruchwylwyr

Mae'r Brifysgol yn cydnabod y gall ymarfer goruchwylio amrywio rhwng pynciau a disgyblaethau a phan ddefnyddir tîm goruchwylio, bydd mewnbwn academaidd y goruchwyliwr arall yn amrywio o achos i achos. Dylai'r goruchwylwyr hyn gyfarfod â myfyrwyr yn ôl y galw, a mynychu cyfarfodydd goruchwylio ffurfiol priodol.

<u>**Cyfrifoldebau goruchwylwyr**</u>

Mae goruchwylwyr yn gyfrifol am sicrhau eu bod nhw'n glynu'n llawn wrth reoliadau'r Brifysgol ar gyfer graddau ymchwil ac yn benodol eu bod:

- yn cynnig goruchwyliaeth reolaidd. Bydd amlder yr oruchwyliaeth yn amrywio yn ystod yr ymchwil;
- yn hygyrch, o fewn rheswm (e.e. drwy gyswllt e-bost) y tu allan i gyfarfodydd goruchwylio a drefnwyd pan y gall fod angen cyngor;
- rhoi arweiniad ar natur a gofynion y radd ymchwil a ddilynir a'r safonau disgwyliedig;
- rhoi arweiniad a chyngor i sicrhau bod modd cwblhau'r ymchwil, gan gynnwys paratoi'r traethawd ymchwil, fel arfer erbyn diwedd y cyfnod astudio arferol;
- cynorthwyo myfyrwyr i lunio cynllun gwaith manwl ac amserlen ar gyfer ymchwil a monitro cynnydd mewn perthynas â'r cynllun hwn;
- annog a chefnogi myfyrwyr i gymryd rhan yn Rhaglen Datblygu Ymchwilwyr Y Drindod Dewi Sant;
- cwblhau adrannau perthnasol o adroddiadau cynnydd yn ôl y gofyn mewn modd amserol;
- sicrhau bod y myfyriwr yn cael digon o rybudd cyn gynted ag y bo modd pan fo'r cynnydd yn annigonol neu o safon anfoddhaol;
- gofyn am waith ysgrifenedig fel y bo'n briodol ac yn unol â'r cynllun gwaith y cytunwyd arno a dychwelyd y gwaith hwn gydag adborth adeiladol o fewn cyfnod y cytunwyd arno;
- rhoi arweiniad a chyngor ar ysgrifennu'r traethawd ymchwil, gan gynnwys darllen a rhoi sylwadau ar y traethawd ymchwil yn ystod y cyfnod cyfansoddi;

- rhoi cymorth i baratoi ar gyfer yr arholiad llafar ac egluro ei rôl yn y broses arholi gyffredinol;
- darparu goruchwyliaeth briodol os ail-gyflwynir gwaith;
- cynnal yr arbenigedd goruchwylio angenrheidiol, gan gynnwys manteisio ar y cyfleoedd datblygu proffesiynol perthnasol er mwyn perfformio'n effeithiol yn rôl y goruchwyliwr;
- rhoi cyngor ar sut i rwydweithio o fewn y maes arbenigol a chyfleoedd i gyflawni hyn. Gall hyn gynnwys cyngor ar y cymdeithasau dysgedig i ymuno â nhw a'r cynadleddau i'w mynychu;
- rhoi cyngor ar sut a ble i gyflwyno gwaith, e.e. mewn seminarau yn yr Athrofa a'r Brifysgol a/neu mewn cyfarfodydd/cynadleddau allanol;
- rhoi cyngor ar sut a ble i gyhoeddi, os yw'n briodol

# Cynghorydd

Gall cynghorwyr fod yn rhan o'r tîm goruchwylio am gyfnod diffiniedig neu drwy gydol cofrestriad y myfyriwr. Efallai na fydd cynghorwyr yn cymryd rôl y Cyfarwyddwr Astudiaethau ac ni fydd ganddynt gyfrifoldeb ffurfiol am brosesau gweinyddol na monitro cynnydd. Bydd cynghorwyr yn cyfarfod â myfyrwyr yn ôl y galw a dylent fynd i gyfarfodydd ffurfiol priodol a gynhelir yn ystod eu penodiad. Rhaid i bob cynghorydd wneud cais a chael ei gymeradwyo gan y PGY a chael ei ychwanegu at y Cyfeiriadur canolog priodol. Mae'r Athrofa yn gyfrifol am drefnu a chynnal contractau priodol gydag Adnoddau Dynol ar ôl i Gynghorwyr allanol gael eu cymeradwyo drwy'r PGY. Dylid penodi cynghorwyr i'r Cyfeiriadur Goruchwylwyr ac Arholwyr ar lefel 1.

# Llwyth Goruchwylio

Ni ddylai llwyth gwaith goruchwylio'r Brifysgol ar gyfer unrhyw oruchwyliwr unigol fod yn fwy na chyfanswm o ddeg myfyriwr cyfwerth ag amser llawn. O fewn y terfyn cyffredinol hwn, ni ddylai goruchwyliwr unigol weithredu'n Gyfarwyddwr Astudiaethau ar gyfer mwy nag wyth myfyriwr cyfwerth ag amser llawn ar lefel PhD, MPhil, neu Ddoethuriaeth Broffesiynol ac ni ddylai fod yn fwy na chyfanswm o bymtheg o fyfyrwyr cyfwerth ag amser llawn ar lefel MRes (Rhan II), MA trwy Ymchwil neu MSc trwy Ymchwil. Fodd bynnag, mewn achosion penodol bydd y PGY yn ystyried ceisiadau gan Athrofa neu sefydliad partner cydweithredol i'r terfynau hyn gael eu cynyddu ar gyfer goruchwylwyr unigol, er enghraifft ar gyfer staff dwys eu hymchwil ac yn enwedig pan mai deiliad y swydd yn unig fydd yn goruchwylio'r ymchwil neu pan addasir proffil gweithgarwch yr aelod staff yn unol â hynny.

| Goruchwyliaeth ar lefel Doethuriaeth (PhD, MPhil, Doethuriaeth Broffesiynol) | MRes | Cyfanswm Capasiti Goruchwylio |
|---|---|---|
| Uchafswm o 8 ymgeisydd CALl | Uchafswm o 15 CALl<br><br>(mae pwysiad MRes ar gyfer y cyfrifiad cyfan yn ½ pwysiad Doethuriaeth) | 10 CALl (dim mwy na 8 CALl yn Gyfarwyddwr Astudiaethau) |

I oruchwylwyr cronfa, os byddant wedi eu cyflogi mewn sefydliad arall, ni fydd y disgwyliad arferol yn fwy na 6 CALl ar gyfer goruchwyliaeth ar lefel doethuriaeth.

I unigolion sydd ar eu penodiad cyntaf yn oruchwyliwr gyda'r Brifysgol, rhaid i aelod arall o'r tîm goruchwylio y maent yn gwasanaethu arno neu aelod profiadol arall o'r staff gael eu penodi'n ffurfiol yn fentor ar gyfer datblygu sgiliau goruchwylio. Bydd y Coleg Doethurol yn gallu cynghori mewn perthynas â mentoriaid posibl. Rhaid i oruchwylwyr newydd gwrdd â'u mentor o leiaf unwaith y tymor yn ffurfiol i drafod cynnydd ac unrhyw faterion.

# Hawl Goruchwylio

Y disgwyliad arferol yw:

- Byddai myfyrwyr amser llawn yn cwrdd ag un neu ragor o'u tîm goruchwylio o leiaf ddeg gwaith y flwyddyn academaidd.
- Byddai myfyrwyr rhan-amser yn cwrdd ag un neu ragor o'u tîm goruchwylio o leiaf bum gwaith y flwyddyn academaidd, er y cynghorir deg cyfarfod y flwyddyn i wella rheolaeth dda o'r prosiect ac ymgysylltiad myfyrwyr.
- Rhaid dogfennu'r cyfarfodydd hyn, os y'u mynychir ai peidio.

Rhaid ystyried cofnod o'r cyfarfodydd hyn yn rhan o'r broses adolygu cynnydd.

Os na fydd tîm goruchwylio wedi ei sefydlu ar gyfer myfyriwr am gyfnod o fwy na thri mis, ystyrir cynnydd y myfyriwr yn "achos pryder" yn y Bwrdd Adolygu Cynnydd priodol nesaf. Bydd y Brifysgol hefyd yn ystyried datrysiadau priodol er mwyn cefnogi'r myfyriwr.

**Disodli Goruchwyliwr**

Pan fydd Athrofa'n gweld bod angen disodli goruchwyliwr sy'n aelod o staff y Brifysgol, rhaid iddi yn gyntaf sicrhau ei bod wedi ystyried yr holl opsiynau priodol a rhesymol o fewn y sefydliad ar gyfer sicrhau bod y tîm goruchwylio yn cynnwys yr arbenigedd angenrheidiol cyn edrych ymhellach. Pan fydd goruchwyliwr allanol wedi'i benodi oherwydd arbenigedd neu safbwynt penodol (e.e. yn seiliedig ar ddiwydiant), byddai'n briodol fel arfer i benodi rhywun cyfatebol yn lle'r goruchwyliwr hwn, pan fo hyn yn rhesymol bosibl.

Pan fydd myfyriwr yn gweld na all barhau i weithio gyda goruchwyliwr, rhaid iddo wneud cais yn ysgrifenedig i Reolwr Graddau Ymchwil ei Athrofa yn gofyn am newid i'w dîm goruchwylio gan nodi'r rhesymau dros y cais. Fel arfer, dylid trafod hyn gyda'r goruchwyliwr ymlaen llaw. Os mai Rheolwr Graddau Ymchwil ei Athrofa yw ei oruchwyliwr, dylai ysgrifennu at Gyfarwyddwr Academaidd y Coleg Doethurol. Rhaid i unrhyw dîm goruchwylio newydd gael ei gymeradwyo gan y PGY.

**Mynediad at Adnoddau**

Pan fydd aelod o'r tîm goruchwylio'n gadael, dylai Athrofeydd hefyd ystyried a fyddai hyn yn effeithio ar allu myfyrwyr i gael mynediad at adnoddau lle, er enghraifft, roedd adnoddau wedi'u darparu yn y Brifysgol gan grant ymchwil sydd wedi symud gyda'r goruchwyliwr. Dim ond pan oedd yr adnoddau yn ofyniad hanfodol ar gyfer astudiaethau'r myfyriwr y dylai hyn fod yn ystyriaeth, a'i fod wedi ei nodi felly ar ddechrau eu rhaglen. Os na all yr Athrofa ddarparu'r adnoddau hyn yn uniongyrchol gall hyn hefyd olygu ymdrechion rhesymol i ddarparu'r adnoddau hyn o ffynhonnell amgen.

**Gwneud Trefniadau Eraill**

Os bydd angen gwneud darpariaeth amgen, cyfrifoldeb y Dirprwy Is-Ganghellor a Deon yr Athrofa fydd penderfynu ar y trefniadau. Ymgynghorir â'r myfyriwr ar y trefniadau arfaethedig sydd i'w gwneud ond rhaid i'r cyfrifoldeb amdanynt aros gyda'r Brifysgol (a hynny drwy'r Athrofa) ac ni ellir ei ddirprwyo i'r myfyriwr dan sylw. Os byddai'r trefniadau arfaethedig yn golygu newid i gofrestriad y myfyriwr, rhaid trafod hyn gyda'r myfyriwr yn gynnar yn y broses a rhaid gofyn am gymeradwyaeth y myfyriwr cyn cwblhau'r trefniadau.

**Trosglwyddo i Athrofa arall**

Os nad oes trefniadau amgen rhesymol, bydd yr Athrofa'n cymryd camau rhesymol i chwilio am le i'r myfyriwr mewn

sefydliad cymwys arall ac i gymryd camau rhesymol i drafod trosglwyddiad.

**Cyfnod Astudio arferol neu Ôl-gyflwyno**

Dim ond dan amgylchiadau eithriadol a gyda chymeradwyaeth gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Academaidd) y dylid gwneud newidiadau i oruchwyliaeth ar ôl i fyfyriwr gyrraedd diwedd y cyfnod astudio arferol neu fod wedi cyflwyno ei draethawd ymchwil.

**Pan nad oes modd darparu goruchwyliaeth**

Efallai y bydd rhai amgylchiadau o hyd, er ymdrechion rhesymol y Brifysgol, pan nad oes modd nodi goruchwyliaeth briodol ar gyfer myfyriwr mwyach. Os felly, rhaid i'r Dirprwy Is-Ganghellor a Deon yr Athrofa ymgynghori â Chyfarwyddwr Graddau Ymchwil yr Athrofa cyn rhoi gwybod i'r myfyriwr, cyn gynted ag y bo modd mai felly y mae hi, ac o unrhyw opsiynau pellach sy'n agored iddynt.

# Cronfa Goruchwylwyr

**Meini prawf penodi**

Rhaid i oruchwylwyr cronfa fynd drwy broses recriwtio, a bodloni'r gofynion i'w cynnwys ar y Cyfeiriadur Goruchwylwyr (ac eithrio contract cyflogaeth parhaol gyda'r Brifysgol neu sefydliad partner cydweithredol), gan gynnwys nodi eu lefel.

Wedyn cânt eu hystyried yn yr un modd â holl oruchwylwyr y Brifysgol a rhaid iddynt fodloni'r un gofynion i'w penodi i dîm goruchwylio unigolyn.

**Rheoli'r Gronfa Goruchwylwyr**

Gall athrofeydd neu sefydliadau partner cydweithredol gyflwyno ceisiadau ffurfiol i'r Coleg Doethurol ar gyfer penodi goruchwylwyr cronfa. Dylai'r cais ffurfiol gyflwyno achos strategol gan gynnwys capasiti'r Athrofa, nifer y myfyrwyr disgwyliedig a disgwyliadau mewn perthynas â chynnydd a chyfraddau cwblhau. Gall Bwrdd y Coleg Doethurol hefyd weithio gydag Athrofeydd i nodi lle gallai fod angen cronfa oruchwylwyr i ychwanegu at y capasiti goruchwylio presennol.

Bydd y Coleg Doethurol yn gweithio gyda'r Athrofa berthnasol ac Adnoddau Dynol i bennu'r dulliau recriwtio, cynefino, a chymorth priodol ar gyfer pob goruchwyliwr cronfa.

Penodir Goruchwylwyr Cronfa unigol i'r gronfa gyffredinol ac nid ydynt yn gysylltiedig ag unrhyw Athrofa benodol.

# Meini prawf ar gyfer Cyfeiriadur Goruchwylwyr ac Arholwyr y Brifysgol

Gall Athrofeydd neu sefydliadau partner cydweithredol gyflwyno enwau goruchwylwyr arfaethedig i'r PGY i'w cynnwys yn y Cyfeiriadur Goruchwylwyr ac Arholwyr. Rhaid i unigolyn sydd wedi'i gymeradwyo i'w gynnwys yn y Cyfeiriadur fynychu gweithdai ar gyfer goruchwylwyr newydd o fewn 12 mis i gael ei gymeradwyo. Os methir â mynychu'r gweithdai hyn caiff enw'r unigolyn ei ddileu o'r Cyfeiriadur. Dylai goruchwylwyr profiadol fynychu digwyddiadau hyfforddi i gynnal a gwella eu sgiliau a sicrhau eu bod yn gyfarwydd â fframwaith, gofynion a phrosesau ansawdd y Brifysgol, yn enwedig pan gyflwynir rheoliadau a gofynion newydd.

O bryd i'w gilydd mae'r Brifysgol yn archwilio'r Cyfeiriadur Goruchwylwyr ac Arholwyr i sicrhau bod pob aelod yn bodloni'r meini prawf perthnasol ar gyfer y lefel maent wedi'u penodi iddi. Er mwyn cael eu hystyried ar gyfer rôl goruchwyliwr, arholwr mewnol, cadeirydd panel trosglwyddo neu banel cyfnod prawf, neu rôl cyfarwyddwr astudiaethau, rhaid i unigolion wneud cais a chael eu cymeradwyo ar gyfer y rôl. I wneud hyn rhaid iddynt fodloni'r meini prawf ar gyfer pob lefel rôl.

## Lefel 1 (Cynghorydd)

Er mwyn cael eu hystyried ar gyfer lefel un dylai fod gan unigolion wybodaeth arbenigol am agwedd benodol ar y prosiect na ellir ei fodloni fel arall gan aelodau'r tîm goruchwylio.

## Lefel 2 (Cynghorydd, Goruchwyliwr, Cyfarwyddwr Astudiaethau, Arholwr)

Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer lefel 2, rhaid i unigolyn fod yn aelod o'r staff academaidd ac yn weithiwr parhaol yn y Brifysgol neu sefydliad partner cydweithredol (fel arfer ar gontract sy'n cyfateb i o leiaf 0.4 o swydd amser llawn) neu'n gweithio fel Goruchwyliwr Ymchwil Ôl-raddedig. Yn ogystal, rhaid i unigolyn allu dangos ei fod yn cyflawni o leiaf ddau o'r gofynion canlynol:

- meddu ar radd uwch trwy ymchwil ar lefel gyfatebol;
- meddu ar gymhwysedd ymchwil clir ac arbenigedd ymchwil diweddar, a ddangoswyd trwy gyhoeddiadau a adolygwyd gan gymheiriaid, presenoldeb rheolaidd mewn cynadleddau, neu incwm grantiau ymchwil yn y pum mlynedd ddiwethaf;
- profiad o ymwneud â goruchwylio'n llwyddiannus fyfyriwr gradd ymchwil a gwblhaodd yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf;
- dangos yn y pum mlynedd ddiwethaf fri cenedlaethol mewn maes sy'n berthnasol i'r rhaglen ymchwil arfaethedig (e.e. prif siaradwr mewn cynhadledd broffesiynol, ethol i uwch swydd mewn sefydliad cenedlaethol, dyfarniad cenedlaethol, penodiad i rôl ymgynghorol genedlaethol megis aelodaeth o un o bwyllgorau'r llywodraeth).

Nid yw unigolyn sydd ar hyn o bryd yn fyfyriwr ar gyfer gradd ymchwil yn y Brifysgol neu unrhyw sefydliad Addysg Uwch arall yn gymwys i weithredu'n oruchwyliwr, hyd yn oed pan fydd pob maen prawf arall wedi ei fodloni. Os bydd unigolyn o'r fath wedi'i gymeradwyo ar gyfer y Cyfeiriadur Goruchwylwyr ac Arholwyr yn flaenorol, rhaid tynnu enw'r unigolyn hwnnw'n ôl o'r Cyfeiriadur tan i'r unigolyn gwblhau'r radd ymchwil.

## Lefel 3 (Cynghorydd, Goruchwyliwr, Cyfarwyddwr Astudiaethau, Arholwr, a Chadeirydd Panel Prawf)

Er mwyn cael eu hystyried ar gyfer lefel 3, rhaid iddynt fodloni'r meini prawf uchod yn gyntaf ar gyfer lefel 2 yn ogystal â meddu ar brofiad yn y rolau o fewn y lefelau hynny. Yn ogystal, rhaid iddynt fodloni'r maen prawf canlynol:

- profiad o fod yn rhan o oruchwylio gradd ymchwil yn llwyddiannus yn y pum mlynedd ddiwethaf mewn maes sy'n berthnasol i'r rhaglen ymchwil arfaethedig ar y lefel y bydd yr unigolyn a oruchwylir yn astudio neu ar lefel uwch.

## Lefel 4 (Cynghorydd, Goruchwyliwr, Cyfarwyddwr Astudiaethau, Arholwr, a Chadeirydd Panel Arholi/Panel Prawf)

Er mwyn cael eu hystyried ar gyfer lefel 4, rhaid iddynt fodloni'r meini prawf uchod yn gyntaf ar gyfer lefel 3 yn ogystal â meddu ar brofiad yn y rolau o fewn y lefelau hynny. Yn ogystal, rhaid iddynt fodloni un o'r meini prawf canlynol:

- profiad o arholi gradd ymchwil ar y lefel y caiff yr unigolyn ei arholi neu'n uwch na hynny;
- profiad o gadeirio panel prawf.

# CERRIG MILLTIR GRADDAU YMCHWIL

## Cofrestru ar neu Fynd Ymlaen i Radd Ymchwil

Mae’n rhaid i bob myfyriwr gradd ymchwil newydd gwblhau’r broses gofrestru. Wrth gofrestru byddwch y myfyriwr yn dod yn gyfrifol am dalu ffioedd.

Yn achos myfyrwyr sydd wedi cofrestru ar raglen sydd â Rhan I a Addysgir, ar ôl cwblhau Rhan I yn llwyddiannus (fel y cadarnhawyd gan y bwrdd arholi priodol) bydd y myfyrwyr yn mynd ymlaen i Ran II lle bydd yn rhaid i fyfyrwyr ailgofrestru.

Rhaid i bob myfyriwr ymchwil, i gynnal eu cofrestriad, dalu'r holl ffioedd perthnasol a dilyn prosiect ymchwil cymeradwy ar gyfer y cyfnod arferol gofynnol ar gyfer eu dull astudio.

Fel arfer, ni chaniateir i fyfyrwyr sydd mewn dyled i’r Brifysgol ail gofrestru a pharhau â’u hastudiaethau nes bod y ddyled wedi ei chlirio.

Rhaid i bob myfyriwr ymchwil ailgofrestru yn flynyddol. Fel arfer bydd myfyrwyr nad ydynt yn ailgofrestru yn cael eu tynnu'n ôl. I gefnogi myfyrwyr, bydd y Brifysgol yn ceisio cysylltu â myfyrwyr sydd heb gofrestru hyd at dair gwaith er mwyn eu hatgoffa i wneud hynny. Yn dilyn y drydedd ymgais i gysylltu, os nad yw'r myfyriwr yn ymateb, bydd y Brifysgol yn tynnu'r myfyriwr yn ôl o'r rhaglen.

Yn achos myfyrwyr sy’n mynd ymlaen i Ran II, rhaid i Athrofeydd enwebu tîm goruchwylio ar ffurflen Enwebu Tîm Goruchwylio Rhan II. Caiff timau goruchwylio eu cymeradwyo gan Reolwr Graddau Ymchwil yr Athrofa. Nodir y tîm goruchwylio a gymeradwyir yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Graddau Ymchwil. Fel arfer rhaid penodi timau goruchwylio ar gyfer myfyrwyr sy’n mynd ymlaen i Ran II ymhen un mis ar ôl mynd ymlaen i Ran II.

Ar gyfer pob myfyriwr ymchwil arall, penodir tîm goruchwylio adeg derbyn.

## Cynefino

Bydd disgwyl i bob myfyriwr fynychu rhaglen gynefino, naill ai’n bersonol neu ar-lein, cyn gynted â phosibl ar ôl cael eu derbyn neu fynd ymlaen i Ran II.

Nod y rhaglen gynefino yw darparu gwybodaeth a hyfforddiant yn ogystal â chyflwyno myfyrwyr i’r prosesau graddau ymchwil. Fel arfer, bydd hyn yn cael ei gwblhau gan eich Athrofa neu'ch sefydliad partner cydweithredol a'r Coleg Doethurol.

Fel arfer bydd y rhaglen gynefino’n rhoi gwybodaeth am:

- y cyfleusterau sydd ar gael i fyfyrwyr;
- y cymorth gweinyddol sydd ar gael i fyfyrwyr;
- rheolau ynglŷn â’r defnydd o gyfleusterau, arfer da, a, lle bo hynny’n briodol, yr hyfforddiant sydd ei angen ar gyfer cyfarpar arbennig;
- rheolau ynglŷn â rheoli a diogelu data, lle bo hynny’n briodol;
- gofynion Iechyd a Diogelwch;
- materion yn ymwneud â’r Polisi Eiddo Deallusol;
- prosesau a gofynion gwneud cais a chymeradwyo moeseg ymchwil, yn ogystal â chyflwyniad i’r polisi integredd ymchwil;
- gofynion i fyfyrwyr fynychu a chyflwyno seminarau ymchwil ac ymgymryd â hyfforddiant ymchwil arall trwy Raglen Datblygu Ymchwilwyr y Brifysgol;
- gwybodaeth am hyfforddiant sgiliau ymchwil;

- cyfleoedd i fyfyrwyr fynychu cynadleddau a chyfarfodydd;
- trefniadau goruchwylio ac adolygu a'r cymorth sydd ar gael;
- y cerrig milltir gofynnol i gwblhau'r rhaglen astudio.

Fel rhan o ymrwymiad y Brifysgol i'r Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr (RDF), dylech gymryd rhan yn Rhaglen Datblygu Ymchwilwyr y Brifysgol (RDP) a digwyddiadau ymchwil yr Athrofa. Mae'n bosibl y bydd rhai noddwyr yn ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr gymryd rhan yn y rhaglenni hyn neu rhaglenni tebyg fel amod nawdd, a dylid eu nodi hynny adeg derbyn.

## Disgwyliadau Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig

Mae myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn:

- cofrestru gyda'r Brifysgol yn flynyddol ar ddyddiad eu cofrestriad cyntaf;
- talu'r holl ffioedd gofynnol i'r Brifysgol;
- cysylltu â'u tîm goruchwylio'n rheolaidd yn unol â'r polisi monitro a mynd i bob cyfarfod ffurfiol ac anffurfiol a drefnir;
- sicrhau bod fersiwn terfynol o'r traethawd ymchwil yn cael ei gyflwyno erbyn y dyddiad cyflwyno terfynol;
- glynu at ofynion cyflwyno'r traethawd ymchwil, yn enwedig gofynion ynghylch cyfeirnodi yn ôl safon gyson a chydnabyddedig;
- gwneud y tîm goruchwylio'n ymwybodol o unrhyw anghenion neu amgylchiadau penodol sy'n debygol o effeithio ar eu gwaith;
- ymgyfarwyddo â rheoliadau, canllawiau, prosesau a gweithdrefnau'r Brifysgol ar gyfer graddau ymchwil;
- cwblhau'r holl ffurflenni angenrheidiol a ddefnyddir gan y Brifysgol i fonitro cynnydd a pherfformiad;
- cymryd perchnogaeth o'u cynllun ymchwil ac ymgymryd â hyfforddiant sgiliau ehangach;
- mynychu'r seminarau ymchwil a'r digwyddiadau hyfforddi a ddarperir gan Raglen Datblygu Ymchwilwyr y Brifysgol (RDP), yn ogystal ag unrhyw hyfforddiant a gynigir gan yr Athrofa neu sefydliadau partner cydweithredol, boed hynny'n bersonol neu, yn achos myfyrwyr dysgu o bell, yn electronig;
- mynychu unrhyw ddarlithoedd/seminarau/gweithdai sy'n rhan o Ran Un rhaglen MRes neu Ddoethuriaeth Broffesiynol;

## Gweithio tra byddwch yn fyfyriwr amser llawn

Dylai myfyrwyr ystyried sut y gallai unrhyw waith am dâl, neu waith di-dâl, gwirfoddol neu elusennol effeithio ar eu gallu i gwblhau'u hastudiaethau mewn pryd. Argymhellir yn gryf na ddylai myfyrwyr amser llawn ymgymryd â mwy na deg awr o waith am dâl neu'n ddi-dâl yn ystod yr wythnos waith arferol.

Os bydd myfyrwyr yn ymgymryd â lleoliadau sy'n rhan annatod o'u rhaglen Doethuriaeth Broffesiynol ac sy'n cael eu hasesu'n rhan ohoni, dylid nodi'n glir yr amodau sy'n ymwneud â'r lleoliad, yn cynnwys unrhyw dâl, a'u cytuno'n ysgrifenedig ac o flaen llaw rhwng y myfyriwr, y Brifysgol a'r darparwr lleoliad.

Mae'r Brifysgol yn cydnabod y gall ymwneud â gwaith academaidd neu waith arall ychwanegol fod o fudd i ddatblygiad gyrfa myfyrwyr, ond pwysleisia bwysigrwydd sicrhau nad yw hyn yn amharu ar gynnydd eu hymchwil.

Rhaid i fyfyrwyr rhyngwladol sicrhau hefyd eu bod yn bodloni unrhyw ofynion a nodir gan eu fisa. Os yw myfyrwyr wedi'u noddi gan gynghorau ymchwil neu noddwyr eraill, rhaid iddynt bob amser gydymffurfio ag unrhyw amodau o ran cyflogaeth a nodwyd gan y noddwyr hynny.

Petai myfyrwyr amser llawn yn penderfynu gweithio mwy na'r deg awr yr wythnos a argymhellir, cedwir llygad manwl ar y cynnydd academaidd ac os yw'r cynnydd yn anfoddhaol mewn unrhyw ffordd, mae'n bosibl y bydd yn ofynnol i'r myfyriwr leihau'r nifer o oriau y mae'n gweithio neu, os yw amodau statws neu fisa'n caniatáu hynny, i newid y dull astudio gan astudio'n rhan-amser am y radd. Fel arfer ni chaniateir i fyfyrwyr amser llawn sy'n anwybyddu cyfarwyddyd y Brifysgol ac sy'n gweithio mwy na deg awr yr wythnos wneud cais am estyniad i'r terfyn amser hwyaf ar gyfer cwblhau eu gradd ar y seiliau hyn.

# Cynorthwywyr Addysgu Graddedig

Gall Athrofeydd gyflogi Cynorthwywyr Addysgu Graddedig er mwyn rhoi cyfle gwerthfawr i'w myfyrwyr ennill sgiliau addysgu. Wrth ystyried cynnig y cyfle hwn, mae angen iddynt sicrhau'r canlynol:

- bod yr holl gynorthwywyr addysgu graddedig naill ai wedi cwblhau rhaglen achrededig y Brifysgol ar gyfer cynorthwywyr addysgu graddedig neu wedi cofrestru arni;
- bod gweithdrefn ddethol briodol yn cael ei dilyn a chontract yn cael ei lunio gyda'r Adran Adnoddau Dynol.
- rhaid i Gynorthwywyr Addysgu Graddedig gwblhau rhaglen hyfforddi GTA y Brifysgol

Gall y Brifysgol hefyd ganiatáu i Fyfyrwyr Gradd Ymchwil addysgu/darlithio/marcio/arddangos ar fodylau unigol ar sail ad hoc. Dylai'r myfyrwyr hyn gwblhau'r rhaglen "Addysgu yn Y Drindod Dewi Sant".

# CERRIG MILLTIR Y FLWYDDYN GYNTAF

Gofynion a Dyddiadau cau Myfyrwyr Amser Llawn o'r dechrau:

- Cynnig Ymchwil Llawn: 3 mis
- Cymeradwyaeth Foesegol: 6 mis
- Adolygiad Cynnydd: 12 mis

Gofynion a Dyddiadau cau Myfyrwyr Rhan-Amser:

- Cynnig Ymchwil Llawn: 6 mis
- Cymeradwyaeth Foesegol: 12 mis
- Adolygiad Cynnydd: 12 mis

## Cynnig Ymchwil Llawn

Mae'r Brifysgol yn ei gwneud yn ofynnol i bob myfyriwr gwblhau Cynnig Ymchwil Llawn a'i gyflwyno i'w gymeradwyo i'w tîm goruchwylio, Pwyllgor Ymchwil yr Athrofa a'r Pwyllgor Graddau Ymchwil o fewn yr amserlen briodol ar gyfer eu dull astudio.

Mae'r Cynnig Ymchwil Llawn yn gofyn i fyfyrwyr ddatblygu eu cynnig yn llawnach ac amlinellu eu methodoleg arfaethedig a'r amserlenni ar gyfer cwblhau eu prosiect ymchwil. Mae'n garreg filltir bwysig i helpu sicrhau bod myfyrwyr yn cadw at eu hamserlen ac yn datblygu eu hymchwil.

Gall y PGY gymeradwyo prosiectau gradd ymchwil mewn egwyddor neu gall atal cymeradwyaeth am resymau academaidd gan gynnwys methodoleg neu gyfleusterau ymchwil annigonol neu amhriodol. Os caiff cymeradwyaeth ei atal, dylid ailgyflwyno cynnig diwygiedig o fewn 4 wythnos. Os caiff cymeradwyaeth ei atal am gynnig a ailgyflwynwyd, gall y PGY benderfynu ei bod yn briodol terfynu astudiaethau. Gall myfyrwyr apelio yn erbyn penderfyniad i derfynu eu hastudiaethau yn unol â'r Polisi Apeliadau Academaidd.

Ar ôl i brosiect ymchwil gael ei gymeradwyo mewn egwyddor, mae'n rhaid i fyfyriwr wneud cais am gymeradwyaeth foesegol.

## Cymeradwyaeth Foesegol

Ar ôl i Gynnig Ymchwil Llawn gael ei gymeradwyo gan y PGY, mae'n rhaid i'r myfyriwr gwblhau a chyflwyno Ffurflen Gais am Gymeradwyaeth Foesegol i'r Pwyllgor Moeseg Ymchwil. Rhaid i hyn ddigwydd dim mwy na 6 mis ar ôl i fyfyrwyr amser llawn ddechrau ar eu hymchwil, a dim mwy na 12 mis yn achos myfyrwyr rhan-amser.

Ceir canllaw ar wahân i'r Broses Gymeradwyo Foesegol sydd ar gael yma: Unplygrwydd a Moeseg Ymchwil | Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Gall y Pwyllgor Moeseg Ymchwil roi cymeradwyaeth foesegol lawn neu atal cymeradwyaeth tan iddo gael eglurhad ynghylch unrhyw bwyntiau a godwyd. Os atelir cymeradwyaeth, dylid ailgyflwyno cynnig diwygiedig cyn gynted ag y bo modd. Er na ddylid cychwyn ar weithgarwch ymchwil mewn meysydd sy'n gofyn am gymeradwyaeth foesegol tan ar ôl i gymeradwyaeth ysgrifenedig gael ei rhoi gan y Pwyllgor Moeseg Ymchwil, gall myfyrwyr gychwyn ar agweddau eraill ar eu hymchwil tra byddant yn aros am gymeradwyaeth ffurfiol.

## Adolygiad Cynnydd

Bydd pob myfyriwr gradd ymchwil yn cael adolygiad cynnydd gan ddechrau yn eu blwyddyn astudio gyntaf.

Diben hyn yw sicrhau eu bod yn parhau i gadw at yr amserlen ar gyfer cwblhau eu prosiect. Ar ôl y flwyddyn gyntaf, mae'r adolygiad cynnydd yn broses flynyddol o leiaf ond gall ddigwydd yn amlach. Eglurir y broses adolygu cynnydd yn y Canllaw Monitro Cynnydd.

# Monitro Cynnydd

Mae'r Brifysgol trwy'r PGY yn monitro cynnydd yr holl fyfyrwyr graddau ymchwil o leiaf yn flynyddol.

Dylai myfyrwyr gwrdd yn rheolaidd ag aelodau'r tîm goruchwylio. Yn unol ag arfer da a disgwyliad y Brifysgol bydd myfyrwyr yn mynychu deg cyfarfod ffurfiol bob deuddeg mis: o leiaf **dri** gyda phob aelod o'r tîm goruchwylio (gan gynnwys unrhyw gynghorwyr cyfredol) ac o leiaf **dri** arall gydag o leiaf ddau aelod o'u tîm goruchwylio.

Y gofyniad lleiaf yw bod myfyrwyr yn mynychu tri chyfarfod goruchwylio y flwyddyn: **un** gyda phob aelod o'r tîm goruchwylio (gan gynnwys unrhyw gynghorwyr cyfredol) a **dau** arall gydag o leiaf ddau aelod o'u tîm goruchwylio. Dylid gwneud cofnod o bob cyfarfod ffurfiol ar y ffurflen Cofnod o Gyfarfod Ffurfiol (PG4) a gwblheir ar y cyd gan y myfyriwr a'r tîm goruchwylio.

Mae'n ofynnol gan y Brifysgol  bod pob tîm goruchwylio'n cyflwyno adroddiad cynnydd i'r Byrddau Adolygu Cynnydd priodol o leiaf yn flynyddol.

Rhaid i bob Adroddiad Cynnydd gynnwys asesiad o ymwneud a chynnydd y myfyriwr ar ei brosiect ymchwil, ei gysylltiad â'r tîm goruchwylio, y tebygolrwydd y bydd yn cwblhau o fewn y cyfnod amser a ganiateir, ac a yw wedi bodloni'r cerrig milltir priodol o ran ymchwil.


Gofynnir i bob myfyriwr ymateb i adroddiad y tîm goruchwylio.

Ar sail yr adroddiad, bydd y Bwrdd Adolygu Cynnydd yn penderfynu a ystyrir y cynnydd ar y prosiect i fod yn **"foddhaol"**, yn
**"achos pryder"** neu'n **"anfoddhaol".**


Yn achos myfyrwyr y bernir bod eu cynnydd yn **"achos pryder"** neu'n **"anfoddhaol"**, fel arfer bydd angen adolygiad pellach o'u cynnydd ar gyfer y Bwrdd Adolygu Cynnydd nesaf.

Mae'r camau ffurfiol pan asesir cynnydd myfyriwr wedi'u hamlinellu isod ar gyfer y gwahanol raddau ymchwil (sylwer: yn achos myfyrwyr rhan-amser dyblir yr amserlenni):


### PhD Amser Llawn



## MPhil Amser Llawn





## MA trwy Ymchwil / MSc trwy Ymchwil Amser Llawn





- 


## Doethuriaeth Broffesiynol Amser Llawn



## Meistr trwy Ymchwil (MRes) Amser Llawn




## PhD trwy Weithiau Cyhoeddedig Amser Llawn



# Cylch Gorchwyl Bwrdd Adolygu Cynnydd

- Ystyried y gwaith papur adolygu cynnydd ar gyfer pob myfyriwr (ac unrhyw waith papur adolygu cynllun gweithredu) ac asesu cynnydd a pherfformiad pob myfyriwr, gan ystyried sylwadau'r tîm goruchwylio a'r Athrofa ac asesiad y myfyriwr ei hun o'i gynnydd;
- Gwneud penderfyniadau terfynol yn ffurfiol mewn perthynas â'r canlyniad ar gyfer pob myfyriwr (boddhaol, achos pryder, anfoddhaol a therfynu astudiaethau) a chadarnhau unrhyw gynlluniau gweithredu cysylltiedig neu gamau adferol ac i roi gwybod am y canlyniadau hyn i'r Pwyllgor Graddau Ymchwil;
- Cymryd camau priodol ar unrhyw bryderon a godwyd gan naill ai'r tîm goruchwylio neu'r myfyriwr yn y gwaith papur adolygu blynyddol (neu waith papur adolygu cynllun gweithredu);
- Cadw cofnodion o'r penderfyniadau a wnaed gan y Bwrdd, gan gynnwys sylwadau perthnasol ar berfformiad myfyrwyr**.**
- Mae aelodaeth y Bwrdd Adolygu Cynnydd yr un fath â'r PGY.

# Canlyniadau Adolygiadau Cynnydd

## Cynnydd Boddhaol

Bernir bod cynnydd myfyriwr yn **"foddhaol"** fel arfer pan fydd y myfyriwr:

- wedi sicrhau tîm goruchwylio cyflawn ac wedi cynnal cyswllt rheolaidd a chyson â'r tîm hwn,
- wedi cwblhau pob carreg filltir berthnasol yn llwyddiannus (megis cael cymeradwyaeth am gynnig ymchwil llawn a chymeradwyaeth foesegol),
- yn mynd i'r afael yn weithredol â'r prosiect ymchwil, ac,
- ym marn y tîm goruchwylio, yn gwneud cynnydd priodol ac felly mae'n debygol y bydd yn gallu ysgrifennu'r prosiect ymchwil mewn fformat academaidd priodol iddo allu cael ei asesu'n feirniadol gan arholwyr.

Os bernir bod cynnydd myfyriwr yn "foddhaol", ystyrir yr Adroddiad Cynnydd nesaf yn y Bwrdd Adolygu Cynnydd a gynhelir 12 mis yn ddiweddarach.

## Achos Pryder

Bernir bod cynnydd myfyriwr yn **"achos pryder"** fel arfer pan fydd un neu ragor o'r materion isod yn amlwg o ran y myfyriwr:

- nid yw'n cynnal cyswllt rheolaidd a chyson â'r tîm goruchwylio, neu
- nid oes ganddo dîm goruchwylio cyflawn, neu
- nid yw wedi cwblhau pob carreg filltir berthnasol, neu
- nid yw'n mynd i'r afael yn llawn â'r prosiect ymchwil, neu,
- ym marn y tîm goruchwylio, nid yw'n gwneud cynnydd priodol ac felly nid yw'n debygol y bydd yn gallu ysgrifennu'r prosiect ymchwil mewn fformat academaidd priodol iddo allu cael ei asesu'n feirniadol gan arholwyr heb gamau adferol.

Os dynodir bod cynnydd myfyriwr yn "achos pryder", rhaid i'r myfyriwr gwrdd â'i dîm goruchwylio a chytuno ar weithredoedd i'w cwblhau i fynd i'r afael â'r materion a amlygwyd gan y Bwrdd Adolygu Cynnydd. Rhaid i'r tîm goruchwylio gyflwyno adroddiad adolygiad cynnydd i'r Bwrdd Adolygu Cynnydd nesaf. Pan na fydd tîm goruchwylio wedi'i sefydlu, bydd y Bwrdd Adolygu Cynnydd yn nodi person priodol y dylid cwrdd ag ef/hi i ddatrys y sefyllfa.

Os ystyrir bod myfyriwr yn "achos pryder" mewn dau Fwrdd Adolygu Cynnydd yn olynol, dynodir bod cynnydd y myfyriwr yn anfoddhaol. Fodd bynnag nid felly y mae os yw'r "achos pryder" yn ganlyniad i ddiffyg tîm goruchwylio.

## Anfoddhaol

Bernir bod cynnydd myfyriwr yn **“anfoddhaol”** fel arfer pan fydd un neu ragor o’r canlynol yn amlwg o ran myfyriwr:

- nid yw wedi bod mewn cysylltiad â’r tîm goruchwylio am gyfnod o fwy na 3 mis, neu
- nid yw’n mynd i’r afael â’r prosiect ymchwil, neu,
- nid yw wedi cwblhau unrhyw gerrig milltir sy’n weddill o fewn cyfnod amser rhesymol, neu
- ym marn y tîm goruchwylio, nid yw’n gwneud unrhyw gynnydd gwirioneddol ac felly ni fyddai’n gallu ysgrifennu’r prosiect ymchwil mewn fformat academaidd priodol iddo allu cael ei asesu’n feirniadol gan arholwyr heb ymyrraeth eithafol.


Os dynodir bod cynnydd myfyriwr yn “anfoddhaol”, rhaid i’r myfyriwr gwrdd â’i dîm goruchwylio a chytuno ar weithredoedd i’w cwblhau i fynd i’r afael â’r materion a amlygwyd gan y Bwrdd Adolygu Cynnydd. Rhaid i’r tîm goruchwylio gyflwyno adroddiad adolygu cynnydd i’r Bwrdd Adolygu Cynnydd nesaf.

Os ystyrir bod myfyriwr yn “anfoddhaol” mewn dau Fwrdd Adolygu Cynnydd o fewn cyfnod o 12 mis, terfynir ymgeisyddiaeth y myfyriwr.

## Crynodeb o asesiadau ac argymhellion

**Allwedd:** Asesiad: Bodd = Boddhaol; AP – Achos pryder; An = Anfoddhaol / Camau Gweithredu: Llwyddo = mynd ymlaen i'r cylch adolygu 12 mis; CG 3m = Cynllun gweithredu 3 mis

| AC-1 | Cam Gweithredu | AC-2 | Cam Gweithredu | AC-3 | Cam Gweithredu | AC-4 | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|



# Cyfnod Astudio Prawf (PhD yn unig)

Bydd myfyrwyr sy'n cofrestru ar radd PhD yn cael eu cofrestru yn y lle cyntaf am gyfnod astudio prawf.

## Amserlen cyfnod prawf

| | | | |
|---|---|---|---|
| • Amser Llawn | | • Rhan Amser | |
| • Panel Prawf | • O fewn 18 mis | • Panel Prawf | • O fewn 36 mis |

## Disgwyliadau yn ystod cyfnod prawf

Yn ystod y cyfnod prawf, disgwylir i'r myfyriwr ddangos y gallu i fwrw ati ag ymchwil pellach a bydd disgwyl iddo fodloni'r meini prawf cyffredinol canlynol:

- Mae'r myfyriwr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r pwnc a dulliau a thechnegau cysylltiedig;
- Mae'r myfyriwr wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr o lenyddiaeth;
- Mae'r myfyriwr wedi dangos potensial i wneud cyfraniad gwreiddiol i'r maes astudio perthnasol;
- Mae'r myfyriwr yn gallu cyflwyno a mynegi gwaith ar lafar, ac yn ysgrifenedig, yn llwyddiannus;
- Mae'r myfyriwr wedi cwblhau'r modylau neu'r cyrsiau hyfforddi a nodwyd ar ddechrau ei astudiaethau yn foddhaol;
- Mae'r myfyriwr yn gallu dangos cymhwysedd, yn ysgrifenedig ac ar lafar, yn yr iaith gyflwyno (Saesneg neu Gymraeg).

Gall y tîm goruchwylio osod meini prawf ychwanegol i fesur perfformiad y myfyriwr yn ystod y cyfnod prawf. Rhaid gwneud unrhyw feini prawf ychwanegol yn glir i'r myfyriwr adeg cofrestru.

## Dod â chyfnod prawf i ben (PhD yn unig)

Er mwyn dod â'r cyfnod prawf i ben, bydd yn ofynnol i'r holl fyfyrwyr PhD fynd trwy banel prawf yn llwyddiannus. Yn rhan o'r panel, rhaid iddynt gyflwyno:

- sampl o waith,
- Ffurflen PG7B(2) – Cyflwyniad Myfyriwr i Banel Prawf

Dylai'r cyflwyniad hwn gynnwys gwybodaeth am gynnydd y prosiect ymchwil, asesiad o'r anghenion hyfforddi gofynnol, unrhyw faterion sy'n parhau y mae angen rhoi sylw iddynt, a chynnig clir ar gyfer camau nesaf y prosiect ymchwil.

## Panel Prawf

Bydd y Panel Prawf yn cynnwys y tîm goruchwylio ynghyd ag asesydd a Chadeirydd, a dylai'r ddau fod yn annibynnol ar y tîm goruchwylio.  Cymeradwyir cyfansoddiad y panel gan y PGY. Wedyn trefnir y panel gan y Cadeirydd.

Nod y Panel Prawf yw sicrhau bod y myfyriwr yn cwrdd â'r gofynion a nodwyd uchod a rhoi profiad i'r myfyriwr o'r broses arholi PhD.

Bydd Paneli Prawf yn cwrdd fel arfer ac yn cynnal arholiad llafar ar gyfer y myfyriwr ar ôl i'r gwaith papur priodol gael ei gyflwyno.

Gall fformat cyfarfod y Panel Prawf amrywio ond at ei gilydd bydd yn dilyn yr un fformat ag arholiadau llafar ar gyfer PhD a gall gynnwys cais am drosolwg PowerPoint o'r gwaith hyd yn hyn ynghyd â phennod o'r traethawd ymchwil.

Cyfrifoldeb y myfyriwr yw gwneud y Cadeirydd yn ymwybodol, cyn dechrau'r arholiad, o amgylchiadau esgusodol a allai effeithio ar berfformiad y myfyriwr yn y panel cyn dechrau'r cyfarfod. Cyfrifoldeb y Cadeirydd yw cadarnhau unrhyw addasiadau priodol sydd eu hangen o ganlyniad. Ni fydd apeliadau academaidd sy'n seiliedig ar amgylchiadau esgusodol y gellid bod wedi tynnu sylw'r Bwrdd Arholi atynt cyn yr arholiad llafar yn cael eu hystyried.

Ar ddechrau'r arholiad, bydd y Cadeirydd yn sicrhau bod y myfyriwr yn cael ei gyflwyno i'r panel. Dylai'r Cadeirydd egluro pwrpas y Panel Prawf i'r panel a'r myfyriwr. Dylai'r Cadeirydd sicrhau hefyd bod y panel a'r myfyriwr yn ymwybodol o reoliadau a chanllawiau'r Brifysgol sy'n ymwneud ag arholi traethawd ymchwil. Bydd y Cadeirydd yn egluro strwythur y panel a gwneud rolau aelodau'r panel ac unrhyw unigolion eraill sy'n bresennol yn glir. Os oes unrhyw unigolion eraill yn bresennol, dylai'r Cadeirydd gadarnhau nad oes gan y myfyriwr na'r panel, os yw'n briodol, unrhyw wrthwynebiad i bresenoldeb yr unigolion hynny.

Mae'n bosibl y bydd y Cadeirydd ofyn i'r myfyriwr roi trosolwg byr o'r ymchwil ar ddechrau'r arholiad, gall hyn fod ar ffurf cyflwyniad PowerPoint.

Ar ddiwedd yr arholiad llafar, gofynnir i'r myfyriwr adael yr ystafell tra penderfyna'r panel ar eu hargymhelliad. Wedyn gofynnir i'r myfyriwr ddychwelyd i'r ystafell i gael adborth ar yr arholiad llafar a chael gwybod am y canlyniad a argymhellir a fydd yn cael ei anfon at y PGY. Dylai'r Cadeirydd ei gwneud yn glir bod argymhelliad y panel yn un amodol ac mai'r PGY priodol fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Dylai'r Cadeirydd roi gwybod yn fras i'r myfyriwr pryd y disgwylir hysbysiad ffurfiol o'r canlyniad.

Bydd y Panel Prawf yn argymell un o'r canlyniadau canlynol:

- Llwyddo'r cyfnod prawf a pharhau â'r astudiaethau;
- Ymestyn y cyfnod prawf am hyd at 3 mis i fyfyrwyr amser llawn a hyd at 6 mis i fyfyrwyr rhan-amser. Rhaid i'r Panel nodi'r amodau y mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw. Os na fodlonir yr amodau, rhaid i'r Panel Prawf gwrdd eto.
- Ymestyn y cyfnod prawf am hyd at 6 mis i fyfyrwyr amser llawn neu hyd at 12 mis i fyfyrwyr rhan-amser. Ar ddiwedd y cyfnod prawf estynedig, bydd y Panel Prawf yn cwrdd eto. Nid yw'r opsiwn hwn ar gael i fyfyrwyr y mae eu cyfnod prawf wedi'i ymestyn eisoes;
- Trosglwyddo i ddyfarniad is (naill ai i MPhil neu i MA trwy Ymchwil / MSc trwy Ymchwil);
- Gorfod tynnu'n ôl.

Mae gan fyfyrwyr yr hawl i apelio yn erbyn pob penderfyniad yn unol â'r Polisi Apeliadau Academaidd.

# Toriad i Astudiaethau

Mae'r rheoliadau hyn yn berthnasol yn unig i fyfyrwyr sy'n ymgymryd ag elfen ymchwil gradd ymchwil.

Nid oes gan fyfyrwyr hawl awtomatig am doriad i'w hastudiaethau; rhaid gwneud cais am doriad i'w hastudiaethau ar y ffurflen briodol. Mae myfyrwyr yn gymwys hefyd i wneud cais am doriad i'w hastudiaethau yn ystod y cyfnod cywiro neu'r cyfnod ailgyflwyno.

## Rhesymau dros gael toriad

Gall myfyriwr wneud cais am doriad i'w astudiaethau am y rhesymau canlynol:

- Iechyd neu Feddygol;
- Cyfnod mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu;
- Tosturiol (yn cynnwys profedigaeth ac anawsterau difrifol yn y cartref);

- Ariannol;
- Ymrwymiadau proffesiynol eithriadol;
- Cyfleoedd sy'n cyfrannu at ddatblygiad academaidd;
- Amgylchiadau eithriadol y tu allan i reolaeth y myfyriwr sy'n amharu'n ddifrifol ar allu'r myfyriwr i barhau â'i astudiaethau.

Rhaid i bob cais gael ei gefnogi gan dystiolaeth annibynnol briodol. Ni chymeradwyir ceisiadau anghyflawn

## Y drefn ar gyfer gwneud cais

Rhaid i'r myfyriwr drafod y bwriad i gymryd toriad i'w astudiaethau gyda'r Cyfarwyddwr Astudiaethau a/neu aelodau staff perthnasol eraill yn yr Athrofa neu'r sefydliad partner cydweithredol. Anogir myfyrwyr rhyngwladol yn gryf i ymgynghori â'r Swyddfa Ryngwladol cyn gwneud penderfyniad terfynol, oherwydd gallai hyn gael oblygiadau o ran statws mewnfudo. Dylai'r myfyriwr gwblhau Ffurflen Gais am Doriad i Astudiaethau. Rhaid cwblhau pob adran berthnasol ar y ffurflen a gwneud yn siŵr fod y rhesymau dros gymryd toriad i'w astudiaethau wedi'u nodi'n glir ac y darperir tystiolaeth ategol annibynnol.

Gan ymgynghori â'r Cyfarwyddwr Astudiaethau, rhaid i Reolwr Graddau Ymchwil yr Athrofa berthnasol wneud datganiad yn nodi a yw'r Athrofa'n cefnogi'r cais a rhaid rhoi manylion y cynlluniau ac unrhyw amodau ar gyfer dychwelyd i astudio. Rhaid anfon y ffurflen wedi'i chwblhau i Swyddfa'r Coleg Doethurol. Ni fydd ceisiadau anghyflawn neu nad ydynt wedi'u cefnogi yn cael eu hystyried. Ni chaiff ceisiadau am doriad i astudiaethau eu hystyried fel arfer oni bai iddynt gael eu gwneud yn amserol.

Fel arfer bydd ceisiadau am doriad i astudiaethau'n cael eu hystyried gan Swyddfa'r Coleg Doethurol. Os na fydd Swyddfa'r Coleg Doethurol yn gallu dod i benderfyniad, bydd y cais yn cael ei gyfeirio at gyfarfod o'r PGY.

Bydd Swyddfa'r Coleg Doethurol yn hysbysu'r myfyriwr o'r penderfyniad terfynol trwy lythyr Toriad i Astudiaethau (a all fod ar ffurf neges electronig).

## Adolygu penderfyniad i beidio â chymeradwyo cais am doriad i astudiaethau

Bydd y gweithdrefnau ar gyfer gwneud cais am doriad i astudiaethau yn sicrhau bod pob cais yn cael ei archwilio ar lefel Athrofa ac ar lefel Prifysgol. Caiff ceisiadau eu hystyried yn erbyn meini prawf pendant ac mae'r broses yn glir a thryloyw. Dan amgylchiadau eithriadol, megis bodolaeth tystiolaeth newydd argyhoeddiadol, gall y myfyriwr wneud cais am adolygiad o'r penderfyniad, yn unol â'r gweithdrefnau a nodir yn y Polisi Amgylchiadau Esgusodol.

## Amseriad a hyd y toriad i astudiaethau

Dylai'r toriad i astudiaethau gychwyn fel arfer ar ddechrau mis fel y gellir nodi pwynt penodol pryd y dychwelir i astudio. Dan amgylchiadau eithriadol gall cyfnod o doriad gychwyn ar unwaith mewn sefyllfaoedd lle mae absenoldeb y myfyriwr o'r Brifysgol yn anorfod neu fod angen hynny ar frys.

Fel arfer dylai'r toriad i astudiaethau fod am gyfnod penodol o amser a rhaid cytuno ar ddyddiad ar gyfer dychwelyd i astudio adeg cymeradwyo'r toriad i astudiaethau.

Wrth gefnogi cais am doriad i astudiaethau, rhaid i'r Athrofa neu'r sefydliad partner cydweithredol ystyried cynllun priodol ar gyfer dychwelyd i astudio ac ystyried **a ddylid gosod unrhyw amodau ar gyfer dychwelyd i astudio.**

Dylai myfyriwr sy'n cymryd toriad i'w astudiaethau fod yn ymwybodol na fydd, efallai, yn bosibl parhau i weithio gyda'r un tîm goruchwylio yn union pan fydd yn ailgydio yn ei astudiaethau (er enghraifft o ganlyniad i ymddeoliad staff neu newidiadau o ran staffio). Mewn achosion o'r fath, bydd y Brifysgol yn gweithio gyda'r myfyriwr i geisio dod o hyd i aelod arall addas ar gyfer y tîm goruchwylio.

Os na fydd myfyriwr yn gallu dychwelyd ar y dyddiad a gytunwyd, bydd yn rhaid iddo ef/hi geisio cymeradwyaeth bellach i ymestyn cyfnod y toriad. Os bydd myfyriwr yn methu â dychwelyd i astudio erbyn y dyddiad a bennwyd a heb wneud cais am gymeradwyaeth i estyn cyfnod y toriad, bydd y Brifysgol yn tybio bod y myfyriwr wedi tynnu'n ôl o'r Brifysgol. Hysbysir y myfyriwr yn ysgrifenedig ei fod wedi'i dynnu'n ôl a bod ei gofnod wedi'i ddiwygio. Bydd gan y myfyriwr yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad yn unol â'r Polisi Apeliadau Academaidd.

Fel arfer, yn achos dyfarniad ymchwil, caniateir toriad i astudiaethau am gyfanswm cyfnod o ddim mwy na 12 mis i fyfyriwr amser llawn a 24 mis i fyfyriwr rhan-amser. Os oes angen cyfnod hwy na hyn o doriad, dylai'r myfyriwr fel arfer dynnu'n ôl o'i astudiaethau. Gall y myfyriwr ailymgeisio pan fydd mewn sefyllfa i ymrwymo i astudio eto a bydd y Brifysgol yn cymryd cyfnodau astudio blaenorol i ystyriaeth wrth graffu ar geisiadau.

Os gofynnir am ail gyfnod o doriad, caniateir hyn dim ond os yw'r amgylchiadau neilltuol yn debygol o gael eu datrys yn ddigonol cyn diwedd yr ail gyfnod o doriad i'r myfyriwr allu cwblhau'r rhaglen ymchwil heb wneud cais arall am doriad i astudiaethau.

Pan gymeradwyir toriad i astudiaethau, estynnir uchafswm cyfnod ymgeisyddiaeth y myfyriwr i adlewyrchu'r cyfnod o doriad a gymeradwyir.

Rhaid i fyfyriwr ymgynghori ag unrhyw noddwr er mwyn dod i ddealltwriaeth glir ynglŷn â'r oblygiadau cyllido cyn cymryd toriad i astudiaethau; nid yw'r Brifysgol yn gallu gwarantu y bydd grant neu fenthyciad allanol ar gael wrth ailgychwyn astudio.

Os bydd y toriad yn digwydd yn ystod blwyddyn pan mae'r ffioedd dysgu eisoes wedi'u talu, bydd yr Adran Gyllid yn ail-gyfrifo'r swm sy'n ddyledus am y cyfnod astudio pro rata hyd amser y toriad i astudiaethau.

Gallai newidiadau i statws myfyriwr effeithio ar y cyllid/budd-daliadau y mae'r myfyriwr yn gymwys i wneud cais amdanynt ac mae'n bosibl na fydd myfyrwyr sydd wedi cymryd toriad i'w hastudiaethau yn gymwys i gael eu heithrio o Dreth y Cyngor. **Nid** yw myfyrwyr sydd wedi cymryd toriad i'w hastudiaethau'n gymwys i ddefnyddio'r gwasanaethau canlynol:

- Cyllido
- Gwasanaeth Cyfrifiaduron / System Rhwydwaith y Brifysgol
- Gwasanaethau Llyfrgell y Brifysgol
- Undeb y Myfyrwyr

Os yw myfyriwr yn dod o dramor ac wedi cael caniatâd i aros yn y DU fel myfyriwr, bydd toriad i astudiaethau yn arwain at oblygiadau difrifol o ran ei statws mewnfudo ac ni chaniateir iddo ef/hi aros yn y DU dros gyfnod y toriad. Dylai'r myfyriwr gymryd cyngor gan dîm Cydymffurfiaeth Mewnfudo/Cofrestrfa Ryngwladol y Brifysgol.

Os bydd myfyriwr yn cymryd toriad i'w astudiaethau o fewn Rhan 1 ac mae angen iddo ymestyn yr uchafswm cyfnod astudio, mae'n gymwys i wneud cais am estyniad.

## Newid Dull Astudio

Caniateir newid dull astudio (amser llawn i ran-amser neu ran-amser i amser llawn) dim ond yn achos myfyrwyr sydd heb gwblhau'r cyfnod astudio arferol. Fel arfer daw newid mewn dull astudio i rym ar ddiwedd blwyddyn ers dyddiad cofrestru'r myfyriwr.

Fel arfer caniateir newidiadau o ran-amser i amser llawn dim ond ar ddiwedd blynyddoedd eilrif o astudio rhan-amser (ar ôl 2 neu 4 blynedd). Gellir ystyried amgylchiadau eithriadol yn achos arbennig gan y Pwyllgor Graddau Ymchwil fesul achos unigol.

Rhaid i'r myfyriwr drafod y newid dull arfaethedig gyda'r Cyfarwyddwr Astudiaethau a/neu aelodau staff perthnasol eraill yn yr Athrofa neu sefydliad partner cydweithredol. Dylai'r myfyriwr geisio cymeradwyaeth gan unrhyw noddwr (os yw'n briodol) cyn gofyn am newid. Os yw pawb dan sylw'n cytuno i'r newid mewn egwyddor, yna dylai'r myfyriwr gwblhau holl adrannau perthnasol y ffurflen berthnasol. Dylai'r Cyfarwyddwr Astudiaethau ddarparu datganiad yn nodi a yw'r newid wedi'i gefnogi ai peidio. Yn ogystal bydd angen i'r myfyriwr gyflwyno caniatâd ysgrifenedig gan unrhyw noddwr (os yw'n briodol).

Rhaid anfon y ffurflen orffenedig i Swyddfa'r Coleg Doethurol ac yna fe'i hystyrir yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Graddau Ymchwil. Ni all y Pwyllgor Graddau Ymchwil ystyried ceisiadau anghyflawn neu nad ydynt wedi'u cefnogi gan y Cyfarwyddwr Astudiaethau neu'r sefydliad partner cydweithredol neu noddwr y myfyriwr (os yw'n briodol). Fel arfer nid ystyrir ceisiadau i newid dull astudio yn adolygol.

Er mwyn sicrhau ymateb amserol i geisiadau i newid dull astudio, mewn achosion lle mae'r ceisiadau yn amlwg yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cymeradwyo, gall Cadeirydd y PGY a staff Swyddfa'r Coleg Doethurol gymeradwyo'r ceisiadau ar ran y PGY.

### Adolygu penderfyniad i beidio â chymeradwyo newid dull astudio

Mae'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud cais i newid dull astudio yn sicrhau bod pob cais yn cael ei archwilio ar lefel Athrofa ac ar lefel Prifysgol. Caiff ceisiadau eu hystyried yn erbyn meini prawf pendant ac mae'r broses yn glir a thryloyw. Mewn achosion eithriadol, megis bodolaeth tystiolaeth newydd argyhoeddiadol, gall y myfyriwr apelio yn erbyn y penderfyniad trwy'r Polisi Apeliadau Academaidd.

### Angen newid dull astudio

Dan amgylchiadau eithriadol mae'n bosibl y bydd gofyn i fyfyriwr newid dull astudio oherwydd polisïau achosion myfyrwyr, neu resymau academaidd neu ariannol. Mewn achosion o'r fath hysbysir y myfyriwr fod y dull astudio wedi newid ac y bydd yn cael gwybod y rhesymau am y newid. Cymeradwyir achosion o'r fath gan y Pwyllgor Graddau Ymchwil.

Ym mhob achos lle bu'n rhaid i fyfyriwr newid dull astudio, bydd gan y myfyriwr yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad fel y nodir yn y Polisi Apeliadau Academaidd.

## Trosglwyddo i Ddyfarniad Uwch/Is

### Trosglwyddo i ddyfarniad uwch (ac eithrio rhaglen MRes)

- O MA trwy Ymchwil / MSc trwy Ymchwil i MPhil
- O MA trwy Ymchwil / MSc trwy Ymchwil i PhD
- O MPhil i PhD

Mae'n rhaid i fyfyrwyr fod o fewn cyfnod astudio arferol y radd ymchwil gyfredol er mwyn cael eu hystyried am drosglwyddiad. Dylai'r myfyriwr drafod y bwriad i drosglwyddo i ddyfarniad uwch gyda'r tîm goruchwylio a chael cefnogaeth y tîm goruchwylio. Dylai'r myfyriwr gwblhau Ffurflen Gais i Drosglwyddo Cynllun Gradd sy'n cynnwys Cynnig Ymchwil Llawn diwygiedig. Rhaid i fyfyrwyr ddangos sut y gellir ymestyn y cynnig ymchwil gwreiddiol i fod yn briodol ar gyfer y dyfarniad uwch, a chyflwyno amserlen ddiwygiedig. Rhaid i'r tîm goruchwylio roi sylwadau ar y Cynnig Ymchwil Llawn diwygiedig ac ar gynnydd y myfyriwr hyd yn hyn. Rhaid i'r Athrofa berthnasol neu'r sefydliad partner cydweithredol nodi a yw'r Athrofa'n cefnogi'r cais ai peidio.
Rhaid anfon y ffurflen wedi'i chwblhau i Swyddfa'r Coleg Doethurol. Ni ellir ystyried ceisiadau anghyflawn neu rai nad ydynt wedi'u cefnogi gan yr Athrofa neu'r sefydliad partner cydweithredol.

Bydd y PGY yn ystyried y cais a'r datganiad gan y tîm goruchwylio, ac os cymeradwyir y cais mewn egwyddor, bydd wedyn yn ystyried y Cynnig Ymchwil Llawn diwygiedig. Os nad yw'r PGY yn gallu cymeradwyo trosglwyddiad neu nid yw'n gallu cymeradwyo'r Cynnig Ymchwil Llawn diwygiedig yn dilyn ail gyflwyniad, rhoddir y dewis i'r myfyriwr

o gwblhau’r dyfarniad gwreiddiol.

Os cymeradwyir myfyriwr i drosglwyddo i PhD, bydd gofyn i’r myfyriwr fynd trwy Banel Prawf.

### Trosglwyddo i ddyfarniad is (ac eithrio rhaglen MRes)

- O PhD i MPhil
- O PhD i MA trwy Ymchwil / MSc trwy Ymchwil
- O MPhil i MA trwy Ymchwil / MSc trwy Ymchwil

Rhaid i fyfyrwyr fod o fewn dim llai na 6 mis (amser llawn) neu flwyddyn (rhan-amser) o’r dyddiad cyflwyno terfynol ar gyfer y dyfarniad is er mwyn cael eu hystyried am drosglwyddiad. Dylai’r myfyriwr drafod y bwriad i drosglwyddo i ddyfarniad is gyda’r tîm goruchwylio a chael cefnogaeth y tîm goruchwylio. Dylai’r myfyriwr gwblhau Ffurflen Gais i Drosglwyddo Cynllun Gradd sy’n cynnwys Cynnig Ymchwil Llawn diwygiedig. Rhaid i fyfyrwyr ddangos sut y gellir lleihau’r cynnig ymchwil gwreiddiol i fod yn briodol ar gyfer y dyfarniad is, a chyflwyno amserlen ddiwygiedig. Rhaid i’r tîm goruchwylio roi sylwadau ar y Cynnig Ymchwil Llawn diwygiedig ac ar gynnydd y myfyriwr hyd yn hyn. Rhaid i’r Athrofa berthnasol neu’r sefydliad partner cydweithredol nodi a yw’r Athrofa’n cefnogi’r cais ai peidio. Rhaid anfon y ffurflen wedi’i chwblhau i Swyddfa’r Coleg Doethurol. Ni ellir ystyried ceisiadau anghyflawn neu nad ydynt wedi’u cefnogi gan yr Athrofa neu’r sefydliad partner cydweithredol.

Bydd y PGY yn ystyried y cais a’r datganiad gan y tîm goruchwylio, ac os cymeradwyir y cais mewn egwyddor, bydd wedyn yn ystyried yr Ymchwil Llawn diwygiedig. Os nad yw’r PGY yn gallu cymeradwyo trosglwyddiad neu nid yw’n gallu cymeradwyo’r Cynnig Ymchwil Llawn yn dilyn ail gyflwyniad, rhoddir y dewis i’r myfyriwr o gwblhau’r dyfarniad gwreiddiol.

## Gorfod Cymryd Toriad

Dan amgylchiadau eithriadol mae’n bosibl y bydd gofyn i fyfyriwr gymryd toriad i’w astudiaethau am resymau academaidd, iechyd neu ddisgyblaethol. Dylid gwneud y gofyniad hwn trwy’r polisi priodol yn y Brifysgol (e.e. Cymorth Astudio, Addasrwydd i Ymarfer neu Gamymddwyn Anacademaidd).

## Tynnu’n ôl yn Wirfoddol

Cyn i fyfyriwr ystyried tynnu’n ôl o’r Brifysgol, mae’n bwysig bod y myfyriwr yn trafod hyn gyda’r Cyfarwyddwr Astudiaethau a/neu aelodau perthnasol eraill o’r staff yn yr Athrofa neu’r sefydliad partner cydweithredol, fel bod dewisiadau eraill posibl yn cael eu hystyried cyn gwneud penderfyniad terfynol. Anogir myfyrwyr rhyngwladol yn gryf i ymgynghori â’r Gofrestrfa Ryngwladol cyn gwneud penderfyniad terfynol, oherwydd gallai hyn fod â goblygiadau o ran statws mewnfudo. Dylai’r myfyriwr hefyd ymgynghori â Gwasanaethau Myfyrwyr ac unrhyw noddwr (os yw’n berthnasol).

Rhaid rhoi gwybod yn ffurfiol ynghylch tynnu’n ôl ar y Ffurflen Hysbysu ynghylch Tynnu’n Ôl. Rhaid i’r ffurflen gael ei llofnodi gan y myfyriwr. Bydd Swyddfa’r Coleg Doethurol yn rhoi gwybod i’r Athrofa am benderfyniad y myfyriwr. Dyddiad y tynnu’n ôl a nodir fydd dyddiad derbyn y ffurflen.

## Estyniad i’r Dyddiad Cyflwyno Terfynol ar Gyfer Cwblhau Gradd Ymchwil

Mae’r uchafswm cyfnodau astudio ar gyfer cwblhau pob dyfarniad ymchwil wedi’u manylu yn yr adran ‘Cyfnodau Astudio. Gellir ymestyn dyddiad cyflwyno terfynol myfyriwr mewn achosion eithriadol trwy gyflwyno Ffurflen Gais am Estyniad i Ymgeisyddiaeth i Swyddfa’r Coleg Doethurol. Bydd dyddiad cyflwyno terfynol myfyriwr ar gyfer cwblhau dyfarniad ymchwil yn cael ei addasu'n awtomatig i gymryd i ystyriaeth amser a dreuliwyd ar Estyniad i Ymgeisyddiaeth a oedd wedi’i gymeradwyo. Mae myfyrwyr hefyd yn gymwys i wneud cais am estyniad yn ystod y cyfnod cywiro neu’r cyfnod ailgyflwyno.

## Rhesymau dros estyniad

Gall myfyrwyr wneud cais am estyniad i'r uchafswm cyfnod astudio ar gyfer dyfarniad am y rhesymau canlynol:

- Iechyd neu Feddygol;
- Tosturiol (yn cynnwys anawsterau difrifol yn y cartref);
- Ymrwymiadau proffesiynol eithriadol.

Rhaid i bob cais gael ei gefnogi gan dystiolaeth annibynnol briodol. Nid ystyrir ceisiadau anghyflawn a dychwelir y ffurflen i'r myfyriwr a/neu'r Athrofa neu'r sefydliad partner cydweithredol.

## Y drefn ar gyfer gwneud cais

Dylai'r myfyriwr gwblhau Ffurflen Gais am Estyniad i Ymgeisyddiaeth. Rhaid i'r myfyriwr gwblhau pob adran berthnasol o'r ffurflen a sicrhau bod y rhesymau am y cais wedi'u nodi'n glir, bod cyfnod yr estyniad wedi'i nodi, ac y darperir tystiolaeth ategol annibynnol briodol:

- rhaid i geisiadau am resymau iechyd neu feddygol penodol neu reolaidd ddarparu tystiolaeth feddygol annibynnol, gan gynnwys arwydd clir o natur y salwch ac am faint y bydd yn para;
- rhaid i geisiadau am resymau tosturiol ddarparu tystiolaeth annibynnol i gefnogi'r achos sy'n egluro'r sefyllfa'n glir gan ddynodi ers faint o amser mae'r amgylchiadau wedi amharu ar allu'r myfyriwr i fynd i'r afael â'i astudiaethau;
- rhaid i geisiadau ar sail ymrwymiadau proffesiynol eithriadol gynnwys cadarnhad ysgrifenedig gan y cyflogwr sy'n rhoi disgrifiad o'r llwyth gwaith eithriadol a ysgwyddir gan y myfyrwyr ac ers faint y bu hyn.

Rhaid i'r Cyfarwyddwr Astudiaethau a'r Athrofa neu'r sefydliad partner cydweithredol ddarparu datganiad i fynd gyda chyflwyniad y myfyrwyr, yn dangos eu bod wedi gwerthuso'r sefyllfa ac yn nodi a ydynt o'r farn fod yr estyniad y gofynnwyd amdano yn briodol ai peidio. Rhaid iddynt ddarparu tystiolaeth glir o'r gwaith a gwblhawyd, y gwaith sydd i'w gwblhau, ac asesiad ynghylch a yw'r cyfnod y gwneir cais amdano yn ymarferol o ran cwblhau hyn.

Fel arfer bydd Swyddfa'r Coleg Doethurol yn ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd a'r datganiad gan y Cyfarwyddwr Astudiaethau a'r Athrofa neu'r sefydliad partner cydweithredol ac yn dod i benderfyniad ynghylch a ddylid caniatáu'r cais am estyniad ai peidio ac union hyd yr estyniad mewn achosion lle caniateir y cais am estyniad. Os na fydd Swyddfa'r Coleg Doethurol yn gallu dod i benderfyniad, bydd y cais yn cael ei gyfeirio at gyfarfod y PGY.

Bydd Swyddfa'r Coleg Doethurol yn hysbysu'r myfyriwr o'r penderfyniad terfynol drwy lythyr Canlyniad Estyniad (a all fod ar ffurf neges electronig).

## Adolygu penderfyniad i beidio â chymeradwyo ceisiadau am estyniad

Mae'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud cais am estyniad yn sicrhau bod pob cais yn cael ei archwilio ar lefel Athrofa neu sefydliad partner cydweithredol ac ar lefel Prifysgol. Caiff ceisiadau eu hystyried yn erbyn meini prawf pendant ac mae'r broses yn glir a thryloyw, felly mae'r penderfyniadau'n derfynol. Dan amgylchiadau eithriadol, megis tystiolaeth newydd argyhoeddiadol, gall y myfyriwr apelio yn erbyn y penderfyniad trwy'r Polisi Apeliadau Academaidd.

# PARATOI'R TRAETHAWD YMCHWIL I'W GYFLWYNO

Ni all y Brifysgol dderbyn cyflwyniad traethawd ymchwil os bydd ffioedd yn ddyledus o hyd.

Nid oes manylion wedi'u pennu ar gyfer strwythur mewnol y traethawd ymchwil, ond dylid trafod y strwythur gyda'r goruchwylwyr a defnyddio'r strwythur mwyaf priodol i'r maes pwnc. Bydd yr arholwyr yn disgwyl i ddiwyg y traethawd fod yn raenus gyda threfn gyson o ran mynegeio a chyfeirnodi gydol y gwaith sy'n briodol i'r ddisgyblaeth benodol.

Yn sgil natur benodol PhD trwy Weithiau Cyhoeddedig awgrymir strwythur ar gyfer y traethawd hwnnw isod. Darperir canllawiau sy'n ymwneud â fformat a rhwymo traethawd ymchwil yn yr adran isod.

## Uchafswm geiriau

Ym mhob achos rhaid i hyd y traethawd ymchwil fod yn briodol i'r maes pwnc dan sylw, ac fel arfer dylai gydymffurfio â'r terfynau a nodir isod:

- Yn achos MRes, ni ddylai'r traethawd fod yn hwy na 30,000 o eiriau, ac eithrio troednodiadau a chyfeiriadau.
- Yn achos MA trwy Ymchwil / MSc trwy Ymchwil ni ddylai'r traethawd fod yn hwy na 40,000 o eiriau, ac eithrio troednodiadau a chyfeiriadau.
- Yn achos MPhil, ni ddylai'r traethawd fod yn hwy na 60,000 o eiriau, ac eithrio troednodiadau a chyfeiriadau.
- Yn achos Doethuriaeth Broffesiynol, ni ddylai'r traethawd fod yn hwy na 60,000 o eiriau, ac eithrio troednodiadau a chyfeiriadau.
- Ni ddylai elfen ysgrifenedig adfyfyriol y Ddoethuriaeth Broffesiynol seiliedig ar arfer fod yn llai na 14,000 o eiriau nac yn hwy na 30,000 o eiriau, ac eithrio troednodiadau a chyfeiriadau.
- Yn achos PhD, ni ddylai'r traethawd fod yn hwy na 100,000 o eiriau, ac eithrio troednodiadau a chyfeiriadau.
- Dylai elfen ysgrifenedig adfyfyriol graddau PhD sy'n seiliedig ar arfer fod yn ddim llai na 20,000 a dim mwy na 50,000 o eiriau ac eithrio troednodiadau a chyfeiriadau.
- Dylai elfen ysgrifenedig adfyfyriol graddau MPhil sy'n seiliedig ar arfer fod yn ddim llai na 10,000 a dim mwy na 25,000 o eiriau.
- Dylai elfen ysgrifenedig adfyfyriol graddau MA trwy Ymchwil / MSc trwy Ymchwil sy'n seiliedig ar arfer fod yn ddim llai na 10,000 a dim mwy na 15,000 o eiriau ac eithrio troednodiadau a chyfeiriadau.

Penderfynir ar y cydbwysedd rhwng elfennau ysgrifenedig adfyfyriol ac ymarferol gan fyfyrwyr unigol, gan ymgynghori â'u goruchwylwyr. Mewn ymchwil sy'n seiliedig ar arfer, disgwylir i'r myfyriwr gyflwyno corff sylweddol o waith creadigol, curadurol neu gyhoeddedig ar ffurf arddangosfa/cynnyrch cyfryngol/perfformiad, neu'r ddogfennaeth sy'n briodol i'r gwaith hwnnw, ar gyfer yr arholiad terfynol.

Dylai agwedd ar elfen ysgrifenedig PhD sy'n seiliedig ar arfer roi cyd-destun hanesyddol, damcaniaethol neu feirniadol perthnasol y gwaith creadigol a/neu'r cyd-destun dylunio. Rhaid i fformat y traethawd ymchwil gael ei gymeradwyo gan y PGY fel rhan o'r broses o gymeradwyo'r cynnig ymchwil ffurfiol.

Nid oes isafswm geiriau penodedig ar gyfer pob gradd (ac eithrio'r hyn a nodwyd uchod ar gyfer graddau seiliedig ar arfer), fodd bynnag, yn achos y PhD gellir ystyried uchafswm geiriau'r MPhil yn ganllaw, ar gyfer yr MPhil gellir ystyried uchafswm geiriau'r MA trwy Ymchwil / MSc trwy Ymchwil yn ganllaw, ac ar gyfer y Ddoethuriaeth Broffesiynol a'r MPhil , gellir ystyried uchafswm geiriau'r MRes yn ganllaw. Gellir ystyried uchafswm geiriau traethawd Meistr a Addysgir yn ganllaw ar gyfer yr MRes.

## Cynnwys arteffactau mewn traethawd ymchwil

Os yw traethawd ymchwil yn cynnwys arteffactau, bydd angen nodi hynny pan fydd myfyriwr yn rhoi gwybod i'r

Brifysgol am ei fwriad i gyflwyno. Bydd angen i fyfyrwyr allu dangos sut mae'r arteffactau hyn yn berthnasol i'r traethawd a'i amddiffyniad.

### Cynnwys papurau cyhoeddedig mewn traethawd ymchwil

Mae'n dderbyniol cynnwys deunydd cyhoeddedig a ysgrifennwyd gan y myfyriwr yn rhan annatod o gorff gwaith a gyflwynir i'w arholi, ar yr amod bod y deunydd wedi'i integreiddio'n briodol a'i gyfeirnodi yn y traethawd ymchwil. Rhaid i'r traethawd ymchwil a gyflwynir fod yn ddarn cydlynol o waith a rhaid iddo ddangos yn glir gyfraniad unigol y myfyriwr i wybodaeth.

Er mwyn dangos cyfraniad unigol y myfyriwr i wybodaeth, rhaid cynnwys copi o'r holl bapurau cyhoeddedig gan y myfyriwr sy'n cyfrannu i'r traethawd ymchwil ar ffurf atodiadau. Yn ogystal mae angen datganiad clir ynghylch perchnogaeth y myfyriwr o ran unrhyw bapurau cyhoeddedig sydd wedi'u cynnwys yn rhan o'r cyflwyniad. Mewn perthynas â phapurau aml-awdur, mae angen arwydd clir o'r cynnwys cydweithredol ar gyfer pob papur cyhoeddedig sydd wedi'i gynnwys yn y cyflwyniad, a rhaid nodi'r elfennau o'r gwaith cyhoeddedig a ysgrifennwyd gan y myfyriwr. Gofynnir i gyd-awduron gadarnhau maint cyfraniad y myfyriwr. Mae angen i fyfyriwr nodi y bydd papurau cyhoeddedig yn cael eu cynnwys pan gyflwynir y cynnig ymchwil llawn i'r PGY.

Ar gyfer traethawd ymchwil a gyflwynir ar gyfer PhD trwy Weithiau Cyhoeddedig, dylai'r gwaith a gyflwynir ar gyfer y radd gynnwys casgliad o weithiau cyhoeddedig, papurau, penodau, llyfrau, a/neu weithiau creadigol mewn unrhyw gyfryngau (gan gynnwys dogfennaeth addas o berfformiad, gosodiad, a gweithiau dros dro eraill). Gyda'i gilydd dylai'r rhain ffurfio rhaglen gydlynol o ymchwil ac maent wedi'u derbyn i'w lledaenu gan gyfnodolion sydd ag enw da, tai cyhoeddi, orielau, lleoliadau neu gyfryngau cyhoeddi tebyg yn y maes.

Anogir myfyrwyr i gyhoeddi papurau sy'n deillio o'u traethawd ymchwil. Os cyhoeddir papurau cyn cyflwyno'r traethawd, dylai myfyrwyr gynnwys y papurau ar ffurf atodiadau gyda'r traethawd ymchwil a gyflwynir, gan ddilyn y gofynion a nodir uchod, ac eithrio'r angen i nodi hyn yn y cynnig ymchwil.

## Canllawiau ar Fformat a Rhwymiad y Traethawd Ymchwil

### Fformat y Traethawd Ymchwil

Mae ymchwil myfyriwr am radd ymchwil i'w gwblhau trwy gyflwyno traethawd ymchwil sy'n ymgorffori dulliau a chanlyniadau'r ymchwil. Dylid ysgrifennu'r traethawd ymchwil yn Gymraeg neu yn Saesneg. Caniateir defnyddio dyfyniadau byr mewn ieithoedd eraill.

Rhaid i hyd traethawd ymchwil fod yn briodol ar gyfer y maes pwnc ond nid yw'n cynnwys y crynodeb, cydnabyddiaethau, tabl cynnwys, data mewn tablau, diagramau, troednodiadau neu ôl-nodiadau hanfodol, cyfeiriadau, nodiadau ar drawslythrennu, unrhyw atodiadau a'r llyfryddiaeth. Nodir manylion nifer geiriau traethawd ymchwil ar gyfer pob gradd uchod. Os cynhwysir atodiadau, pan fo'n briodol gellir eu cyflwyno ar ffurf cyfrol ar wahân i'r traethawd ymchwil.

Nid oes manylion wedi'u pennu ar gyfer fformat mewnol (strwythur) y traethawd ymchwil, ond dylid trafod y strwythur gyda'r tîm goruchwylio a defnyddio'r strwythur mwyaf priodol i'r maes pwnc. Bydd yr arholwyr yn disgwyl i ddiwyg y traethawd fod yn raenus gyda threfn gyson o ran mynegeio a chyfeirnodi gydol y gwaith.

Fel awdur yr holl waith a gyflwynir i'w asesu, y myfyriwr sydd â'r hawlfraint arno. Rhaid i'r myfyriwr roi'r hawl i'r Brifysgol gyhoeddi'r traethawd ymchwil, crynodeb neu restr o weithiau, a/neu awdurdodi ei gyhoeddi at unrhyw ddiben ysgolheigaidd gyda chydnabyddiaeth briodol o ran awduraeth. Myfyrwyr biau'r hawlfraint ar eu traethawd ymchwil a'r hawliau i'w gyhoeddi a'i ddosbarthu, oni bai eu bod wedi gwneud trefniadau i drosglwyddo hawlfraint i drydydd parti (e.e. noddwr). Trwy adneuo'r traethawd ymchwil yn y llyfrgell neu Storfa'r Brifysgol, ni fydd myfyrwyr yn trosglwyddo hawlfraint: maent yn caniatáu i Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant storio copi o'u gwaith, ond maent yn parhau'n rhydd i gyhoeddi'r traethawd ymchwil yn rhywle arall.

Pan ychwanegir y traethawd ymchwil at yr e-storfa, ystyrir ei fod 'wedi'i gyhoeddi' dan gyfraith hawlfraint. Cyfrifoldeb yr awdur yw sicrhau nad oes cyfyngiadau hawlfraint a / neu fod pob caniatâd wedi'i roi. Os ydy'r traethawd ymchwil yn cynnwys deunydd wedi'i ddiogelu gan hawlfraint ac nid yw'n bosibl i'r awdur gael caniatâd ar gyfer yr e-gopi a adneuir / copi llyfrgell, cysylltwch â copyright@pcydds.ac.uk am gyngor ac i drafod opsiynau.

## Fformatio safonol traethawd ymchwil:

- Rhaid cyflwyno pob copi o draethawd ymchwil, boed at ddibenion arholi neu ei adneuo mewn llyfrgell, mewn fformat digidol ar fformat Adobe PDF (gweler adran 4 isod).
- Rhaid i'r llythrennau a ddefnyddir yn y prif destun (ond nid o reidrwydd yn y darluniau, mapiau ac ati) beidio â bod yn llai na 12pt; rhaid i lythrennau a ddefnyddir ym mhob testun arall, nodiadau, troednodiadau ac yn y blaen, beidio â bod yn llai na 10pt. Rhaid i'r teipio fod o ansawdd cyson gyda llythrennau du clir, fel y gellir atgynhyrchu'r gwaith yn ffotograffig.
- Dylai'r testun fod mewn un golofn ac wedi'i alinio i'r chwith neu wedi'i unioni'n llawn.
- Rhaid defnyddio bylchiad dwbl neu un a hanner yn y prif destun a bylchiad sengl yn y crynodeb ac mewn unrhyw ddyfyniadau sydd wedi'u mewnoli a throednodiadau.
- Dylid rhifo'r tudalennau'n olynol drwy gydol y traethawd ymchwil o ddechrau prif gorff y traethawd, gan gynnwys pob tudalen pa un a yw'n cynnwys testun neu beidio. Ar gyfer traethodau ymchwil sy'n cwmpasu sawl cyfrol, dylid defnyddio un dilyniant rhifo tudalennau. Dylai rhifau tudalennau fod yn rhifolion Arabaidd (1, 2, 3, 4, ac ati) ac wedi'u lleoli'n ganolog ar waelod y dudalen. Dylai'r tudalennau rhagarweiniol (i i vi ym mharagraff 1.9 isod) fod wedi'u rhifo gan ddefnyddio rhifolion Rhufeinig bach (i, ii, iii, iv, ac ati).
- Rhaid darparu rhestr gynnwys a thabl darluniau (os oes rhai).
- Rhaid i ddarluniau a brasluniau fod mewn inc du; rhaid hepgor unrhyw fanylion dianghenraid a rhaid defnyddio graddfa sy'n sicrhau nad yw'r bwlch lleiaf rhwng y llinellau yn llai nag 1mm. Gellir defnyddio graffigwaith lliw ar gyfer siartiau, diagramau ac ati yn ogystal â ffotograffau lliw. Gellir cynnwys delweddau wedi'u sganio yn y copi electronig.
- Gall teitl llawn y traethawd ymchwil fod yn ddim mwy na 94 nod (yn cynnwys bylchau neu symbolau) a rhaid ei roi ar yr ffurflen Hysbysu am Ymgeisyddiaeth.

**Ni ddylai lled yr ymylon fod yn llai na'r meintiau canlynol:**

- Ymyl mewnol: 40mm
- Ymyl uchaf ac allanol: 15mm
- Ymyl gwaelod: 20mm
- Os defnyddir dwy ochr y papur, dylid defnyddio ymylon adlewyrchiad (fel bod yr ymyl mewnol ar y dde a'r chwith am yn ail).

**Rhaid i'r traethawd ymchwil *(heb gynnwys PhD trwy Weithiau Cyhoeddedig)* gynnwys yn y ffeil PDF:**

1. Wynebddalen (gweler y geiriad isod)
2. Y dudalen ddatganiadau wedi'i llofnodi gan yr ymgeisydd (gweler diwedd yr atodiad hwn am enghraifft), a) sy'n dangos i ba raddau y mae'r gwaith a gyflwynwyd yn ganlyniad i ymchwiliad personol yr ymgeisydd; b) sy'n tystio nad yw'r gwaith wedi'i dderbyn eisoes yn ei sylwedd ar gyfer unrhyw radd ac nad yw'n cael ei gyflwyno ar yr un pryd mewn ymgeisyddiaeth ar gyfer unrhyw radd; c) ynghylch argaeledd y traethawd ymchwil (gweler paragraff 1.13 isod).
3. Crynodeb nad yw'n hwy na 300 o eiriau i'w roi ar flaen y traethawd ymchwil
4. Tabl Cynnwys
5. Byrfoddau / Cyfieithiadau (lle bo'n berthnasol)
6. Tabl darluniau (lle bo'n berthnasol)
7. Prif gorff y traethawd ymchwil
8. Llyfryddiaeth (yn ddibynnol ar natur y ddisgyblaeth)
9. Atodiadau (lle bo'n berthnasol)

**Rhaid i draethawd ymchwil *a gyflwynir ar gyfer PhD trwy Weithiau Cyhoeddedig* gynnwys yn y ffeil PDF:**

- Adran 1: Cyflwyniad o'r gwaith cyhoeddedig
    1. Rhestr gryno o'r holl weithiau cyhoeddedig, gyda datganiad ar ôl pob un ynghylch maint gwaith y myfyriwr i unrhyw weithiau aml-awdur (gyda dolen at Atodiad 1, ac Atodiad 2)
    2. Tystiolaeth o statws yr holl weithiau cyhoeddedig a gyflwynwyd, gan gynnwys crynodeb o gyfraniadau academaidd (dyfyniadau) a chymhwysol
- Adran 2: Dadansoddi Adfyfyriol
    1. Adrannau sy'n debygol o gynnwys cyflwyniad, dull methodolegol, cyd-destunoli, cyfuno, cyfraniad a chasgliadau
- Atodiad 1 – Datganiadau eglurhaol gan yr holl gyd-awduron o gyfraniad myfyriwr.
- Atodiad 2 – Pob un o'r papurau cynwysedig, mewn fformat fel y'u cyhoeddwyd

**Ar ei wynebddalen rhaid i'r traethawd ymchwil gynnwys:**

1. Y teitl;
2. Enw llawn a chymwysterau'r awdur (dewisol);
3. Goruchwyliwyd gan: [enwau holl aelodau'r tîm goruchwylio];
4. Cyflwynwyd i gyflawni'n rhannol ddyfarniad gradd [y radd y'i cynigir amdani];
5. Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant;
6. Blwyddyn.

Sylwer: yn achos myfyrwyr sy'n astudio mewn **sefydliad partner cydweithredol**, rhaid i'r wynebddalen gynnwys:

1. Y teitl;
2. Enw llawn a chymwysterau'r awdur (dewisol);
3. Goruchwyliwyd gan: [enwau holl aelodau'r tîm goruchwylio];
4. Cyflawnwyd yr ymchwil hwn dan nawdd [enw'r sefydliad partner cydweithredol];
5. Cyflwynwyd i gyflawni'n rhannol ddyfarniad gradd [y radd y'i cynigir amdani];
6. Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant;
7. Blwyddyn.

Sylwer: i fyfyrwyr sy'n astudio yn y Brifysgol, ond sydd wedi **cofrestru ar gyfer dyfarniadau Prifysgol Cymru**, rhaid i'r wynebddalen gynnwys:

1. Y teitl;
2. Enw llawn a chymwysterau'r awdur (dewisol);
3. Goruchwyliwyd gan: [enwau holl aelodau'r tîm goruchwylio];
4. Cyflawnwyd yr ymchwil hwn dan nawdd Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant;
5. Cyflwynwyd i gyflawni'n rhannol ddyfarniad gradd [y radd y'i cynigir amdani];
6. Prifysgol Cymru;
7. Blwyddyn.

Enghraifft 1 – Wynebddalen ar gyfer ymchwil a wnaed ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant:

| |
|---|
| Teitl<br><br>Enw (gyda chymwysterau) Goruchwyliwyd gan: AAAAA, BBBB, CCCC<br><br>Cyflwynwyd i gyflawni'n rhannol ddyfarniad gradd XXXX Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant<br><br>2019 |

Enghraifft 2 – Wynebddalen ar gyfer ymchwil a wnaed mewn sefydliad partner cydweithredol:

> Teitl
>
> Enw (gyda chymwysterau)
>
> Goruchwyliwyd gan:
>
> AAAAA, BBBB, CCCC
>
> Cynhaliwyd yr ymchwil hwn dan nawdd [*enw'r SEFYDLIAD PARTNER*
>
> *CYDWEITHREDOL*] Cyflwynwyd i gyflawni'n rhannol ddyfarniad gradd XXX
>
> Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Enghraifft 3 – Wynebddalen ar gyfer ymchwil a wnaed ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ond a ddyfernir gan Brifysgol Cymru

> Teitl
>
> Enw (gyda chymwysterau)
>
> Goruchwyliwyd gan: AAAAA,
>
> BBBB, CCCC
>
> Gwnaed yr ymchwil hwn dan nawdd Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi
>
> Sant Cyflwynwyd i gyflawni'n rhannol ddyfarniad gradd XXX
>
> Prifysgol Cymru

Gall myfyrwyr gyflwyno deunydd ychwanegol nad yw wedi'i gynnwys yn y PDF os mai'r deunydd hwn yw'r dull mwyaf priodol o gyflwyno'r wybodaeth dan sylw. Gallai'r deunydd hwn gynnwys diagramau, mapiau a dogfennau tebyg, neu ddeunydd arall megis recordiadau sain neu fideo, sleidiau, ffilmiau ac ati. Mae rhestr o eitemau ar wahân o'r fath i'w darparu yn y traethawd ymchwil. Dylid cynnwys copïau electronig o'r deunydd ychwanegol hwn ochr yn ochr â'r copi electronig o'r traethawd ymchwil.

Fel arfer, bydd traethawd ymchwil a gyflwynir ar gyfer gradd ymchwil ar gael yn agored ac ni fydd yn destun unrhyw fesurau diogelwch na chyfyngiad mynediad. Ni ellir cyfyngu ar fynediad i'r cyflwyniad ar gyfer gradd PhD trwy Weithiau Cyhoeddedig.

Wrth gyflwyno'r traethawd ymchwil, mae gofyn i fyfyriwr lofnodi datganiad sy'n nodi'r canlynol (mae pob datganiad ar gael fel ffurflen ar wahân):

**Datganiad 1**

1. y gellir trefnu bod y traethawd ymchwil, os bydd yn llwyddiannus, ar gael ar gyfer benthyciad rhyng-lyfrgell (yn amodol ar gyfraith hawlfraint), ac y gall y teitl a'r crynodeb fod ar gael i sefydliadau allanol;
2. y bydd y Brifysgol yn storio'n electronig, copïo neu gyfieithu'r traethawd ymchwil i unrhyw gyfrwng neu fformat cymeradwy at ddiben cadw a hygyrchedd yn y dyfodol. Y bydd y traethawd ymchwil a adneuir yn y storfa ddigidol yn hygyrch i amrywiaeth eang o bobl a sefydliadau, gan gynnwys asiantau awtomataidd a pheiriannau chwilio. Unwaith y bydd y traethawd ymchwil wedi'i adnau, gellir ymgorffori'r eitem a'i metadata mewn catalogau neu wasanaethau mynediad cyhoeddus, megis cronfeydd data cenedlaethol o draethodau ymchwil electronig.

Neu **Ddatganiad 2**

1. y gellir trefnu bod y traethawd ymchwil, os yw'n llwyddiannus, ar gael ar ôl i waharddiad ddod i ben ar lungopïo a/neu fynediad.

A

**Datganiad 3**

**Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial (AI) Cynhyrchiol**
Yn unol â chanllawiau PCYDDS, mae AI Cynhyrchiol wedi'i ddefnyddio yn y traethawd ymchwil hwn at y dibenion canlynol:

| | **Ticiwch √** | DO | NADDO |
|---|---|---|---|
| YMCHWIL | Defnyddiais AI Cynhyrchiol i gefnogi fy ymchwil, yn cynnwys chwilio am lyfryddiaeth, defnyddio offer i grynhoi, cymharu deunyddiau a'u dadansoddi. | ☐ | ☐ |
| STRWYTHUR | Defnyddiais AI Cynhyrchiol i gefnogi strwythuro fy nhraethawd ymchwil, yn cynnwys llunio strwythur dadl drafft, dynodi adrannau a phenawdau ac ati. | ☐ | ☐ |
| PRAWF DDARLLEN | Defnyddiais AI Cynhyrchiol i wirio fy nhestun/creadigaeth fy hun am wallau gramadegol a chystrawennol, yn cynnwys cyfieithu ac aralleirio fy ngwaith fy hun o fewn safonau penodol. | ☐ | ☐ |
| YSGRIFENNU | Defnyddiais AI Cynhyrchiol i greu testun i'w gyflwyno. 0} | ☐ | ☐ |
| CREADIGOL | Defnyddiais AI Cynhyrchiol i greu deunyddiau creadigol, megis delweddau. | ☐ | ☐ |
| RHAGLENNU | Defnyddiais AI Cynhyrchiol i greu a gwirio cod. | ☐ | ☐ |
| DIM | Ni wnes ddefnyddio unrhyw fath o gymorth AI Cynhyrchiol. Mae hyn yn cynnwys cymorth ymchwil, cymorth strwythur, cymorth ysgrifennu / prawf ddarllen a chymorth creadigol. | ☐ | ☐ |

Fel arfer mae teitl a chrynodeb y traethawd ymchwil ar gael yn rhydd. Mewn perthynas â storio traethodau ymchwil yn electronig, ym maes Ysgrifennu Creadigol dim ond y crynodeb fyddai'n cael ei storio mewn casgliad E-argraffiadau (e-gadwrfa) ar wahân, a byddai'r traethodau ymchwil hyn yn cael eu mynegeio'n electronig ar ffurf crynodebau yn unig.

## Rhwymo'r Traethawd Ymchwil

Bellach nid yw'r Brifysgol yn mynnu bod copïau rhwymedig ar gael. Dim ond copïau electronig y dylid eu cyflwyno i'w harholi. Os nad yw hyn yn bosibl, oherwydd natur y traethawd ymchwil, cysylltwch â pgresearch@pcydds.ac.uk.

## Beth i'w gyflwyno

Cyn y dyddiad cyflwyno terfynol mae'n rhaid i fyfyriwr gyflwyno'r canlynol i Swyddfa'r Coleg Doethurol:

1. un copi electronig o'r traethawd ymchwil ar fformat PDF;
2. un copi o'r crynodeb

# Cyflwyno Traethawd Ymchwil

Mae traethawd ymchwil yn cyflwyno canlyniadau ymchwil myfyriwr, gan ddisgrifio'r ymchwil a chyfeirio at waith perthnasol yn y maes. Bydd yn cynnwys disgrifiad o'r dulliau ymchwil a ystyriwyd, a'r rhai a ddefnyddiwyd mewn gwirionedd, ac yn cyflwyno casgliadau'r myfyriwr. Mae'n hanfodol fod unrhyw ddefnydd o waith awdur arall yn cael ei gydnabod yn briodol. Gwaith y myfyriwr ei hun yw'r traethawd ymchwil a rhaid iddo gael ei ysgrifennu gan y myfyriwr.

Mae'n hanfodol fod y myfyriwr yn trafod y cynllun cyffredinol a'r arferion cyfeirnodi gyda'r tîm goruchwylio i sicrhau bod gofynion neu reolau pwnc neu ddisgyblaeth benodol yn cael eu dilyn o'r cychwyn cyntaf. Disgwylir i'r tîm goruchwylio ddarparu beirniadaeth adeiladol ac adborth ar y traethawd ymchwil yn ystod ymgeisyddiaeth. Fodd bynnag, ni ddylid gofyn i oruchwylwyr ddarparu hyfforddiant yn y Saesneg na phrawf ddarllen.

Dylid cwblhau'r ffurflen Bwriad i Gyflwyno a'i chyflwyno i Swyddfa'r Coleg Doethurol ddim llai na 3 mis cyn y dyddiad cyflwyno disgwyliedig. Pan gyflwynir y ffurflen Bwriad i Gyflwyno, bydd Swyddfa'r Coleg Doethurol a'r tîm goruchwylio'n cychwyn trefniadau i benodi Bwrdd Arholi.

Ar ôl cwblhau'r cyfnod astudio arferol a chyn y dyddiad cyflwyno terfynol, rhaid i fyfyriwr gyflwyno copi electronig o'r traethawd ymchwil ac unrhyw ddeunydd ychwanegol i Swyddfa'r Coleg Doethurol.

Ni chaiff myfyriwr ddiwygio, ychwanegu na dileu o'r traethawd ymchwil wedi iddo gael ei gyflwyno a chyn iddo gael ei arholi, ac eithrio gyda chydsyniad Cadeirydd y Bwrdd Arholi. Os gwêl myfyriwr fod deunydd ar goll o'r copïau o'r traethawd ymchwil a anfonwyd at yr arholwyr, Cadeirydd y Bwrdd Arholi fydd yn penderfynu a ddylid caniatáu anfon y deunydd sydd ar goll at yr arholwyr. Gall myfyriwr dynnu'r traethawd ymchwil yn ôl ar ôl iddo gael ei gyflwyno a chyn yr arholiad, ond unwaith y tynnir traethawd yn ôl ni ellir ei gyflwyno eto am yr un radd.

Ar ôl derbyn y cyflwyniad electronig, cyflwynir y traethawd ymchwil i Turnitin a chaiff yr adroddiad ei drosglwyddo ar gais i'r arholwyr. Bydd y traethawd ymchwil yn cael ei anfon ymlaen at yr arholwyr cyn gynted ag y bo modd. Os bydd arholiad llafar, gellir disgwyl hyn ymhen 12 wythnos ar ôl i'r arholwyr dderbyn y traethawd ymchwil.

## Nodyn ynghylch cyflwyno'n gynnar

Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd myfyriwr yn dymuno cyflwyno'i draethawd ymchwil cyn diwedd y cyfnod astudio arferol. Bydd yn ofynnol o hyd i'r myfyriwr dalu'r ffioedd llawn am y cyfnod astudio arferol hyd yn oed os cyflwynir y traethawd ymchwil cyn diwedd y cyfnod hwn. Os yw myfyriwr yn ystyried cyflwyno traethawd ymchwil yn gynnar, rhaid i'r myfyriwr drafod y mater gyda'r tîm goruchwylio oherwydd gallai cyflwyno'n gynnar effeithio ar ansawdd academaidd y gwaith. Yn ogystal, mae'r tîm goruchwylio'n gyfrifol am enwebu'r Bwrdd Arholi a bydd angen amser rhesymol arnynt i enwebu a chymeradwyo'r Bwrdd.

Os bydd myfyriwr yn penderfynu cyflwyno'n gynnar, ar ôl ymgynghori â'r tîm goruchwylio, rhaid i'r myfyriwr gwblhau a dychwelyd y ffurflen Bwriad i Gyflwyno. Bydd Swyddfa'r Coleg Doethurol hefyd yn ceisio cadarnhad ysgrifenedig gan y Cyfarwyddwr Astudiaethau fod y tîm goruchwylio'n ymwybodol o fwriad y myfyriwr i gyflwyno'n gynnar. Os nad yw'r tîm goruchwylio'n cytuno â bwriad y myfyriwr i gyflwyno'n gynnar, bydd Swyddfa'r Coleg Doethurol yn ysgrifennu at y myfyriwr yn ffurfiol, gan amlinellu canlyniadau posibl gweithred o'r fath.

Dylai myfyriwr rhyngwladol sydd â fisa llwybr myfyriwr fod yn ymwybodol y gallai cyflwyno traethawd ymchwil yn gynnar effeithio ar hyd y fisa myfyrwyr a dylai ymgynghori â'r Gofrestrfa Ryngwladol cyn gwneud unrhyw benderfyniad ynghylch cyflwyno'n gynnar.

## Nodyn ar y dyddiad cyflwyno terfynol

Os nad yw myfyriwr wedi cyflwyno erbyn y dyddiad cyflwyno terfynol bydd Swyddfa'r Coleg Doethurol yn gwneud tair ymgais i gysylltu â'r myfyriwr ynghylch y cyflwyniad (ac a oes angen estyniad). Ar ôl tair ymgais aflwyddiannus i gyfathrebu, caiff y myfyriwr ei dynnu'n ôl yn awtomatig.

## Mynediad i'r Traethawd Ymchwil

Y drefn ragosodedig ar gyfer unrhyw draethawd gradd ymchwil yw y bydd ar gael yn agored ac ni fydd yn destun unrhyw fesurau diogelwch na chyfyngiad mynediad. Fodd bynnag, cydnabyddir y gall canlyniadau'r ymchwil weithiau fod yn fasnachol werthfawr neu'n sensitif mewn ffyrdd eraill (er enghraifft o ran y defnydd o ddeunydd a gyfyngir gan gytundebau neu gontractau eraill). I ddiogelu'r cyfrinachedd hwn, mae'r Brifysgol yn caniatáu gwaharddiad ar lungopïo traethawd ymchwil a / neu fynediad iddo am gyfnod penodedig o hyd at 5 mlynedd. Fel arfer dylai unrhyw gais am waharddiad ar lungopïo traethawd ymchwil a / neu fynediad iddo gael ei wneud yn rhan o'r ffurflen Bwriad i Gyflwyno, ond gellir ei wneud yn gynharach na hynny. Ni fydd cais am waharddiad ar lungopïo a/neu fynediad i draethawd ymchwil a dderbynnir ar ôl i'r traethawd gael ei gyflwyno yn cael ei ystyried.

## Sylwadau'r Goruchwyliwr ar ôl cyflwyno

Gall goruchwylwyr roi sylwadau i Swyddfa'r Coleg Doethurol os bydd ganddynt bryderon am draethawd ymchwil a gyflwynwyd. Dylai Swyddfa'r Coleg Doethurol rannu'r rhain â Chadeirydd y Bwrdd Arholi. Dim ond ar ôl iddynt gwblhau eu trafodaethau y caiff y Cadeirydd rannu'r rhain ag arholwyr.

# ARHOLI GRADDAU YMCHWIL (CANLLAWIAU I ORUCHWYLWYR AC ARHOLWYR)

### Cyflwyniad a Chwmpas

Mae'r polisi canlynol yn ymwneud ag arholi graddau ymchwil ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ac yn berthnasol i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig amser llawn a rhan-amser sy'n astudio'r graddau canlynol:

- PhD ,
- MPhil ,
- MA trwy Ymchwil / MSc trwy Ymchwil,
- Doethuriaethau Proffesiynol (DBA, DProf, EdD),
- MRes,
- PhD trwy Weithiau Cyhoeddedig,

Bwriedir i'r polisi hwn gael ei ddefnyddio gan arholwyr, staff academaidd a gweinyddol, a myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig y graddau a restrir uchod.

Dim ond o dan yr amgylchiadau mwyaf eithriadol yr ystyrir unrhyw wyro oddi wrth y polisi hwn, a rhaid cytuno arno'n ysgrifenedig â'r ymgeisydd cyn i'r arholiad gael ei gynnal. Dylai unrhyw ymholiadau gael eu cyfeirio yn y lle cyntaf at Swyddfa'r Coleg Doethurol (pgresearch@pcydds.ac.uk).

Dylid cyfeirio at y ddogfen hon ynghyd â'r rheoliadau gradd perthnasol (Llawlyfr Ansawdd Academaidd Pennod 8) a pholisïau eraill sy'n ffurfio'r Cod Ymarfer ar gyfer Graddau Ymchwil Israddedig, y mae'r polisi hwn yn un adran ohono.

## Hysbysiad Cyflwyno

Rhaid i ymgeiswyr lenwi *Ffurflen Bwriad i Gyflwyno*, sydd ar gael yn electronig yn Swyddfa'r Coleg Doethurol, a chyflwyno crynodeb 3 mis cyn y dyddiad cyflwyno disgwyliedig CYNTAF neu fis cyn ailgyflwyno, er mwyn gallu gwneud paratoadau ar gyfer yr arholiad llafar. Dim ond ar ôl i fwrdd arholi gael ei gymeradwyo gan y PGY y gall arholi'r traethawd ymchwil ddechrau, a chwblhau'r holl archwiliadau angenrheidiol (gan gynnwys y rhai sy'n ofynnol gan CThEM neu'r UKVI).

Ar ôl cwblhau'r *Ffurflen Bwriad i Gyflwyno* a chyflwyno'r crynodeb, bydd goruchwyliwr yr ymgeisydd yn sicrhau bod arholwyr yn cael eu henwebu trwy'r Ffurflen Enwebu Bwrdd Arholi.

Pan fydd yr ymgeisydd yn teimlo bod y traethawd ymchwil yn agosáu at safon sy'n addas i'w chyflwyno, dylai gysylltu â'i oruchwyliwr(wyr) i ofyn am gyngor ynghylch pryd i roi hysbysiad. Diben barn y goruchwylwyr yw rhoi cyngor yn unig a chaiff yr ymgeisydd benderfynu pryd i gyflwyno ac a ddylid dilyn cyngor y goruchwyliwr. Yn yr un modd, nid yw'r ffaith fod goruchwyliwr(wyr) yn cytuno y gellir cyflwyno traethawd ymchwil yn gwarantu y caiff y radd ei dyfarnu.

Os bydd y goruchwyliwr yn cynghori ymgeisydd yn erbyn cyflwyno'r traethawd ymchwil, argymhellir bod y goruchwyliwr yn nodi'i bryderon wrth Swyddfa'r Coleg Doethurol ynghyd â'i resymau am gynghori yn erbyn cyflwyno.

Ar ôl derbyn y cyflwyniad electronig, cyflwynir y traethawd ymchwil i Turnitin a chaiff yr adroddiad ei drosglwyddo i'r arholwyr.

# Amserlen a Threfniadau Arholi

Bydd traethawd ymchwil sydd wedi'i gyflwyno'n cael ei anfon ymlaen at arholwyr penodedig cyn gynted â'i bod yn rhesymol bosibl. Os oes angen arholiad llafar, dylid ei gynnal fel arfer o fewn 12 wythnos waith wedi i'r arholwyr dderbyn y traethawd ymchwil. Bydd y Brifysgol yn ddiofyn yn anfon copïau electronig o draethodau ymchwil at arholwyr. Darperir (neu trefnir) copi caled ar gais.

## MA trwy Ymchwil / MSc trwy Ymchwil a MRes

Wedi i'r traethawd ymchwil gael ei anfon ymlaen at yr arholwyr, bydd Cadeirydd y Bwrdd Arholi'n gyfrifol am sicrhau bod yr adroddiadau annibynnol yn cael eu derbyn o fewn amserlen resymol (fel arfer dim mwy na 6 wythnos waith wedi i'r arholwyr dderbyn y traethawd ymchwil). Os penderfynir fod angen arholiad llafar, yna dylid dilyn y gweithdrefnau a'r amserlenni sydd wedi'u nodi isod.

Os oes angen arholiad llafar, dylid ei gynnal fel arfer o fewn 6 wythnos waith wedi'r dyddiad y cadarnhaodd y PGY fod angen arholiad llafar.

Os nad oes angen arholiad llafar, nid oes angen adroddiad ar y cyd, ond os bydd y naill arholwr neu'r llall yn gofyn am gywiriadau a newidiadau, rhaid i'r arholwr hwnnw ddarparu cyfarwyddiadau llawn am y cywiriadau a'r newidiadau sy'n ofynnol a rhaid i'r Cadeirydd nodi argymhelliad cyffredinol y Bwrdd Arholi.

## MPhil, PhD, PhD trwy Weithiau Cyhoeddedig, a Doethuriaeth Broffesiynol

Wedi i'r traethawd ymchwil gael ei anfon ymlaen at yr arholwyr, mae Cadeirydd y Bwrdd Arholi'n gyfrifol am bennu dyddiad ar gyfer yr arholiad llafar sy'n dderbyniol i bob un o'r arholwyr. Dylid ei gynnal, fel arfer, o fewn 12 wythnos waith wedi i'r arholwyr dderbyn y traethawd ymchwil.

Rhaid i bob arholwr gyflwyno adroddiad annibynnol cyn yr arholiad llafar i'r Cadeirydd o leiaf wythnos cyn dyddiad yr arholiad llafar. Rhaid cyflwyno'r adroddiad gorffenedig ar ôl yr arholiad i Swyddfa'r Coleg Doethurol o fewn uchafswm o 2 wythnos ar ôl dyddiad yr arholiad llafar. Ystyrir bod methu â chyflwyno'r adroddiadau gofynnol o fewn y cyfnodau amser hyn yn gyfystyr â thorri contract yr arholwr.

Ar ôl cytuno ar ddyddiad, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau'r dyddiad a'r lleoliad gyda'r arholwyr, y myfyriwr, a'r tîm goruchwylio (dylid rhoi o leiaf 2 wythnos o rybudd i bawb o ddyddiad yr arholiad llafar). Dan amgylchiadau eithriadol (a phan ddarperir tystiolaeth annibynnol berthnasol), gall myfyriwr wneud cais i ohirio'r arholiad llafar. Os na fydd rhywun ar gael oherwydd amgylchiadau eithriadol, dylid gohirio'r arholiad llafar. Nid oes modd gohirio'r arholiad llafar am gyfnod hwy na 12 mis ar ôl dyddiad cyflwyno'r traethawd.

Gall myfyriwr wahodd hyd at ddau aelod o'r tîm goruchwylio (gan gynnwys cyn aelodau'r tîm) i fod yn bresennol yn ystod yr arholiad llafar. Bydd unrhyw aelod o'r tîm goruchwylio'n bresennol fel sylwedydd tawel ac ni chaiff gymryd rhan yn y broses arholi. Tua diwedd yr arholiad llafar mae'n bosibl y gofynnir i unrhyw aelodau o'r tîm goruchwylio adael er mwyn rhoi cyfle i'r myfyriwr drafod ei oruchwyliaeth yn gyfrinachol, os dymuna hynny. Os bydd aelod o'r tîm goruchwylio'n mynegi awydd i fynychu'r arholiad llafar, ond nid yw'r myfyriwr wedi gwneud cais uniongyrchol am hyn, rhaid gofyn i'r myfyriwr, yn gyfrinachol, a yw'n cytuno y gall yr aelod hwnnw o'r tîm goruchwylio fod yn bresennol.

Os bydd myfyriwr yn methu â mynychu arholiad llafar heb roi gwybod ymlaen llaw, bernir bod y myfyriwr wedi methu, a dylai'r Bwrdd Arholi ddychwelyd argymhelliad na ddylid cymeradwyo'r myfyriwr am y dyfarniad gradd.

Ni chaniateir i'r arholwyr gyfathrebu â'i gilydd cyn cyflwyno'u hadroddiadau annibynnol i Swyddfa'r Coleg Doethurol. Ni chaniateir i fyfyrwyr gyfathrebu â'r arholwyr ynglŷn â'r traethawd ymchwil, cyn neu yn dilyn yr arholiad llafar, nes i'r broses arholi gael ei chwblhau (gan gynnwys unrhyw gyfnod ar gyfer cywiriadau a newidiadau neu ailgyflwyno). Dylai'r holl gyfathrebu ddigwydd trwy'r Cadeirydd.

Bydd gan unrhyw aelod o dîm goruchwylio'r myfyriwr yr hawl i fynegi wrth Gadeirydd y Bwrdd Arholi unrhyw bryderon sy'n berthnasol i brosiect ymchwil y myfyriwr, y traethawd a ddeilliodd ohono neu'r broses o'i arholi, y barna'r aelod o'r tîm goruchwylio y dylai'r Bwrdd fod yn ymwybodol ohonynt cyn dod i benderfyniad. Dylai'r aelod o'r tîm goruchwylio fynegi'r pryderon hyn, yn ysgrifenedig, i'r Cadeirydd ac i'r myfyriwr cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cyflwyno'r traethawd ymchwil, i ganiatáu digon o amser i'r myfyriwr ystyried y pwyntiau a wnaed a pharatoi ymateb cyn i'r traethawd gael ei arholi (yn cynnwys unrhyw arholiad llafar).

## Lleoliad arholiadau llafar (vivas)

Mae'r Brifysgol yn caniatáu i arholiadau llafar ddigwydd naill ai wyneb yn wyneb ar un o'i champysau, trwy ddull electronig neu, mewn achosion eithriadol, mewn lleoliad arall. Mae'r ffurflen enwebu bwrdd arholi'n gofyn am wybodaeth ynghylch ble y cynhelir yr arholiad llafar a'r cyfiawnhad dros ddewis y lleoliad hwnnw.

Ar gyfer arholiadau llafar a gynhelir yn electronig, dylid dilyn y protocol ar gyfer cynnal arholiad llafar trwy ddulliau electronig.

## Aelodau'r Bwrdd Arholi

Fel arfer, bydd Bwrdd Arholi'n cynnwys yr unigolion canlynol:

- Cadeirydd;
- Arholwr Mewnol;
- Arholwr Allanol.

Os yw'r myfyriwr yn aelod o staff y Brifysgol neu sefydliad partner cydweithredol, neu lle mae'n profi'n amhosibl penodi arholwr mewnol (naill ai oddi mewn i'r Brifysgol, neu o sefydliad partner cydweithredol) neu lle gwneir achos arbennig i (neu gan) y PGY, bydd y Bwrdd Arholi'n cynnwys yr unigolion canlynol:

- Cadeirydd;
- Dau Arholwr Allanol.

Rhaid i enwebiadau ar gyfer cyfansoddiad y Bwrdd Arholi gael eu gwneud gan ddefnyddio'r Ffurflen Enwebu Bwrdd Arholi. Rhaid i unrhyw newidiadau i gyfansoddiad y Bwrdd Arholi gwreiddiol gael eu cymeradwyo gan y PGY.

Rhaid i newidiadau i arholwyr gael eu cymeradwyo gan y PGY, a rhaid gwneud newidiadau i'r bwrdd arholi ar y Ffurflen Gais i Newid y Bwrdd Arholi.

Er mwyn osgoi oedi diangen yn y broses arholi, dylid cyflwyno'r Ffurflen Enwebu Bwrdd Arholi i Swyddfa'r Coleg Doethurol ddim llai na 2 fis cyn y dyddiad y disgwylir i'r myfyriwr gyflwyno traethawd ymchwil.

Mae'r PGY yn gyfrifol am ystyried pob enwebiad ac am gymeradwyo pob Bwrdd Arholi.

## Cyfansoddiad Bwrdd Arholi

Rhaid i'r tîm arholi graddau ymchwil ddangos tystiolaeth briodol o'r canlynol er mwyn cael eu penodi i Fwrdd Arholi:

- cymwysterau academaidd a/neu broffesiynol perthnasol, o leiaf at lefel y cymhwyster sy'n cael ei arholi, a lle bo hynny'n briodol, brofiad helaeth fel ymarferydd;
- gwybodaeth a dealltwriaeth o bwyntiau cyfeirio y cytunwyd arnynt gan sector y DU ar gyfer cynnal safonau academaidd a sicrhau a gwella ansawdd;
- profiad arbenigol ac arbenigedd ym mhwnc yr ymchwil gyda thystiolaeth o ysgolheictod ac ymchwil uwch diweddar;
- cymhwysedd a phrofiad o arholi graddau ymchwil, ar lefel y rhaglen astudio. Os nad yw'r arholwr allanol arfaethedig wedi gweithredu fel arholwr allanol o'r blaen, rhaid cael tystiolaeth o brofiad ymhlith y

Bwrdd Arholi o weithredu fel arholwyr mewnol ac allanol ar raddau uwch;

- statws, hygrededd ac ehangder profiad digonol yn y ddisgyblaeth i allu ennyn parch cymheiriaid academaidd a phan fo'n briodol, cymheiriaid proffesiynol;
- gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o'r safonau a ddisgwylir gan fyfyrwyr er mwyn ennill y dyfarniad sydd i'w arholi;
- rhuglder yn y Saesneg, a phan gyflwynir traethawd ymchwil a'i asesu yn y Gymraeg, rhuglder yn y Gymraeg.

Yn ogystal, rhaid i bob arholwr fod yn barod i arholi'r traethawd ymchwil cyfan. Nid yw'n dderbyniol penodi rhywun yn arholwr nad yw'n barod i wneud dyfarniad ar y traethawd ymchwil cyfan, hyd yn oed os yw arbenigedd y person hwnnw'n fwy perthnasol i rai rhannau o'r gwaith nag eraill.

Bydd y PGY yn ystyried yn ofalus gyfansoddiad cyffredinol y Bwrdd Arholi. Dylai'r tîm arholi (arholwyr mewnol ac allanol yn gyfunol) ddangos gallu a phrofiad sylweddol o ran arholi ymgeiswyr graddau ymchwil ar lefel neu'n uwch na lefel y dyfarniad y maent wedi'u penodi i'w arholi (er enghraifft, maent wedi arholi o leiaf dri ymgeisydd am radd ymchwil, ac fel arfer dylai un ohonynt fod fel arholwr allanol). Yn ogystal dylai pob arholwr fod â phrofiad goruchwylio gydag o leiaf un arholwr wedi goruchwylio hyd at gwblhau, ar lefel neu'n uwch na lefel y dyfarniad maent wedi'u penodi i'w arholi. Ym mhob achos o'r fath, rhaid bod gan Gadeirydd y Bwrdd Arholi ddigon o statws a phrofiad a rhaid iddo fod yn gyfarwydd iawn â Rheoliadau Graddau Ymchwil y Brifysgol a dull y Brifysgol o ymdrin â graddau ymchwil.

Manyleb ychwanegol ar gyfer Cadeiryddion Byrddau Arholi:

- gwybodaeth a dealltwriaeth o bwyntiau cyfeirio a gytunwyd gan sector y DU ar gyfer cynnal safonau academaidd a sicrhau a gwella ansawdd;
- cymwysterau academaidd a/neu broffesiynol perthnasol, o leiaf at lefel y cymhwyster sy'n cael ei arholi, a, lle bo hynny'n briodol, brofiad helaeth fel ymarferydd;
- hyfedredd a phrofiad o arholi graddau ymchwil, ar lefel y rhaglen astudio, gyda mentora a hyfforddiant yn cael ei ddarparu i gadeiryddion amhrofiadol;
- gwybodaeth a dealltwriaeth drwyadl o'r safonau a ddisgwylir gan fyfyrwyr er mwyn ennill y dyfarniad sydd i'w arholi.

# Sicrhau Didueddrwydd Byrddau Arholi

Mae'r Brifysgol yn mynnu ei bod yn rhaid i arholwyr allu arfer barn ddiduedd ac mae gofyn, felly, iddynt beidio â chael unrhyw wrthdaro buddiannau posibl (naill ai'n broffesiynol neu'n bersonol) a allai beryglu gwrthrychedd.

Ar gyfer pob gradd ymchwil, heblaw'r rhaglenni astudio MRes, gellir penodi arholwr allanol i Fwrdd Arholi gradd ymchwil ddim mwy na thair gwaith mewn blwyddyn galendr. Ar gyfer rhaglen astudio MRes, gellir penodi arholwr allanol i Fwrdd Arholi ddim mwy na deg gwaith mewn blwyddyn galendr.

Er mwyn osgoi gwrthdaro buddiannau posibl ni chaiff unigolyn ei benodi'n arholwr allanol o dan yr amgylchiadau canlynol:

- os yw'r unigolyn yn aelod o gorff llywodraethu neu un o bwyllgorau'r Brifysgol neu un o'i phartneriaid cydweithredol, neu'n weithiwr cyfredol yn y Brifysgol neu un o'i sefydliadau partner cydweithredol;
- os oes gan yr unigolyn berthynas broffesiynol, gytundebol neu bersonol agos ag aelod o'r tîm goruchwylio neu gadeirydd arfaethedig y Bwrdd Arholi (mae perthynas agos yn un lle mae elfen o berthynas y tu hwnt i gyswllt ysbeidiol. Enghreifftiau o berthynas broffesiynol yw: cyd-ymchwiliwr ar brosiect o fewn y tair blynedd diwethaf, cyd-oruchwylio myfyriwr ymchwil o fewn y tair blynedd diwethaf, perthynas cynghorydd/myfyriwr graddedig - yn cynnwys cyn-oruchwyliwr gradd ymchwil lle daeth y goruchwylio hwnnw i ben lai na thair blynedd ynghynt. Enghraifft o berthynas gytundebol yw cydberchennog diddordeb busnes allanol. Enghreifftiau o berthynas bersonol yw: perthynas deuluol - trwy briodas neu waed, perthynas agos gyfredol neu flaenorol - yn cynnwys perthynas briodasol, rywiol, ramantaidd, emosiynol, boed yn berthynas heterorywiol neu o'r un rhyw, cyfeillgarwch/perthynas gymdeithasol agos,

gelyniaeth bersonol);
- os yw'r unigolyn ar hyn o bryd neu yn ddiweddar (o fewn y 5 mlynedd ddiwethaf) wedi chwarae rhan arwyddocaol mewn gweithgareddau ymchwil cydweithredol sylweddol gydag aelod o'r tîm goruchwylio neu gadeirydd arfaethedig y Bwrdd Arholi;
- os yw'r unigolyn yn gyn-aelod o staff neu'n gyn-fyfyriwr yn y Brifysgol neu (gyn-) sefydliad partner cydweithredol, oni bai bod cyfnod o 5 mlynedd wedi mynd heibio;
- os byddai'r penodiad yn creu trefniant cyfatebol;
- os yw'r unigolyn wedi ymddeol a ddim bellach yn weithgar o fewn y maes.
- Os oes gan aelod o'r tîm goruchwylio gontract cyflogaeth mewn sefydliad arall yn ogystal, yna ni ellir penodi arholwr allanol i'r Bwrdd Arholi ar gyfer yr ymgeisydd hwn o'r sefydliad hwnnw.
- Os yw ymchwilydd wedi chwarae rhan arwyddocaol yn cydweithio ar waith y myfyriwr neu'n ei gyd-awduro, neu y mae ei waith ei hun yn ffocws y prosiect ymchwil, gellir penodi'r ymchwilydd yn arholwr allanol mewn sefyllfaoedd eithriadol yn unig.

Er mwyn osgoi gwrthdaro buddiannau posibl ni chaiff unigolyn ei benodi'n arholwr mewnol o dan yr amgylchiadau canlynol:

- os yw unigolyn wedi chwarae rhan arwyddocaol yn cydweithio ar waith y myfyriwr neu'n ei gyd-awduro, neu y mae ei waith ei hun yn ffocws y prosiect ymchwil, gellir penodi'r unigolyn yn arholwr allanol mewn sefyllfaoedd eithriadol yn unig.
- ni ellir penodi aelod o staff yn arholwr mewnol os ydyw, ar unrhyw gam yn ystod yr ymgeisyddiaeth, wedi bod yn rhan o'r tîm goruchwylio.
- os oes newidiadau yn amgylchiadau arholwr, neu pan fydd amgylchiadau nad oeddent yn hysbys yn flaenorol yn dod yn hysbys, a allai arwain at wrthdaro buddiannau, dylid hysbysu'r Brifysgol cyn gynted â phosibl fel y gall y PGY wneud penderfyniad ar addasrwydd yr unigolyn i barhau'n arholwr allanol ar y Bwrdd Arholi.

Os oes gan arholwr mewnol berthynas rheolwr â'r Cyfarwyddwr Astudiaethau, rhaid bod yn ofalus i sicrhau annibyniaeth lwyr yr arholwr neu'r Cadeirydd;

Os bernir bod unigolyn yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cael ei benodi'n arholwr fel y nodir uchod, ond ni ellir ei benodi'n arholwr allanol am ei fod yn gyn-aelod o staff y Brifysgol neu (gyn-) sefydliad partner cydweithredol o fewn y 5 mlynedd ddiwethaf, gellir ystyried yr unigolyn hwnnw i'w benodi'n arholwr mewnol.

Er mwyn ei benodi'n arholwr mewnol, rhaid bod unigolyn wedi'i restru ar Gyfeiriadur Goruchwylwyr ac Arholwyr y Brifysgol yn arholwr mewnol cydnabyddedig.

# Mentora

Ar gyfer arholwyr newydd, rhaid i'r Athrofa sefydlu system fentora.

- Rhaid bod gan y mentor brofiad o arholi ar y lefel briodol.
- Dylai'r mentor gwrdd â chi o leiaf unwaith cyn yr arholiad llafar.
- Dylai'r mentor ddarllen trwy'r adroddiad cyn cyflwyno.
- Dylai'r mentor eich cynghori a'ch arwain trwy'r broses.
- Dylai'r mentor gynnal ôl-drafodaeth gyda chi yn dilyn y broses arholi.

Fodd bynnag, pan benodir aelod ychwanegol (nid aelod o'r bwrdd arholi) yn fentor, nid yw'r mentor yn rhan o'r bwrdd arholi ac felly ni ddylai gyfrannu i ganlyniad yr arholiad llafar!

# Dyletswyddau Aelodau'r Bwrdd Arholi

Prif ddibenion system arholwyr allanol y Brifysgol yw sicrhau bod:

- safon pob dyfarniad yn cael ei chynnal ar y lefel briodol;
- y prosesau ar gyfer asesu a phennu dyfarniadau yn gadarn ac yn cael eu cynnal yn deg.

Mae'n ofynnol i bob arholwr wneud y canlynol:

- Darllen ac archwilio'r traethawd ymchwil cyfan
- Cyflwyno adroddiad manwl cyn yr arholiad llafar
- Mynychu'r arholiad llafar (Oni bai y bernir nad yw'n angenrheidiol ar gyfer MRes, MA/MSc trwy Ymchwil)
- Cyflwyno adroddiad manwl yn dilyn yr arholiad llafar (Oni bai y bernir nad yw'n angenrheidiol ar gyfer MRes, MA/MSc trwy Ymchwil)
- Cyfrannu at y cyd-adroddiad terfynol

Rôl benodol yr arholwr mewnol

- Rhaid i'r arholwr mewnol benderfynu a yw gwaith ymchwil a gwybodaeth y myfyriwr yn cyrraedd y safon a ddisgwylid fel arfer gan fyfyriwr yn yr Athrofa sy'n cyflwyno am y radd honno.

Rôl benodol yr arholwr allanol

- Rhaid i'r arholwr allanol benderfynu a yw gwaith ymchwil a gwybodaeth y myfyriwr o safon y gellir ei chymharu â gwaith myfyrwyr sy'n cael eu harholi mewn sefydliadau eraill am yr un radd.

Rôl benodol Cadeirydd y Bwrdd Arholi

- Mae'r Cadeirydd yn bresennol i sicrhau bod y broses yn drylwyr, yn deg, yn ddibynadwy ac yn gyson â rheoliadau a gweithdrefnau'r Brifysgol. Pe byddai adolygiad o benderfyniad arholiad neu apêl, mae'n ofynnol i'r Cadeirydd ddarparu adroddiad ysgrifenedig ynglŷn â'r modd y cynhaliwyd yr arholiad, yn ôl yr angen.

# CANLLAWIAU AR GYFER CADEIRYDDION BYRDDAU ARHOLI GRADDAU YMCHWIL

## Cadeirydd Byrddau Arholi

Bydd y Cadeirydd, na fydd, o bosibl, yn aelod o'r tîm goruchwylio, yn aelod profiadol uwch ac addas o staff academaidd a gymeradwywyd i'r diben gan y Pwyllgor Graddau Ymchwil. Ni ddylai'r Cadeirydd gael unrhyw gysylltiad blaenorol â gwaith y myfyriwr ac ni ddylai fod ganddo unrhyw gyfrifoldeb rheoli dros y myfyriwr.

Os oes gan Gadeirydd y Bwrdd Arholi ychydig neu ddim profiad o weithredu'n Gadeirydd Bwrdd Arholi ar gyfer graddau ymchwil, rhaid rhoi mentora a hyfforddiant yn ei le. Mae cydbwysedd cyffredinol y Bwrdd Arholi yn bwysig yn hyn o beth.

Rhaid bod y Cadeirydd yn ddigon uchel ei statws bob amser a bod yn gyfarwydd iawn â Rheoliadau Graddau Ymchwil y Brifysgol a dull y Brifysgol o ymdrin â graddau ymchwil.

### Cyfrifoldeb y Cadeirydd

Cyfrifoldeb y Cadeirydd yw sicrhau bod yr arholiad yn cael ei gynnal mewn modd priodol, yn ôl y rheoliadau a'r gweithdrefnau sefydledig sydd ar waith.

Y cadeirydd sy'n gyfrifol am drefnu agweddau ymarferol yr arholiad; *e.e*. cytuno ar ddyddiad yr arholiad llafar, casglu'r rhag- adroddiadau oddi wrth yr arholwyr, trefnu archebu'r ystafell, anfon y dolenni priodol a chyflwyno'r ffurflenni gofynnol i Swyddfa'r Coleg Doethurol.

### Trefniadau ar gyfer yr arholiad llafar

- Ar ôl i'r traethawd ymchwil gael ei anfon ymlaen at yr arholwyr, Cadeirydd y Bwrdd Arholi sy'n gyfrifol am bennu dyddiad ar gyfer yr arholiad llafar sydd yn dderbyniol i'r holl arholwyr.

### Cyn yr arholiad llafar

- Mae angen i'r Cadeirydd sicrhau bod yr arholwyr yn anfon arfarniad ysgrifenedig annibynnol o'r traethawd ymchwil i Swyddfa'r Coleg Doethurol cyn yr arholiad llafar. Er nad yw arholwyr yn cael cyfathrebu'n uniongyrchol rhyngddynt eu hunain cyn i'w hadroddiadau annibynnol gael eu derbyn gan Swyddfa'r Coleg Doethurol, dylent godi unrhyw bryder am y traethawd ymchwil cyn cyflwyno'r adroddiadau annibynnol gyda'r Cadeirydd.
- Dylai'r Cadeirydd ddarllen y ddau adroddiad annibynnol a gwneud nodyn o unrhyw wahaniaethau rhwng yr adroddiadau. Dylai'r Cadeirydd hefyd fod yn effro i unrhyw broblemau difrifol y tynnwyd sylw atynt yn yr adroddiadau.
- Mae'n bosibl y bydd y Cadeirydd yn ystyried bod dull adrodd arholwr yn afresymol, yn annheg, heb fod yn unol â gofynion arholi graddau ymchwil, neu'n groes i reoliadau'r Brifysgol. Mewn achosion o'r fath argymhellir bod y Cadeirydd yn cyfeirio unrhyw bryderon at Gadeirydd y Pwyllgor Graddau Ymchwil yn ysgrifenedig. Yn yr un modd, os daw'r Cadeirydd yn ymwybodol o unrhyw wrthdaro buddiannau o ran cyfansoddiad y Bwrdd Arholi, mae angen i'r Cadeirydd gysylltu â Chadeirydd y Pwyllgor Graddau Ymchwil cyn gynted ag y bo modd.
- Dylai'r Cadeirydd sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o'r rheoliadau sy'n llywodraethu'r arholiad, fformat yr arholiad (yn enwedig mewn perthynas â rhaglenni sy'n seiliedig ar ymarfer), ac unrhyw drefniadau neu anghenion arbennig. Mae'r rhain yn cynnwys y protocol ar gyfer cynnal arholiadau llafar ar-lein.
- Os oes gan y Cadeirydd unrhyw gwestiynau neu os nad yw'n sicr o ran agwedd ar yr arholiad, dylai gysylltu â staff o Swyddfa'r Coleg Doethurol. Os bydd unrhyw drefniadau arbennig rhaid cynnal

ymgynghoriad o'r fath â Swyddfa'r Coleg Doethurol.

- Mae angen i'r cadeiryddion fod yn ymwybodol o'r rheoliadau a'r protocolau ar gyfer arholiadau sy'n seiliedig ar ymarfer mewn perthynas â chynnwys arteffactau nad ydynt yn rhai testunol a'r mynediad at yr arteffactau hynny cyn yr arholiad llafar fel bod arholwyr yn gallu adfyfyrio ar y rhain yn eu hadroddiadau annibynnol ar wahân.
- Yn ystod y blynyddoedd diwethaf bu newidiadau i reoliadau'r Drindod Dewi Sant sy'n ymdrin â chyfnodau amser ar gyfer canlyniadau penodol a gall y rhain bellach fod yn wahanol i'r cyfnod amser i fyfyrwyr sy'n cofrestru ar gyfer gwobr Prifysgol Cymru. Felly, defnyddir gwahanol ffurflenni arholiadau ar gyfer myfyrwyr PC a'r Drindod Dewi Sant. Mae'n hanfodol bod y Cadeirydd yn gwbl ymwybodol pa gorff dyfarnu graddau y mae'r myfyriwr wedi cofrestru arnynt fel bod y ffurflenni cywir yn cael eu defnyddio ac y rhoddir y cyngor cywir i'r arholwyr mewn perthynas â chanlyniadau a argymhellir.
- Os yw myfyriwr yn datgan gwrthdaro neu'n codi unrhyw faterion o ran cyfansoddiad neu brosesau'r panel rhaid i Gyfarwyddwr Academaidd y Coleg Doethurol a Chadeirydd y PGY gael gwybod drwy'r e-bost ar unwaith.

## Yr arholiad llafar

- Yn ystod cyfarfod rhagarweiniol o'r bwrdd arholi cyn yr arholiad llafar dylai'r Cadeirydd drafod strwythur yr holi gyda'r arholwyr, cadarnhau barn gychwynnol yr arholwyr a phenderfynu ar y prif bwyntiau i'w codi yn ystod yr arholiad. Mae angen i'r Cadeirydd sicrhau hefyd bod yr arholwyr yn gyfarwydd â rheoliadau arholi'r radd a'u bod yn ymwybodol bod y canlyniad yn argymhelliad i Bwyllgor Graddau Ymchwil Y Drindod Dewi Sant a, lle bo'n briodol, Bwrdd Dyfarniadau Prifysgol Cymru, ac nid yn ganlyniad ffurfiol.
- Cyfrifoldeb y Cadeirydd yw archebu'r ystafell (fel arfer am bedair awr neu fwy os oes angen) ac arlwyo (te/coffi/dŵr), a gwneud yn siŵr bod yr ystafell yn barod cyn yr arholiad.
- Yn achos partneriaethau cydweithredol, bydd archebion ystafelloedd yn cael eu gwneud gan staff gweinyddol lleol, ond mae cyfrifoldebau'r Cadeirydd yn parhau fel yr amlinellir yn y paragraff uchod. Os oes unrhyw broblemau neu anawsterau, rhaid i'r Cadeirydd gysylltu â'r swyddogion gweinyddol hynny.
- Ychydig cyn dechrau'r arholiad llafar, dylai'r Cadeirydd gwrdd â'r myfyriwr yn breifat i ofyn i'r myfyriwr a oes unrhyw ystyriaethau iechyd neu amgylchiadau personol eraill, na nodwyd yn flaenorol trwy'r tîm goruchwylio, a all effeithio ar berfformiad y myfyriwr yn yr arholiad llafar.
- Ar ddechrau'r arholiad, dylai'r Cadeirydd sicrhau bod y myfyriwr yn cael ei gyflwyno i'r arholwyr, bod y myfyriwr yn iawn i barhau, a bod yr awyrgylch yn weddol hamddenol fel nad yw'r digwyddiad yn brawychu'r myfyriwr. Dylai'r Cadeirydd egluro pwrpas yr arholiad llafar i'r arholwyr a'r myfyriwr. Dylai'r Cadeirydd sicrhau bod yr arholwyr a'r myfyriwr yn ymwybodol o reoliadau'r Brifysgol a chanllawiau sy'n ymdrin ag archwilio traethawd ymchwil. Dylai'r Cadeirydd egluro strwythur yr arholiad llafar ac egluro rolau'r arholwyr.
- Dylai'r Cadeirydd atgoffa'r myfyriwr ei fod/bod yn cael dod â chopi heb nodiadau o'u traethawd ymchwil i'r arholiad llafar ac unrhyw ddeunydd arall a gyflwynwyd gyda'r traethawd ymchwil a phapur gwag ac offer ysgrifennu i wneud nodiadau yn ystod yr arholiad llafar (gallai hwn fod yn gopi electronig). Fodd bynnag, ni ellir mynd ag unrhyw ddeunydd ysgrifenedig arall i mewn, gan gynnwys cwestiynau, nodiadau, llyfrau neu eiriaduron.
- Dylai'r Cadeirydd dynnu sylw'r myfyriwr at y gweithdrefnau sy'n dilyn yr arholiad llafar; h.y. y bydd y canlyniad a argymhellir yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Graddau Ymchwil a phan fo hynny'n briodol, Bwrdd Dyfarniadau Prifysgol Cymru. Dylai'r Cadeirydd atgoffa'r myfyriwr i ofyn am eglurhad os bydd cwestiwn yn aneglur.
- Os bydd myfyriwr wedi gofyn i aelod o'r tîm goruchwylio fod yn bresennol yn yr arholiad llafar, dylai'r Cadeirydd sicrhau bod yr aelod o'r tîm goruchwylio yn bresennol fel sylwedydd tawel yn unig.
- Caiff y Cadeirydd ofyn i'r myfyriwr roi trosolwg byr o'r ymchwil ar ddechrau'r arholiad. Dylid cytuno ar hyn â'r myfyriwr cyn yr arholiad llafar a chaiff y myfyriwr gynnwys cyflwyniad PowerPoint os cytunir arnynt. Yn ystod yr arholiad dilynol gan yr arholwyr dylai'r Cadeirydd gymryd nodiadau o'r arholiad.
- Pan fydd yr arholwyr wedi nodi diwedd yr arholiad, dylai'r Cadeirydd ofyn i'r myfyriwr a yw am ychwanegu unrhyw beth. Ar hyn o bryd, dylai'r Cadeirydd hefyd ofyn i unrhyw aelod o'r tîm goruchwylio adael yr ystafell er mwyn rhoi cyfle i'r myfyriwr drafod eu goruchwyliaeth yn gyfrinachol os yw'n dymuno.
- Ar ddiwedd yr arholiad gofynnir i'r myfyriwr a'r goruchwyliwr, os yw'n bresennol, adael yr ystafell tra bydd yr arholwyr yn penderfynu ar eu hargymhelliad. Fel arfer bydd hyn yn cymryd tua 30 munud ond

gallai gymryd llawer yn hwy.

- Wedyn gofynnir i'r myfyriwr ddychwelyd i'r ystafell i gael adborth ar yr arholiad llafar a chael gwybod am y canlyniad a argymhellir a fydd yn cael ei anfon i'r Pwyllgor Graddau Ymchwil. Y disgwyl arferol yw y bydd adborth ar unwaith yn cael ei roi ar ddiwrnod yr arholiad yn dilyn yr arholiad llafar. Dan amgylchiadau eithriadol, er enghraifft pan nad yw'r arholwyr yn gallu cytuno ar y canlyniad, mae'n bosibl y bydd angen gohirio'r argymhelliad. Rhaid i gadeiryddion arholiadau mewn sefydliadau partner cydweithredol sicrhau bod myfyrwyr yn ymwybodol y bydd angen i'r canlyniad a argymhellir gael ei ystyried a'i gymeradwyo gan Bwyllgor Graddau Ymchwil Y Drindod Dewi Sant.
- Dylai'r Cadeirydd roi gwybod i'r myfyriwr ynghylch yr amser yn fras pan ddisgwylir cyhoeddi'r canlyniad ffurfiol. Mae'n rhaid i'r myfyriwr gael gwybod y gall gymryd sawl wythnos yn dibynnu ar ddyddiadau cyfarfodydd y Pwyllgor. Bydd staff Swyddfa'r Coleg Doethurol yn gallu rhoi gwybod i'r Cadeirydd pan drefnir cyfarfodydd y Pwyllgor Graddau Ymchwil a Bwrdd Dyfarniadau PC.

## Ar ôl yr arholiad llafar

- Ar ôl yr arholiad llafar, bydd gofyn i'r Arholwr Allanol gwblhau adroddiad ar yr arholiad llafar a bydd y ddau arholwr yn cwblhau adroddiad ar y cyd. Mewn rhai achosion mae'r arholwyr yn ysgrifennu'r adroddiadau yn hwyrach. Fodd bynnag, mae angen i'r Cadeirydd sicrhau bod yr arholwyr wedi llofnodi'r Ffurflenni Arholi. Mae'r ffurflen yn gofyn am adroddiad byr gan y Cadeirydd i adfyfyrio ar y broses arholi llafar ac i gadarnhau bod yr holl weithdrefnau a rheoliadau wedi eu dilyn yn gywir.
- Mae angen i'r Cadeirydd hefyd sicrhau bod yr adroddiad ar y cyd yn tynnu ynghyd unrhyw safbwyntiau gwahanol am y traethawd ymchwil a allai fod wedi eu mynegi gan yr arholwyr yn eu hadroddiadau unigol a bod y canlyniad a argymhellir yn gwbl gyfiawn. Yn yr adroddiad ar y cyd dylid mynegi'n gryno farn gytûn am brif gryfderau a gwendidau'r myfyriwr, y dull o ymdrin â'r pwnc a'r perfformiad yn yr arholiad llafar.
- Os nad yw arholwyr yn gallu dod i ganlyniad a argymhellir, mae angen i'r Cadeirydd egluro iddynt y rheoliad fel yr amlinellir isod.
- Yn dilyn yr arholiad llafar, mae'n rhaid i'r Cadeirydd gyflwyno'r adroddiadau a'r Ffurflenni Arholiad wedi'u llofnodi i Swyddfa'r Coleg Doethurol o fewn pum diwrnod gwaith yn dilyn yr arholiad llafar. Bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu cyflwyno i Bwyllgor Graddau Ymchwil y Drindod Dewi Sant a, lle bo'n briodol, Fwrdd Dyfarniadau Prifysgol Cymru i gael eu cymeradwyo.

## Cyfrifoldebau Pellach

Os mai canlyniad yr Arholiad yw Ailgyflwyno, mae'n ofynnol i'r Bwrdd Arholi archwilio'r traethawd ymchwil a ailgyflwynir. Bydd y traethawd ymchwil a ailgyflwynir yn cael ei ail-arholi gan y ddau arholwr eto ac mae'n rhaid i'r ddau arholwr gyflwyno adroddiadau annibynnol. Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Arholi ailgyflwyniadau gynnal arholiad llafar ar gyfer y traethawd ymchwil a ailgyflwynir, er, mewn achosion eithriadol gellir hepgor y gofyniad am arholiad llafar yn ôl disgresiwn y Bwrdd Arholi ailgyflwyniadau a dim ond lle mae adroddiadau annibynnol rhagarweiniol y ddau arholwr yn argymell yn glir y dylid cymeradwyo'r myfyriwr ar gyfer y radd a geisir. Mae penderfyniad terfynol p'un ai i hepgor yr arholiad llafar ai peidio yn cael ei wneud gan Gadeirydd y Bwrdd Arholi.

# ARHOLIAD RHAGARWEINIOL O'R TRAETHAWD YMCHWIL

Mae holl ganlyniadau arholiadau yn rhai dros dro nes i'r PGY eu cadarnhau.

## MPhil, PhD, PhD trwy Weithiau Cyhoeddedig, a'r Ddoethuriaeth Broffesiynol

Bydd y ddau arholwr yn ysgrifennu ac yn cyflwyno adroddiad annibynnol i'r Cadeirydd am y traethawd ymchwil.

Mae'r adroddiad annibynnol yn adroddiad cyn-arholiad llafar y mae'n rhaid ei gyflwyno o leiaf wythnos cyn dyddiad yr arholiad llafar. Bydd yr adroddiadau hyn yn rhan o'r adroddiad arholi a fydd hefyd yn cynnwys adroddiad ar y cyd o'r arholiad llafar.

Os yw'r cyflwyniad yn cynnwys arteffactau nad ydynt o natur destunol, mae'n rhaid i'r broses arholi fod wedi'i chymeradwyo gan y PGY fel rhan o enwebu'r Bwrdd Arholi.

Ni chaniateir i Arholwyr gyfathrebu'n uniongyrchol â'i gilydd am y traethawd ymchwil cyn i'r Cadeirydd dderbyn eu hadroddiadau annibynnol. Gallant godi unrhyw bryderon am y traethawd ymchwil gyda Chadeirydd y Bwrdd Arholi cyn cyflwyno'r adroddiadau annibynnol.

Dylai'r Cadeirydd ddarllen y ddau adroddiad annibynnol a gwneud nodyn o unrhyw wahaniaethau rhwng yr adroddiadau. Dylai'r Cadeirydd hefyd fod yn effro i unrhyw broblemau difrifol y tynnwyd sylw atynt yn yr adroddiadau. Mae'n bosibl y bydd y Cadeirydd yn ystyried bod dull adrodd arholwr yn afresymol, yn annheg, heb fod yn unol â gofynion arholi graddau ymchwil, neu'n groes i reoliadau'r Brifysgol. Mewn achosion o'r fath, argymhellir bod y Cadeirydd yn cyfeirio unrhyw bryderon at Gadeirydd y PGY yn ysgrifenedig. Yn yr un modd, os daw'r Cadeirydd yn ymwybodol o unrhyw wrthdaro buddiannau o ran cyfansoddiad y Bwrdd Arholi, mae angen i'r Cadeirydd gysylltu â Chadeirydd y PGY cyn gynted ag y bo modd.

## MRes, MA trwy Ymchwil/MSc trwy Ymchwil

Bydd y ddau arholwr yn ysgrifennu ac yn cyflwyno adroddiad annibynnol i'r Cadeirydd am y traethawd ymchwil.

Mae'r adroddiad annibynnol yn adroddiad cyn yr arholiad llafar y mae'n rhaid ei gyflwyno o leiaf wythnos cyn dyddiad yr arholiad llafar. Bydd yr adroddiadau hyn yn rhan o'r adroddiad arholi a fydd hefyd yn cynnwys adroddiad ar y cyd o'r arholiad llafar.

Mae'r adroddiad annibynnol yn cynrychioli adroddiad cychwynnol sy'n penderfynu a oes angen arholiad llafar ai peidio.

Os yw'r cyflwyniad yn cynnwys arteffactau nad ydynt o natur destunol, mae'n rhaid i'r broses arholi fod wedi'i chymeradwyo gan y PGY fel rhan o enwebu'r Bwrdd Arholi.

Ni chaniateir i Arholwyr gyfathrebu'n uniongyrchol â'i gilydd am y traethawd ymchwil cyn i'r Cadeirydd dderbyn eu hadroddiadau annibynnol. Gallant godi unrhyw bryderon am y traethawd ymchwil gyda Chadeirydd y Bwrdd Arholi cyn cyflwyno'r adroddiadau annibynnol.

Dylai'r Cadeirydd ddarllen y ddau adroddiad annibynnol a gwneud nodyn o unrhyw wahaniaethau rhwng yr adroddiadau. Dylai'r Cadeirydd hefyd fod yn effro i unrhyw broblemau difrifol y tynnwyd sylw atynt yn yr adroddiadau. Mae'n bosibl y bydd y Cadeirydd yn ystyried bod dull adrodd arholwr yn afresymol, yn annheg, heb fod yn unol â gofynion arholi graddau ymchwil, neu'n groes i reoliadau'r Brifysgol. Mewn achosion o'r fath, argymhellir bod y Cadeirydd yn cyfeirio unrhyw bryderon at Gadeirydd y PGY yn ysgrifenedig. Yn yr un modd, os daw'r Cadeirydd yn ymwybodol o unrhyw wrthdaro buddiannau o ran cyfansoddiad y Bwrdd Arholi, mae angen i'r Cadeirydd gysylltu

â Chadeirydd y PGY cyn gynted ag y bo modd.

Dylai'r Cadeirydd benderfynu a oes angen arholiad llafar, ar sail argymhellion yr arholwyr yn yr adroddiadau annibynnol. Os bydd un neu'r ddau arholwr yn argymell bod angen arholiad llafar, trefnir arholiad llafar. Os nad oes angen arholiad llafar, ond bod o leiaf un arholwr wedi nodi bod rhaid gwneud cywiriadau a newidiadau, mae'n rhaid i'r Cadeirydd ddynodi pa arholwr fydd yn gyfrifol am graffu ar y cywiriadau.

# Y gofyniad o ran yr Arholiad Llafar

Mae arholiadau llafar yn orfodol ar gyfer ymgeiswyr doethurol (gan gynnwys MPhil) sy'n cyflwyno am y tro cyntaf, hyd yn oed pan fydd yr arholwyr naill ai wedi nodi diffygion difrifol yn y traethawd ymchwil neu pan maent yn gwbl fodlon â chynnwys ac ansawdd y traethawd ymchwil.

Mae angen arholiadau llafar ar gyfer ymgeiswyr MRes/MA trwy Ymchwil/MSc trwy Ymchwil dim ond pan fydd arholwyr y traethawd ymchwil wedi gofyn am hynny. Pan nad yw'r arholwyr yn gofyn am arholiad llafar, rhaid iddynt lunio adroddiad y cytunwyd arno yn ogystal â'r adroddiadau unigol.

Ni chaniateir i arholwyr fethu neu gyfeirio (canlyniadau C neu D) traethawd ymchwil am resymau nas codwyd gyda'r ymgeisydd yn yr arholiad llafar. Mewn achosion lle mae arholwyr wedi nodi diffygion difrifol yn y traethawd ymchwil, rhaid rhoi cyfle i'r ymgeisydd amddiffyn ei waith mewn arholiad llafar.

Yn achos traethodau ymchwil a ailgyflwynir am radd ddoethurol, caiff arholwyr hepgor y gofyniad i gynnal arholiad llafar os mai'r argymhelliad yw dyfarnu'r radd a bod y ddau/pob arholwr yn gytûn.

Pan fydd myfyriwr yn gwrthod mynd i arholiad llafar (gydag ymdrechion rhesymol wedi'u gwneud i sicrhau ei fod yn gyfleus), bernir bod y myfyriwr wedi methu ei radd.

### Dibenion yr arholiad llafar

Dibenion yr arholiad llafar yw:

- Galluogi'r arholwyr i sicrhau eu hunain mai gwaith yr ymgeisydd ei hun yw'r traethawd ymchwil a'r ymchwil y cyfeiria ato. Os yw'r traethawd ymchwil ar ffurf cyfnodolyn efallai y bydd adrannau ohono wedi'u cydysgrifennu. Rhaid i'r datganiad hawlfraint ar ddechrau'r traethawd ymchwil ei gwneud yn glir pa adrannau sy'n gydweithredol neu heb fod yn waith y myfyriwr ei hun er mwyn galluogi'r arholwyr i sicrhau eu hunain bod y traethawd ymchwil a'r ymchwil y cyfeiria ato yn waith yr ymgeisydd ei hun.
- Rhoi cyfle i'r ymgeisydd amddiffyn y traethawd ymchwil, egluro unrhyw bethau aneglur y mae'r arholwyr wedi'u nodi a thrafod pwnc y traethawd yn ei gyd-destun disgyblaethol neu ryng-ddisgyblaethol.
- Galluogi'r ymgeisydd i ddangos dealltwriaeth gadarn o'r maes ymchwil a rhoi cyfle i'r arholwyr asesu gwybodaeth ehangach yr ymgeisydd am y maes neu'r ddisgyblaeth y perthyn y traethawd ymchwil iddi.

# Yr Arholiad Llafar (Viva Voce)

Fel arfer cynhelir yr arholiad llafar ar un o gampysau'r Brifysgol neu yn y sefydliad partner cydweithredol. Gyda chymeradwyaeth y PGY, gellir cynnal yr arholiad llafar mewn man arall neu trwy gyswllt fideo. O ran y dewis olaf, rhaid i'r Cadeirydd sicrhau bod y myfyriwr yn medru cyfathrebu â'r Bwrdd Arholi yn unig yn ystod yr arholiad.

Pan fydd y Bwrdd Arholi'n ymgynnull ar ddiwrnod yr arholiad, rhaid i adroddiadau ysgrifenedig annibynnol pob arholwr fod ar gael i holl aelodau'r Bwrdd. Dylid cynnal cyfarfod rhagarweiniol o'r Bwrdd Arholi cyn yr arholiad llafar i ystyried strwythur y cwestiynu, cadarnhau barn gychwynnol yr arholwyr a phenderfynu ar y prif bwyntiau i'w codi yn ystod yr arholiad. Dylid rhoi cyfle i fyfyrwyr wneud sylwadau am unrhyw bwyntiau anffafriol ac am unrhyw newidiadau sylweddol mae'r arholwyr yn bwriadu'u hargymell.

Hyd yn oed pan mae'r ddau arholwr o'r farn fod y traethawd ymchwil o'r safon ofynnol cyn yr arholiad llafar, ni ddylai fod unrhyw awgrym fod yr arholiad llafar yn fater o ffurfioldeb. Mae'n ofynnol i arholwyr fodloni'u hunain yn yr arholiad llafar mai gwaith gwreiddiol y myfyriwr yw'r traethawd ymchwil a bod y myfyriwr yn deall cynnwys y traethawd ymchwil yn llwyr.

Cyfrifoldeb y myfyriwr yw gwneud y Cadeirydd yn ymwybodol, cyn dechrau'r arholiad, o amgylchiadau esgusodol a allai effeithio ar berfformiad y myfyriwr yn yr arholiad llafar. Cyfrifoldeb y Cadeirydd yw cadarnhau unrhyw addasiadau priodol sydd eu hangen o ganlyniad. Ni fydd apeliadau academaidd sy'n seiliedig ar amgylchiadau esgusodol y gellid bod wedi tynnu sylw'r Bwrdd Arholi atynt cyn yr arholiad llafar yn cael eu hystyried.

Caniateir i fyfyriwr ddod â chopi heb nodiadau o'r traethawd ymchwil i'r arholiad llafar ac unrhyw ddeunydd arall a gyflwynwyd gyda'r traethawd ymchwil, a phapur gwag ac offer ysgrifennu i wneud nodiadau yn ystod yr arholiad llafar. Fodd bynnag, nid oes hawl dod ag unrhyw ddeunydd ysgrifenedig arall, gan gynnwys cwestiynau, nodiadau, llyfrau na geiriaduron.

Ar ddechrau'r arholiad, dylai'r Cadeirydd sicrhau bod y myfyriwr yn cael ei gyflwyno i'r arholwyr. Dylai'r Cadeirydd egluro pwrpas yr arholiad llafar i'r arholwyr a'r myfyriwr. Dylai'r Cadeirydd sicrhau bod yr arholwyr a'r myfyriwr yn ymwybodol o reoliadau a chanllawiau'r Brifysgol sy'n ymwneud ag arholi traethawd ymchwil. Dylai'r Cadeirydd egluro strwythur yr arholiad llafar a gwneud rolau'r arholwyr ac unrhyw unigolion eraill sy'n bresennol yn glir. Os oes unrhyw unigolion eraill yn bresennol, dylai'r Cadeirydd gadarnhau nad oes gan y myfyriwr na'r arholwyr, os yw'n briodol, unrhyw wrthwynebiad i bresenoldeb yr unigolion hynny.

Caiff y Cadeirydd ofyn i'r myfyriwr roi trosolwg byr o'r ymchwil ar ddechrau'r arholiad.

Ar ddiwedd yr arholiad llafar, gofynnir i'r myfyriwr ac unrhyw aelodau o'r tîm goruchwylio adael yr ystafell tra penderfyna'r arholwyr ar eu hargymhelliad. Wedyn gofynnir i'r myfyriwr ddychwelyd i'r ystafell i gael adborth ar yr arholiad llafar a chael gwybod am y canlyniad a argymhellir, a fydd yn cael ei anfon at y PGY. Dylai'r Cadeirydd ei gwneud yn glir bod argymhelliad y Bwrdd Arholi'n un amodol ac mai'r PGY priodol fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Dylai'r Cadeirydd roi gwybod yn fras i'r myfyriwr pryd y gellir disgwyl hysbysiad ffurfiol o'r canlyniad.

# Pan na ddaw'r arholwyr i gytundeb

Os na all yr arholwyr gytuno ar ganlyniad i'w argymell, dylid rhoi gwybod i'r myfyrwyr fod gwahaniaeth barn rhwng yr arholwyr (ond nid beth yw'r argymhellion gwahanol) ac y caiff y mater ei gyfeirio at arholwr allanol ychwanegol yn unol â'r gweithdrefnau a ddisgrifir isod.

Rhaid rhoi gwybod i Gadeirydd y PGY a rhaid i'r PGY benodi arholwr allanol ychwanegol.

Bydd yr arholwr allanol ychwanegol yn gweithredu'n ganolwr a'i rôl yw arholi'r traethawd ymchwil, adolygu adroddiadau unigol yr arholwyr, ac adolygu'r broses arholi.

Mae gan yr arholwr allanol ychwanegol yr opsiynau canlynol:

- cadarnhau un o'r ddau argymhelliad a gynigiwyd gan y Bwrdd Arholi;
- dod i'r casgliad mai hanfod yr anghytundeb yw perfformiad y myfyriwr yn yr arholiad llafar a chynnal ail arholiad llafar ar gyfer y myfyriwr, gyda'r arholwr sy'n cyflafareddu a Chadeirydd y Bwrdd Arholi'n bresennol, i benderfynu ar ganlyniad a argymhellir i'w gymeradwyo gan y PGY;
- argymell i'r PGY bod angen dechrau'r holl broses arholi eto gyda Bwrdd Arholi newydd. Rhaid i'r ail Fwrdd Arholi hwn benderfynu ar ganlyniad a argymhellir i'w gymeradwyo gan y PGY.

Bydd gofyn i'r arholwr allanol ychwanegol gyflwyno adroddiad yn egluro'r rheswm wrth wraidd y penderfyniad a wnaed.

# CANLYNIADAU BWRDD ARHOLI

## Canlyniadau PhD

- **A:** Bod y myfyriwr yn cael ei gymeradwyo am radd PhD;
- **B:** Bod y myfyriwr yn cael ei gymeradwyo am radd PhD yn amodol ar gwblhau'n foddhaol y cywiriadau a'r newidiadau a all fod yn ofynnol gan y Bwrdd Arholi. Gallai'r Bwrdd Arholi fynnu bod y naill arholwr neu'r llall, neu'r ddau, yn craffu ar y cywiriadau a wneir, cyn cychwyn ar y broses ddyfarnu. Fel rheol, bydd y cywiriadau'n cael eu cwblhau cyn pen 6 mis o ddyddiad yr hysbysiad swyddogol i'r myfyriwr o ganlyniad yr arholiad;
- **C:** Nad yw'r myfyriwr yn cael ei gymeradwyo am radd PhD ar hyn o bryd ond y caniateir i'r myfyriwr addasu'r traethawd ymchwil a'i ailgyflwyno i'w arholi ar gyfer y radd PhD ar un achlysur pellach. Dylid ailgyflwyno o fewn cyfnod heb fod yn fwy na blwyddyn o ddyddiad yr hysbysiad swyddogol i'r myfyriwr o ganlyniad yr arholiad (nid yw'r dewis hwn ar gael yn achos myfyriwr sydd wedi ailgyflwyno traethawd ymchwil i'w arholi);
- **D:** Nad yw'r myfyriwr yn cael ei gymeradwyo am radd PhD ond yn cael ei gymeradwyo yn lle hynny am radd MPhil, yn amodol lle bo'n briodol ar gwblhau'n foddhaol y cywiriadau a'r newidiadau a all fod yn ofynnol gan y Bwrdd Arholi. Gallai'r Bwrdd Arholi fynnu bod y naill arholwr neu'r llall, neu'r ddau, yn craffu ar y cywiriadau, cyn cychwyn ar y broses ddyfarnu; rhaid i'r cywiriadau a'r newidiadau gael eu cwblhau o fewn cyfnod o 6 mis o ddyddiad yr hysbysiad swyddogol i'r myfyriwr o ganlyniad yr arholiad;
- **E:** Nad yw'r myfyriwr yn cael ei gymeradwyo am radd PhD ond y caniateir i'r myfyriwr addasu'r traethawd ymchwil a'i ailgyflwyno i'w arholi ar gyfer y radd MPhil ar un achlysur pellach. Dylid ailgyflwyno o fewn cyfnod heb fod yn fwy na blwyddyn o ddyddiad yr hysbysiad swyddogol i'r myfyriwr o ganlyniad yr arholiad (nid yw'r dewis hwn ar gael yn achos myfyriwr sydd wedi ailgyflwyno traethawd ymchwil i'w arholi);
- **F:** Nad yw'r myfyriwr yn cael ei gymeradwyo am ddyfarniad gradd. Mae hyn yn cynnwys pan nad yw'r ymgeisydd wedi gwneud mân gywiriadau fel y'u nodwyd gan y bwrdd arholwyr ac nad yw i'w gymeradwyo ar gyfer y dyfarniad.

## Canlyniadau Doethuriaeth Broffesiynol

- **A:** Bod y myfyriwr yn cael ei gymeradwyo am radd Doethuriaeth Broffesiynol;
- **B:** Bod y myfyriwr yn cael ei gymeradwyo am radd Doethuriaeth Broffesiynol yn amodol ar gwblhau'n foddhaol y cywiriadau a'r newidiadau a all fod yn ofynnol gan y Bwrdd Arholi. Gallai'r Bwrdd Arholi fynnu bod y naill arholwr neu'r llall, neu'r ddau, yn craffu ar y cywiriadau a wneir, cyn cychwyn ar y broses ddyfarnu. Fel rheol, bydd y cywiriadau'n cael eu cwblhau cyn pen 6 mis o ddyddiad yr hysbysiad swyddogol i'r myfyriwr o ganlyniad yr arholiad;
- **C:** Nad yw'r myfyriwr yn cael ei gymeradwyo am radd Doethuriaeth Broffesiynol ar hyn o bryd ond y caniateir i'r myfyriwr addasu'r traethawd ymchwil a'i ailgyflwyno i'w arholi ar gyfer y radd Doethuriaeth Broffesiynol ar un achlysur pellach. Dylid ailgyflwyno o fewn cyfnod heb fod yn fwy na blwyddyn o ddyddiad yr hysbysiad swyddogol i'r myfyriwr o ganlyniad yr arholiad (nid yw'r dewis hwn ar gael yn achos myfyriwr sydd wedi ailgyflwyno traethawd ymchwil i'w arholi);
- **D:** Nad yw'r myfyriwr yn cael ei gymeradwyo am radd Doethuriaeth Broffesiynol. Mae hyn yn cynnwys pan nad yw'r ymgeisydd wedi gwneud mân gywiriadau fel y'u nodwyd gan y bwrdd arholwyr ac nad yw i'w gymeradwyo ar gyfer y dyfarniad.

## Canlyniadau PhD trwy Weithiau Cyhoeddedig

- **A:** Bod y myfyriwr yn cael ei gymeradwyo am radd PhD trwy Weithiau Cyhoeddedig;
- **B** Bod y myfyriwr yn cael ei gymeradwyo am radd PhD trwy Weithiau Cyhoeddedig yn amodol ar gwblhau'n foddhaol y cywiriadau a'r newidiadau hynny i'r dadansoddiad adfyfyriol a all fod yn ofynnol gan y Bwrdd Arholi. Gallai'r Bwrdd Arholi fynnu bod y naill arholwr neu'r llall, neu'r ddau, yn craffu ar y

cywiriadau a wneir, cyn cychwyn ar y broses ddyfarnu. Fel rheol, bydd y cywiriadau'n cael eu cwblhau cyn pen 12 wythnos o ddyddiad yr hysbysiad swyddogol i'r myfyriwr o ganlyniad yr arholiad;
- **C:** Nad yw'r myfyriwr yn cael ei gymeradwyo am radd PhD trwy Weithiau Cyhoeddedig ar hyn o bryd ond y caniateir i'r myfyriwr addasu'r dadansoddiad adfyfyriol a'i ailgyflwyno i'w arholi ar gyfer y radd PhD trwy Weithiau Cyhoeddedig ar un achlysur pellach. Dylid ailgyflwyno o fewn cyfnod heb fod yn fwy na 6 mis o ddyddiad yr hysbysiad swyddogol i'r myfyriwr o ganlyniad yr arholiad (nid yw'r dewis hwn ar gael yn achos myfyriwr sydd wedi ailgyflwyno dadansoddiad adfyfyriol i'w arholi);
- **D:** Nad yw'r myfyriwr yn cael ei gymeradwyo am ddyfarniad gradd. Mae hyn yn cynnwys pan nad yw'r ymgeisydd wedi gwneud mân gywiriadau fel y'u nodwyd gan y bwrdd arholwyr ac nad yw i'w gymeradwyo ar gyfer y dyfarniad.

# Canlyniadau MPhil

- **A:** Bod y myfyriwr yn cael ei gymeradwyo am radd MPhil;
- **B:** Bod y myfyriwr yn cael ei gymeradwyo am radd MPhil yn amodol ar gwblhau'n foddhaol y cywiriadau a'r newidiadau a all fod yn ofynnol gan y Bwrdd Arholi. Gallai'r Bwrdd Arholi fynnu bod y naill arholwr neu'r llall, neu'r ddau, yn craffu ar y cywiriadau a wneir, cyn cychwyn ar y broses ddyfarnu. Fel rheol, bydd y cywiriadau'n cael eu cwblhau cyn pen 6 mis o ddyddiad yr hysbysiad swyddogol i'r myfyriwr o ganlyniad yr arholiad;
- **C:** Nad yw'r myfyriwr yn cael ei gymeradwyo am radd MPhil ar hyn o bryd ond y caniateir i'r myfyriwr addasu'r traethawd ymchwil a'i ailgyflwyno i'w arholi ar gyfer y radd MPhil ar un achlysur pellach. Dylid ailgyflwyno o fewn cyfnod heb fod yn fwy na blwyddyn o ddyddiad yr hysbysiad swyddogol i'r myfyriwr o ganlyniad yr arholiad (nid yw'r dewis hwn ar gael yn achos myfyriwr sydd wedi ailgyflwyno traethawd ymchwil i'w arholi);
- **D:** Nad yw'r myfyriwr yn cael ei gymeradwyo am radd MPhil. Mae hyn yn cynnwys pan nad yw'r ymgeisydd wedi gwneud mân gywiriadau fel y'u nodwyd gan y bwrdd arholwyr ac nad yw i'w gymeradwyo ar gyfer y dyfarniad.

# Canlyniadau MRes/MA trwy Ymchwil/MSc trwy Ymchwil

Canlyniadau Adroddiad Cychwynnol

- **A:** Bod y myfyriwr yn cael ei gymeradwyo am radd Meistr trwy Ymchwil (MRes) / Meistr yn y Celfyddydau trwy Ymchwil (MA) / Meistr yn y Gwyddorau trwy Ymchwil (MSc);
- **B:** Bod y myfyriwr yn cael ei gymeradwyo am radd Meistr trwy Ymchwil (MRes) / Meistr yn y Celfyddydau trwy Ymchwil (MA) / Meistr yn y Gwyddorau trwy Ymchwil (MSc) yn amodol ar gwblhau'n foddhaol y cywiriadau a'r newidiadau a allai fod yn ofynnol gan y Bwrdd Arholi. Gallai'r Bwrdd Arholi fynnu bod y naill arholwr neu'r llall, neu'r ddau, yn craffu ar y cywiriadau a wneir, cyn cychwyn ar y broses ddyfarnu. Fel rheol, bydd y cywiriadau'n cael eu cwblhau cyn pen 12 wythnos o ddyddiad yr hysbysiad swyddogol i'r myfyriwr o ganlyniad yr arholiad;
- **C:** Bod arholiad llafar yn ofynnol er mwyn gwneud argymhelliad.

Canlyniadau yn dilyn Arholiad Llafar

- **A:** Bod y myfyriwr yn cael ei gymeradwyo am radd Meistr trwy Ymchwil (MRes) / Meistr yn y Celfyddydau trwy Ymchwil (MA) / Meistr yn y Gwyddorau trwy Ymchwil (MSc);
- **B:** Bod y myfyriwr yn cael ei gymeradwyo am radd Meistr trwy Ymchwil (MRes) / Meistr yn y Celfyddydau trwy Ymchwil (MA) / Meistr yn y Gwyddorau trwy Ymchwil (MSc) yn amodol ar gwblhau'n foddhaol y cywiriadau a'r newidiadau a allai fod yn ofynnol gan y Bwrdd Arholi. Gallai'r Bwrdd Arholi fynnu bod y naill arholwr neu'r llall, neu'r ddau, yn craffu ar y cywiriadau a wneir, cyn cychwyn ar y broses ddyfarnu. Fel rheol, bydd y cywiriadau'n cael eu cwblhau cyn pen 12 wythnos o ddyddiad yr hysbysiad swyddogol i'r myfyriwr o ganlyniad yr arholiad.
- **C:** Nad yw'r myfyriwr yn cael ei gymeradwyo am radd Meistr trwy Ymchwil (MRes) / Meistr yn y Celfyddydau trwy Ymchwil (MA) / Meistr yn y Gwyddorau trwy Ymchwil (MSc) ar hyn o bryd ond y

caniateir i'r myfyriwr addasu'r traethawd ymchwil a'i ailgyflwyno i'w arholi ar gyfer y radd Meistr trwy Ymchwil (MRes) / Meistr yn y Celfyddydau trwy Ymchwil (MA) / Meistr yn y Gwyddorau trwy Ymchwil (MSc) ar un achlysur pellach. Dylid ailgyflwyno o fewn cyfnod heb fod yn fwy na 6 mis o ddyddiad yr hysbysiad swyddogol i'r myfyriwr o ganlyniad yr arholiad (nid yw'r dewis hwn ar gael yn achos myfyriwr sydd wedi ailgyflwyno traethawd ymchwil i'w arholi);

- **D:** Nad yw'r myfyriwr yn cael ei gymeradwyo am radd Meistr trwy Ymchwil (MRes) / Meistr yn y Celfyddydau trwy Ymchwil (MA) / Meistr yn y Gwyddorau trwy Ymchwil (MSc). Mae hyn yn cynnwys pan nad yw'r ymgeisydd wedi gwneud mân gywiriadau fel y'u nodwyd gan y bwrdd arholwyr ac nad yw i'w gymeradwyo ar gyfer y dyfarniad.

Ar gyfer yr holl ddyfarniadau, pan fydd cywiriadau wedi'u nodi i'w cadarnhau gan y naill neu'r llall o'r arholwyr neu'r ddau, ac nid yw'r arholwr/arholwyr perthnasol ar gael, fel arfer dylid cadarnhau'r cywiriadau gan yr arholwr arall. Pe na bai'r ddau arholwr ar gael, bydd y PGY yn cadarnhau tîm arholi newydd i gadarnhau'r cywiriadau.

# Adroddiadau Byrddau Arholi a Chanlyniadau'r PGY

Bwriedir i ffurflenni Canlyniad ac Adroddiad Arholwyr fod yn gyfrwng i fynegi adroddiadau'r arholwyr a Chadeirydd y Bwrdd Arholi, ac fe'u defnyddir gan y Bwrdd Arholi i wneud argymhelliad ffurfiol i'r Brifysgol ynglŷn â chanlyniad y broses arholi.
Hysbysir arholwyr fod gan fyfyrwyr, dan delerau Deddf Diogelu Data 1998 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, hawl i wneud cais i weld unrhyw sylwadau a wnaethpwyd amdanynt yn yr adroddiadau hyn.

Cyn unrhyw arholiad llafar, bydd y ddau arholwr yn ysgrifennu ac yn cyflwyno adroddiad annibynnol i'r cadeirydd a fydd yn dosbarthu'r ddau adroddiad cyn yr arholiad llafar.

Rhaid i'r adroddiad ddarparu adborth clir a llawn gwybodaeth i'r Brifysgol ynglŷn â'r canlynol:

- a yw'r Brifysgol yn cynnal y safonau academaidd trothwy a osodwyd ar gyfer y dyfarniad, yn unol â'r fframweithiau ar gyfer cymwysterau Addysg Uwch a datganiadau meincnodi pwnc perthnasol a datganiadau eraill;
- a yw'r broses asesu'n mesur cyrhaeddiad y myfyriwr yn drylwyr ac yn deg yn erbyn deilliannau arfaethedig y rhaglen ac yn cael ei chynnal yn unol â pholisïau a rheoliadau'r Brifysgol;
- ac yn achos arholwyr allanol, a ellir cymharu safon academaidd a chyflawniad y myfyriwr â'r hyn a geir mewn Sefydliadau Addysg Uwch eraill yn y DU y mae gan yr arholwr allanol brofiad ohonynt.

Rhaid cyflwyno'r adroddiad ôl-viva wedi'i gwblhau i Swyddfa'r Coleg Doethurol o fewn uchafswm o 2 wythnos ar ôl dyddiad yr arholiad llafar. Ystyrir bod methu â chyflwyno'r adroddiadau gofynnol o fewn y cyfnodau amser hyn yn gyfystyr â thorri contract yr arholwr.

## Ar ôl yr Arholiad

Ar ddiwedd yr arholiad, pan fo arholiad llafar wedi'i gynnal, mae'n ofynnol i'r arholwyr gyflwyno adroddiad ar y cyd yn nodi'u rhesymau am yr argymhelliad i'r cadeirydd. Yn yr adroddiad ar y cyd dylai arholwyr egluro'n fanwl sut mae gwaith y myfyriwr yn bodloni'r gofynion o ran gwreiddioldeb ac ysgolheictod, neu sut y methodd â gwneud hynny.

Rhaid cynnwys cyfarwyddiadau llawn ynghylch unrhyw newidiadau sydd eu hangen i'r traethawd ymchwil, a rhaid trefnu bod y gofynion hyn ar gael i'r myfyriwr.

Mae'n rhaid i'r argymhelliad gynnwys canlyniad sydd ar gael yn y rheoliadau. Ni ellir addasu'r canlyniadau hyn (e.e. ni ellir newid y cyfnod amser sy'n gysylltiedig â chanlyniad penodol).

Cyflwynir argymhelliad y Bwrdd Arholi i'r PGY sydd â'r opsiynau canlynol:

- cymeradwyo'r canlyniad a argymhellir;
- gofyn am eglurhad pellach
- ynglŷn ag anghysondeb rhwng canlyniad ac adroddiad, a/neu
- ynglŷn â'r gwaith i'w wneud gan y myfyriwr (e.e. gofyn am adroddiad manylach) a/neu
- cadarnhad bod modd cwblhau'r newidiadau o fewn y cyfnod amser a nodir gan y rheoliadau.
- gofyn i'r Bwrdd Arholi ystyried y canlyniad eto (e.e. pan mae'n ymddangos i aelodau'r PGY na fydd yn bosibl i'r myfyriwr gwblhau'r newidiadau gofynnol o fewn y cyfnod amser a bennir gan y canlyniad);
- gwrthod y canlyniad a argymhellir gan y Bwrdd Arholi ac ailddechrau'r broses arholi gyda Bwrdd Arholi newydd.

## Gweithdrefnau ar gyfer Adrodd ynghylch Pryderon Difrifol

Os oes gan arholwyr bryderon ynglŷn â safonau a pherfformiad, yn enwedig os ystyrir bod yr asesiad yn cael ei gynnal mewn modd sy'n peryglu'r driniaeth deg o'r myfyriwr neu safon y dyfarniad, dylent godi'r pryderon hyn gyda Chadeirydd y PGY a / neu'r Dirprwy Is-Ganghellor.

Os oes gan arholwr allanol bryder difrifol ynglŷn â methiannau systemig safonau academaidd yr asesiad o ddyfarniad ymchwil, ac mae wedi bod trwy'r holl weithdrefnau mewnol perthnasol, gan gynnwys cyflwyno adroddiad cyfrinachol i'r Is-Ganghellor, gall yr arholwr allanol droi at gynllun pryderon yr ASA neu hysbysu'r corff proffesiynol, statudol neu reoleiddio perthnasol.

## Ymateb i adroddiadau Arholi Graddau Ymchwil

Ystyrir adroddiadau Arholi Graddau Ymchwil yn fanwl ar wahanol lefelau o fewn y sefydliad. Cymeradwyir holl benderfyniadau Byrddau Arholi Graddau Ymchwil gan y PGY ac archwilir yr holl adroddiadau gan y PGY. Dosberthir copïau i'r tîm goruchwylio a'r Athrofa. Mae Athrofeydd yn gyfrifol am archwilio'r holl adroddiadau arholi ac am gymryd camau priodol pan gaiff materion eu nodi.

## Hysbysiad Ffurfiol o Ganlyniad a Chyflwyno'r Traethawd Ymchwil Terfynol

Wedi i'r PGY gymeradwyo canlyniad, bydd Swyddfa'r Coleg Doethurol yn cysylltu â'r myfyriwr (fel arfer yn electronig) i gadarnhau canlyniad yr arholiad a darperir copi o adroddiadau'r arholiad.

Ar ôl cadarnhau'r dyfarniad yn swyddogol, rhaid i'r myfyriwr gyflwyno un copi electronig i'r storfa electronig i'w storio yn Llyfrgell y Brifysgol a Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn unol â chyfarwyddiadau a e-bostiwyd atynt gan y Gofrestrfa.

## Terfynu penodiad arholwr

Mae cyfraniad  yr arholwr i broses asesu graddau ymchwil yn elfen hanfodol o brosesau sicrhau ansawdd y Brifysgol. Weithiau, am amryw o resymau, nid yw arholwr bellach yn gallu darparu'r ymrwymiad angenrheidiol i fodloni gofynion y rôl. Mewn achos o'r fath, caiff y mater ei gyfeirio at Gadeirydd y Pwyllgor Graddau Ymchwil a fydd yn cynghori'r arholwr ar y cam(au) unioni a ystyrir yn angenrheidiol.

Mewn amgylchiadau eithriadol mae'n bosibl y bydd Cadeirydd y Bwrdd Arholi'n ystyried gweithredoedd NEU ddull adrodd arholwr yn afresymol, yn annheg, heb fod yn unol â gofynion arholi graddau ymchwil, neu'n groes i reoliadau'r Brifysgol. Mewn achosion o'r fath, gall gyfeirio pryderon at Gadeirydd y PGY yn ysgrifenedig. Yna dylai'r Cadeirydd adolygu'r mater a gwneud pob ymdrech i ddatrys y pryderon gan ymgynghori â'r arholwr allanol, Cadeirydd y Bwrdd Arholi, a staff priodol o'r Brifysgol.

Os daw'n amlwg, er gwaethaf y cam(au) unioni a awgrymir gan Gadeirydd y PGY, nad yw'r sefyllfa'n debygol o newid, neu os daw'n amlwg na ellir datrys pryderon a godwyd, cyfeirir y mater at y Dirprwy Is-Ganghellor a all wneud y penderfyniad bod rhaid terfynu penodiad yr arholwr.

Mae'r Brifysgol hefyd yn cadw'r  hawl i derfynu penodiad arholwr unrhyw bryd os bydd gwrthdaro buddiannau'n codi na ellir ei ddatrys yn foddhaol. Wedyn rhaid i'r PGY gymeradwyo Bwrdd Arholi newydd.

# Ffioedd ar gyfer Arholwyr Allanol

Telir ffi i Arholwyr Allanol am arholi traethawd ymchwil (sy'n cynnwys yr arholiad cychwynnol, annibynnol o'r traethawd ymchwil ac adroddiad interim, yr arholiad llafar, llunio adroddiad terfynol, a chraffu ar unrhyw gywiriadau a diwygiadau lle bo'n briodol).

Telir ffi ar wahân yn achos myfyriwr y gofynnir iddo ailgyflwyno traethawd ymchwil i'w arholi (sy'n cynnwys yr arholiad cychwynnol, annibynnol o'r traethawd ymchwil a ailgyflwynwyd ac adroddiad interim, yr arholiad llafar, llunio adroddiad terfynol, a chraffu ar unrhyw gywiriadau a diwygiadau pan fo'n briodol).

Mae gofyn gosod pob Arholwr Allanol ar y gyflogres yn weithiwr dros dro, yn unol â rheoliadau CThEM.  Os bydd Arholwr yn cyflawni'r gwaith yn y DU, rhaid cyflwyno a gwirio prawf o'u hawl i weithio yn y DU.  Os bydd Arholwr yn aros yn y famwlad ar gyfer pob gweithgaredd sy'n gysylltiedig â'r Arholiad nid oes angen prawf o'i hawl i weithio yn y DU.

Bydd Swyddfa'r Coleg Doethurol yn talu costau dilys yr arholwr allanol, y cyflwynir derbynebau ar eu cyfer (costau teithio a chynhaliaeth) hyd at uchafswm o £350.00. Efallai y bydd Athrofeydd am dalu treuliau sy'n uwch na'r swm hwn. Nid oes ffi na lwfans ar gyfer costau Cadeiryddion neu arholwyr mewnol (er ei bod yn bosibl y bydd Athrofeydd yn dymuno cyfrannu at gostau os cynhelir yr arholiad llafar mewn man heblaw lleoliad gwaith arferol y Cadeirydd neu'r arholwr mewnol.)